DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	

3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	Ar y 13/11/18, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio argymhell i'r Pwyllgor Gwaith eu bod yn cymeradwyo'r Strategaeth Rhanbarthol Ddigartrefedd a Chynllun Gwaith Lleol. Bydd Cadeirydd Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn mynychu'r Pwyllgor Gwaith ar 17/12/18 i gyflwyno adborth cryno.
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldeb	Asesiad effaith wedi ei gynnal
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

Atodiad 1 Strategaeth Rhanbarthol a Chynlluniau Gweithredu
Atodiad 2 Adroddiad Ymgynghori

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

--

Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau

Dull rhanbarthol i fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru

RHAGFYR 2018 - RHAGFYR 2022



Chartered
Institute of
Housing
Cymru



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam



CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Tudalen 89



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

Rhagair

Pan wnaethom drafod i ddechrau fel grŵp beth ddylid ei roi fel teitl i'r strategaeth hon, roedd cydnabyddiaeth dawel fod mynd i'r afael â digartrefedd ar draws y rhanbarth yn fwy na dim ond cynyddu'r cyflenwad o'r math cywir o dai.

Ydi, mae'r diffyg cyflenwad yn ffactor cyfrannol mawr i bobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref, p'un a ydynt yn cysgu allan, rhai sydd ar restrau aros tai cymdeithasol, neu'r rhai sy'n cysgu ar sofffa ffrind heb unrhyw ragolwg o lety parhaol fforddiadwy.

Ond mae'r holl dystiolaeth o'r adolygiadau digartrefedd unigol, a gynhaliwyd gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru i lywio'r strategaeth hon, yn awgrymu eglurhad mwy cymhleth o ran pam mae cynifer yn cysgu allan neu'n aros i gael tŷ.

Mae'n golygu'r grwpiau penodol o bobl sydd angen cefnogaeth, y mathau o gartrefi sydd angen i ni eu darparu iddynt a'r gwasanaethau sy'n caniatáu iddynt fyw'n gynaliadwy yn y cartrefi hynny - Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau.

Daeth themâu cyffredin i'r amlwg o ran y mathau o ddemograffeg sy'n datgan eu bod yn ddigartref, yn enwedig ein pobl ifanc, rhai ag anghenion cymhleth fel materion iechyd meddwl, a'r rhai sy'n gadael carchar.

Roedd yr adolygiadau hefyd yn nodi themâu cyffredin o ran y bylchau yn y mathau o lety, yn ogystal â'r bylchau o ran data i lywio dull strategol o fynd i'r afael â'r mater.

Yn olaf, gwnaeth y boblogaeth ar draws y rhanbarth ddangos gwir achosion eraill fel diwygio lles, diffyg ymyrraeth gynnar a diffyg cydweithredu gyda'r gwasanaeth iechyd, ac mewn rhai achosion rhwng meysydd gwasanaeth y cyngor.

Yn y bôn, mae'r strategaeth hon yn cydnabod nad oes gan ddigartrefedd, a'r materion sy'n ei achosi, unrhyw ystyriaeth i ffiniau awdurdodau lleol, ac os ydym wir am fynd i'r afael â'r mater hwn, mae angen i'r chwe chyngor gydweithio i uno data, gwasanaethau a datrysiadau. Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth sy'n seiliedig ar gydweithio i gyflawni'r nod cyffredinol - dileu digartrefedd yng Ngogledd Cymru. Datblygwyd y strategaeth o fewn cyddestun strategaethau tai lleol a bydd yn llywio cynlluniau comisiynu a blaenoriaethau cyllido ar gyfer bob ardal yr awdurdod lleol

Matt Dicks

Cyfarwyddwr, CHI Cymru

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
1.1	Cefndir Deddfwriaetho	4
1.2	Ystyriaethau Deddfwriaethol a rheoliadol ychwanegol	4
1.3	Amcanion Allweddol	4
1.4	Darlun Digartrefedd Gogledd Cymru	5
2.	Y Dull Rhanbarthol	6
2.1	Cefndir	6
2.2.	Themâu ac Amcanion Allweddol a Rennir	7
2.2.1	Pobl	8
2.2.2	Cartrefi	9
2.2.3	Gwasanaethau	10
3.	Y Fframwaith Cydweithredol	11
3.1	Y Nod Stratego	11
3.2	Cynllun gwaith cydweithredol	11
3.2.1	Pobl	11
3.2.2	Cartrefi	12
3.2.3	Gwasanaethau	13
4.	Canlyniadau	14
5.	Monitro a Gwerthuso	14
	Atodiad A	14
	Atodiad B - Cynllun Gwaith Rhanbarthol	16

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir Deddfwriaethol:

Mae Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gynnal adolygiad o ddigartrefedd a ffurfio strategaeth digartrefedd.

Mae strategaeth digartrefedd, dan adran 50 y Ddeddf, yn strategaeth ar gyfer cyflawni'r amcanion a ganlyn yn ardal yr awdurdod tai lleol:

- atal digartrefedd;
- sicrhau bod llety addas yn neu y bydd ar gael i bobl sydd yn neu a allai fod yn ddigartref;
- sicrhau bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sydd yn neu a allai fynd yn ddigartref.

1.2 Ystyriaethau Deddfwriaethol a rheoliadol ychwanegol:

Wrth baratoi'r strategaeth hon, mae partneriaid wedi cyfeirio at y pethau a ganlyn a rhoi ystyriaeth iddynt:-

- Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd
- Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer Cyn Staff Gwasanaeth
- Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystâd Ddiogeledd
- Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at fyd Oedolion
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 ac Asesiad o Anghenion Poblogaeth
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Asesiad o Les
- Cynlluniau Strategol Rhanbarthol
- Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014
- Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, 2016
- Diwygiadau Budd-daliadau Lles

1.3 Amcanion Allweddol:

Nod y strategaeth hon yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, gyda'r nod yn y pendraw o sicrhau ei fod yn dod i ben yng Ngogledd Cymru. Nod y strategaeth hon yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd, p'un ai cysgu allan, lleihau nifer sydd ar y rhestr aros tai cymdeithasol, lleihau nifer pobl sy'n cysgu ar soffas ffrindiau, ac unrhyw fath arall o ddigartrefedd, gyda'r nod yn y pen draw o sicrhau ei fod yn dod i ben yng Ngogledd Cymru. Ar ôl cynnal Adolygiad Digartrefedd ym mhob ardal awdurdod lleol, bydd y chwe awdurdod ar draws y rhanbarth yn cyrraedd y nod hwnnw drwy gyflawni'r amcanion allweddol a ganlyn:

- Datblygu dull rhanbarthol i fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru
- Rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth
- Datblygu gwasanaethau a rennir a chydweithredu lle bo'n bosibl
- Datblygu gwell dealltwriaeth o achosion digartrefedd drwy gasglu data mewn ffordd well ar draws y rhanbarth
- Lleihau digartrefedd yng Ngogledd Cymru

1.4 Darlun Digartrefedd Gogledd Cymru

Hwn oedd darlun digartrefedd yng Ngogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2018:

Nifer ar Rhestr Aros Aelwydydd
yng Ngogledd Cymru

7,022



75%

o bobl ddigartref sydd angen llety 1
ystafell wely, ond dim ond ??% o stoc
presennol sydd ag un ystafell wely



509

mewn Llety
Dros Dro

84

yn cysgu allan



Mae dau draean

o bobl Cymru yn credu y dylai Llywodraeth
Cymru ddarparu cartref o ansawdd da i bawb



2. Y Dull Rhanbarthol

2.1 Cefndir

Nododd Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a adroddodd yn 2014:

“Mae cydberthnasau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn rhy gymhleth ac nid yw’r cymhlethdod hwn yn gwneud unrhyw les i Gymru. Rhaid symleiddio strwythurau, cydberthnasau a chyfrifoldebau cyrff sector cyhoeddus Cymru, a’r partneriaethau rhyngddynt, a rhaid eguro eu hatebolrwydd a manteisio ar y synergeddau rhyngddynt.”

Ac:

“Mae angen sicrhau newid sylweddol i berfformiad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.”

Mae’r Comisiwn hefyd yn argymhell lleihau nifer y cynghorau er mwyn symleiddio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymatal rhag ad-drefnu, mae dull cydweithredol wedi parhau i lywio ei hagenda o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ers i’r comisiwn gyhoeddi ei adroddiad.

Ym mis Mehefin 2017, gwnaeth Penaethiaid Tai chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, ynghyd â Sefydliad Tai Siartredig Cymru, ymrwymo i gydweithio i ddatblygu strategaeth digartrefedd rhanbarthol.

Sefydlwyd gweithgor a dechreuwyd cyfathrebu â Llywodraeth Cymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru i’r dull rhanbarthol a amlinellir yn y ddogfen yn **Atodiad A**, os bydd pob un o’r chwe awdurdod lleol yn y rhanbarth yn mabwysiadu / cofrestru i’r strategaeth rhanbarthol.



2.2. Materion Allweddol a Rennir

Mae'r adolygiadau lleol wedi'u cynnal ac mae themâu cyffredin a meysydd gweithredu allweddol wedi'u nodi ar draws y rhanbarth:



2.2.1 Pobl (Nid yw hon yn restr gyflawn ond y grwpiau sydd wedi'u hamlygu gan adolygiadau unigol yr awdurdod lleol)

Materion allweddol

Digartrefedd ieuenctid

Sicrhau bod pobl ifanc yn cael y wybodaeth gywir drwy wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol

Camddealltwriaeth/diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaeth ymhlith pobl ifanc

Yr effaith ar bobl ifanc a'u hanghenion tai, pan fydd bywyd teuluol yn cyrraedd argyfwng

Egluro beth a olygwn wrth bobl ifanc a deall anghenion gwahanol grwpiau o bobl ifanc fel:- e.e. pobl ifanc 16-17 oed mewn llety gwely a brecwast, pobl 20-35 oed mewn llety un ystafell wely - diffyg dealltwriaeth o ran pam mae gwahanol grwpiau yn datgan eu bod yn ddigartref

Methu nodi pobl ifanc mewn perygl ar gam cynharach - e.e. agenda pobl ddiamddiffyn/ACES - ac angen i ddarparu rhagor o wasanaethau cydgysylltiedig, e.e. gwasanaethau plant ddim yn cyfathrebu gyda thai ar gam cynharach

Prinder llety a rennir a llety un ystafell wely
Prinder math cywir o lety

Nid yw llawer o bobl ifanc yn barod am denantiaeth - h.y. nid ydynt yn ariannol llythrennog, ddim wedi cael profiad o fyw'n annibynnol

Pobl sy'n cysgu allan

Mae niferoedd yn cynyddu

Diffyg math cywir o lety - e.e. llety mewn argyfwng

Diffyg cyd-weithio rhwng elusennau ac awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau estyn allan

Mynd i'r afael â'r "diwylliant cyffuriau ac alcohol" - nid oes cyfran yn defnyddio eu llety oherwydd diwylliant cyffuriau. Mae defnyddwyr cyffuriau yn llai tebygol o ddefnyddio llety gwarchod brys

Diffyg cefnogaeth i bobl â materion iechyd meddwl

Ansicrwydd am ddyfodol cyllid Cefnogi Pobl

Anghenion cymhleth	<p>Diffyg diffiniad clir o beth yw ystyr Anghenion Cymhleth</p> <p>Diffyg cydlyniad o ran darpariaeth gwasanaeth</p> <p>Diffyg tai addasol a defnydd cydlynol o adnoddau ar draws y rhanbarth</p> <p>Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Raglen Cefnogi Pobl</p>
---------------------------	--

Rhai sy'n gadael carchar	<p>Llwybr Carcharorion - dim digon o adnoddau</p> <p>Diffyg cydweithredu ar draws y rhanbarth</p> <p>Nid yw o fewn Angen Blaenoriaethol bellach</p> <p>Diffyg llety addas ar gyfer rhai sydd wedi'u dyfarnu'n euog o danau bwriadol</p>
---------------------------------	---

2.2.2 Cartrefi

Materion allweddol

'Tai yn Gyntaf'	<p>Prinder cyllid</p> <p>Diffyg Eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran ei strategaeth 'Tai yn Gyntaf' a beth mae'n ei olygu - ydi'n wariant iechyd a/neu dai?</p> <p>Diffyg awch gwleidyddol ar lefel leol mewn ardaloedd Awdurdod Lleol penodol</p>
------------------------	---

Gwell mynediad at wybodaeth - cyflenwad	<p>Llety i rai dan 35 oed</p> <p>Amharodrwydd y Sector Rhentu Preifat i gymryd tenantiaid ar fudd-daliadau lles</p> <p>Diffyg cysondeb mewn cefnogaeth tai yn y Sector Rhentu Preifat</p> <p>Ffioedd asiantaethau gosod o flaen llaw</p>
--	--

Llety dros dro

Pobl yn methu symud ymlaen
 Prinder math cywir o lety
 Rhy ddrud
 Angen asesiadau risg parhaus

2.2.3 Gwasanaethau

Materion allweddol

Atal/ymyrraeth


Mae ymyrraeth yn digwydd ar bwynt argyfwng - mae digartrefedd yn symptom, nid achos
 Diffyg dull cyfannol o ran atal ar draws adrannau Awdurdod Lleol - mae'n gyfrifoldeb ar bob adran i atal digartrefedd

Diwygio lles

Gweithredu'r agenda Diwygio Lles

Iechyd

Diffyg cydweithredu a gwasanaethau yn yr ardal leol ac ar lefel ranbarthol
 Diffyg dealltwriaeth o dai yn y sector iechyd



3. Y Fframwaith Cydweithredol

3.1 Y Nod Strategol

Yr ymrwymiad strategol craidd gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yw creu diwylliant o gydweithredu gwell ar draws y rhanbarth, o ran mynd i'r afael â'r materion penodol sy'n achosi digartrefedd fel a amlinellir uchod.

Caiff yr agenda honno ei chynnwys yn null strategol pob awdurdod drwy fabwysiadu'r Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol fel a nodir yn y ddogfen hon.

Bydd pob awdurdod yn datblygu ei gynllun gweithredu lleol ei hun ar sail blaenoriaethau'r strategaeth ranbarthol, ac mae'r adran hon yn amlinellu lle gellir cydweithredu ar lefel ranbarthol.

3.2 Cynllun gwaith cydweithredol

Ar sail cydberthyniad themâu allweddol, mae meysydd allweddol o ran cydweithredu ar draws y rhanbarth wedi'u nodi:

3.2.1 Pobl

Digartrefedd leuencid:

- • Datblygu dull rhanbarthol i bobl ifanc o ran gwybodaeth am:
 - o Fod yn barod am denantiaeth
 - o Lles/Buddion llythrennedd ariannol
 - o Hyrwyddo Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc at Dai
- Creu cysylltiadau gwell rhwng llety a chyfleoedd cyflogaeth
- Creu'r adnoddau cefnogaeth ac atal cywir i helpu i gynnal tenantiaeth

Pobl Sy'n Cysgu Allan:

- Creu canolfan gyswllt elusennau rhanbarthol i wella cysonder a darpariaeth strategol cefnogaeth
- Hyrwyddo Ap Streetlink a gwybodaeth am roi gwybod am ddigartrefedd a sut gall y cyhoedd gynorthwyo pobl ddigartref
- Newid diwylliant gwleidyddion o ran stereoteipiau o ran llety brys, llety a rennir a thai yn gyntaf
- Dod â setiau data ynghyd ar lefel ranbarthol i greu gwell dealltwriaeth o:
 - o Pam mae pobl yn gwrthod mathau penodol o lety
 - o Pam mae tenantiaethau yn dod i ben/Pam mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref
 - o Beth mae'r Sector Rhentu Preifat am ei gael o ran cefnogaeth a sut gallwn annog landlordiaid i osod eiddo i bobl sy'n hawlio Budd-daliadau Lles
- • Datblygu ymgysylltiad gwell gyda phobl sy'n cysgu allan i ddeall anghenion

Angen Cymhleth:

- Datblygu diffiniad pendant a rennir o Anghenion Cymhleth ar draws y rhanbarth
- Cydlynu'r defnydd o ymchwil ar draws y rhanbarth ac Awdurdodau Lleol unigol o ran data ar anghenion cymhleth
- Datblygu/defnyddio'r math cywir o dai
- Datblygu gwell cydweithredu ar draws adrannau awdurdod lleol o ran anghenion cymhleth

Rhai Sy'n Gadael Carchar:

- Cynyddu Adnoddau ar gyfer Llwybr Carcharorion drwy ddatblygu cytundeb dwyochrog ar draws y rhanbarth - creu rhwydwaith swyddogion Llwybr Carcharorion rhanbarthol
- Gwella gwaith monitro Llwybr Carcharorion a datblygu map data o'r effaith mae'n ei chael ar draws y rhanbarth

3.2.2 Cartrefi

'Tai yn Gyntaf':

- Dull cydgysylltiedig o ran cyfathrebu i berswadio gwleidyddion lleol o rinweddau 'Tai yn Gyntaf'
- Bwydo i raglen dreigl barhaus Llywodraeth Cymru i ddeall gweledigaeth LIC yn well
- Rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth

Gwell mynediad at wybodaeth - cyflenwad:

- Codi ymwybyddiaeth o Strategaeth Digartrefedd gydag adrannau eraill
- Cynnwys digartrefedd ar lefel strategol ar draws y rhanbarth
- Cynyddu cyflenwad addas a hygyrch
 - o Adeiladau newydd cymdeithasol
 - o Defnyddio mwy o stoc Sector Rhentu Preifat
- Datblygu cyfres o gymhellion ar draws y Rhanbarth i annog Landlordiaid i weithio gyda'r Gwasanaeth Digartrefedd
- Gweithio gyda'r Sector Rhentu Preifat i leihau canfyddiad negyddol o gymryd tenantiaid Budd-daliadau Lles
- Rhanbarthu dull cyfathrebu gyda landlordiaid Sector Rhentu Preifat
- Hyrwyddo porthol gwe Tai Teg ymhellach

Llety Dros Dro:

- Archwilio datrysiadau arloesol i lety dros dro
- Dysgu gan Awdurdodau Lleol nad ydynt yn defnyddio llety gwely a brecwast i ddiwallu anghenion llety dros dro - rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth
- Ymgyrch gyfathrebu i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r cyhoedd am lety dros dro a'r bobl sy'n ei ddefnyddio
- Lle bo angen, archwilio cytundebau lefel gwasanaeth rhanbarthol gyda darparwyr llety dros dro

3.2.3 Gwasanaethau

Atal/Ymyrraeth:

- Creu set ddata traws-ranbarthol i roi gwybod yn well pam mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwasanaethau statudol mewn awdurdodau lleol i ddeall y gall ymyrraeth gynharach atal digartrefedd yn y dyfodol
- Creu map rhanbarthol o'r adnoddau atal sydd ar gael ar lefel leol a rhanbarthol
- Rhannu gwasanaethau gwybodaeth ar draws y rhanbarth
- Rhannu adnoddau hyfforddiant ar draws y rhanbarth

Diwygio Lles:

- Datblygu canolfan ymyrraeth gynnar ranbarthol
- Sefydlu grŵp arfer gorau rhanbarthol
- Cau bylchau data i ddeall effaith sancsiynau ar ddigartrefedd yn well
- Rhannu protocolau cyn achosion o droi allan

Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Dangos budd-cost buddsoddiad mewn tai a'r agenda digartrefedd yn well o ran arbedion i'r gwasanaeth iechyd drwy rannu arfer gorau
- Creu llais uwch ar gyfer tai ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus



4. Canlyniadau

Nod y strategaeth hon yn y pen draw yw lleihau digartrefedd a gweithio tuag at ei ddileu ar draws Gogledd Cymru, wedi'i fesur yn erbyn system werthuso (gweler adran 5).

5. Monitro a Gwerthuso

Mae grŵp Cyflawni ar gyfer Digartrefedd Rhanbarthol wedi'i sefydlu i weithredu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu rhanbarthol. Mae'r grŵp yn cynnwys arweinwyr Strategaeth Tai o'r 6 Awdurdodau Lleol ac yn cwrdd bob chwarter. Pan fo angen bydd is-grwpiau yn cael eu sefydlu i gyflawni rhai o'r gweithredoedd, bydd aelodaeth yr is-grwpiau yn cynnwys y partneriaid perthnasol a bydd y grŵp yn penderfynu ar ba mor aml y cynhelir y cyfarfodydd.

Mae'r cynnydd a wneir yn erbyn y Cynllun Gweithredu Rhanbarthol yn cael ei gyflwyno bob chwarter i bob Partneriaeth Strategol Tai yr Awdurdod Lleol sydd yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu Strategaeth Tai Lleol a strategaethau perthnasol yr ALL. Rôl y Bartneriaeth Strategol Tai ALL yw cydlynu a chryfhau gweithgareddau yn gysylltiedig â thai ar draws yr holl wasanaethau a sefydliadau partner.

Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi yn manylu'r cynnydd a wneir yn erbyn y cynllun gweithredu rhanbarthol a bydd pob Awdurdod Lleol yn cyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor Craffu Economi a Chynllun. Bydd yr ALL hefyd yn cynnwys cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu lleol o fewn yr adroddiad ac yn sicrhau ei fod ar gael yn gyhoeddus ar-lein ar wefan yr ALL.

Atodiad A

Amlinelliad - Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cyflwyno'r newidiadau mwyaf sylfaenol i ddeddfwriaeth digartrefedd ers cyflwyno Deddf Tai (Pobl Ddigartref) 1977. Ochr yn ochr â'r ddyletswydd statudol arloesol sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd, mae'r Ddeddf hefyd wedi cyflwyno, am y tro cyntaf, dyletswydd statudol ar awdurdod tai lleol i gynnal Adolygiad Digartrefedd ac i gynhyrchu Strategaeth Digartrefedd, a chaiff y strategaeth ei chyhoeddi erbyn diwedd 2018.

Pe bai awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn cynhyrchu Strategaethau Digartrefedd unigol; byddai'r rhain yn cynnwys nodau ac amcanion tebyg. Felly, gwnaeth Penaethiaid Tai Gogledd Cymru argymhell bod chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn cydweithio i gynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol ar y cyd.

Cytunodd CHI Cymru i weithredu fel hwyluswyr ar gyfer y prosiect a gwnaethant gyfarfod gydag arweinwyr prosiect o'r awdurdodau lleol ar 25 Hydref i ddatblygu dull a chynllun gwaith.

Gallai manteision strategaeth o'r fath gynnwys:

- Bydd y posibilrwydd i awdurdodau lleol gaffael a darparu gwasanaethau digartrefedd ar y cyd yn cael ei wella. Bydd rhagor o gyfle i ddatblygu gweithio mwy effeithiol gyda sefydliadau partner allweddol hefyd, fel y Gwasanaeth Iechyd, h.y. sy'n gweithredu ar sail ranbarthol.
- Bydd dull mwy cyson ymhlith awdurdodau lleol gyda'u dehongliad a gweithrediad o'r ddeddfwriaeth digartrefedd, h.y., camau rhesymol, ac o ran darparu gwasanaethau digartrefedd ar draws ardal Gogledd Cymru. Bydd hyn yn helpu i leihau'r potensial am amrywiad o ran argaeledd a darpariaeth gwasanaethau ar draws y rhanbarth.
- Bydd awdurdodau lleol yn gallu datblygu dealltwriaeth fwy eang a manwl o faterion rhanbarthol, a chael dealltwriaeth well o faterion mae awdurdodau cyfagos yn eu hwynebu.
- Bydd rhagor o gyfleoedd i awdurdodau rannu eu hadnoddau a'u harbenigedd a gwasanaethau arbenigol. Cydnabuwyd hefyd y byddai cydweithredu gwell ymhlith awdurdodau lleol, er enghraifft, gyda rheolaeth achosion MAPPA.
- Bydd sefydlu cyd-ddealltwriaeth a dull rhanbarthol tuag at atal/mynd i'r afael â digartrefedd yn arwain at awdurdodau lleol, gyda'u partneriaid, yn cael dylanwad cryfach, mwy cadarnhaol ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, yn benodol o ran materion tai, digartrefedd a chefnogi pobl.

Dull:

- Bydd pob cyngor yn cynnal adolygiadau lleol a datblygu cynllun gweithredu lleol
- Caiff cynlluniau lleol eu dadansoddi, a chaiff themâu cyffredin a meysydd cydweithredu eu nodi i ddatblygu strategaeth ranbarthol ddrafft a chynllun gweithredu
- Ymgynghori ar strategaeth ranbarthol ddrafft a chynllun gweithredu (gwleidyddol a thraws-sector)
- Cyhoeddi strategaeth ranbarthol derfynol a chynllun gweithredu



Atodiad B - Cynllun Gwaith Rhanbarthol

Thema	Cam gweithredu	Tasg	Allbwn
Pobl Digartrefedd leuenctid	Datblygu dull cyson ar draws Gogledd Cymru i gefnogi pobl ifanc i: (1) Fod yn barod am denantiaeth. (2) Cynnal eu tenantiaeth	Mapio gwasanaethau presennol ar gael i gefnogi pobl ifanc ym mhob Sir. Casglu gwybodaeth am y Llwybr Sengl (ac unrhyw ddulliau eraill sydd ar gael) i adnabod y galw am wasanaethau cefnogi ym mhob Sir. Awdurdodau Lleol i rannu prosesau atgyweirio presennol gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r defnydd o wasanaethau ar gael ac enghreifftiau o arfer da. Adnabod meysydd i gydweithio. Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar sut i ddatblygu cynlluniau personol effeithiol i bobl ifanc.	Bydd pob ALI yn cynnig cynlluniau personol cadarn i bobl ifanc sydd yn cynnwys cymorth i gael mynediad at hyfforddiant a chyfluoedd cyflogaeth a datrys unrhyw achosion o ddyled a rheoli arian.
Pobl Sy'n Cysgu Allan	Darparu gwasanaeth cyson ar draws Gogledd Cymru sydd yn ymateb i bobl sy'n cysgu allan.	Datblygu cynllun cyfathrebu rhanbarthol i hyrwyddo Cyswilt Stryd. Datblygu pecyn gwaith ymgysylltu rhanbarthol i wella'r broses o gyfathrebu gyda phobl sy'n cysgu allan i wella eu hanghenion. Pob ALI i ddatblygu eu gwasanaethau allgymorth yn seiliedig ar angen lleol a rhannu arfer da i sicrhau dull cyson.	Gwella ymrwymiad gyda'r rheiny sydd â ffordd o fyw yn seiliedig ar y stryd i leihau'r angen o gysgu allan. Gwella cysondeb a darparu cymorth i bobl sy'n cysgu allan.

Thema	Cam gweithredu	Tasg	Allbwn
Anghenion Cymhleth	Datblygu dull cydlynol i ymateb i gwsmeriaid gydag anghenion cymhleth.	Cytuno ar beth yw diffiniad anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth. Rhannu data ac arfer da. Adnabod meysydd i gydweithio.	Anghenion cymhleth y cwsmeriaid yn cael eu cwrdd.
Pobl sy'n gadael carchar	Parhau i gynnig Datrysiadau Tai i bobl sy'n gadael carchar cyn eu rhyddhau er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gydweithio i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau.	Datblygu cytundeb cytbwys ar draws y rhanbarth. Rhannu data monitro a datblygu map data o'r effaith mae'n ei chael ar draws y rhanbarth.	Cynyddu'r adnoddau ar gyfer Llwybr Carcharorion
Cartrefi			
'Tai yn Gyntaf'	Mewn cydweithrediad bod yn arloesol wrth ymateb i anghenion llety i gwsmeriaid.	Rhannu data ac arfer da. Adnabod meysydd i gydweithio.	Gweithredu dull llwyddiannus i 'Tai yn Gyntaf' ym mhob ardal awdurdod lleol.
Gwell mynediad at lety	Datblygu dull rhanbarthol i wella mynediad i'r sector rhentu preifat.	Datblygu dull cyson i gynlluniau cymhelliant landlord ar draws y rhanbarth.	Gwella mynediad i lety yn y sector rhentu preifat.
Llety dros dro	Archwilio atebion arloesol yn rhanbarthol i leihau'r gost o lety dros dro.	Rhannu data ac arfer da. Adnabod meysydd i gydweithio.	Costau gostyngol i ALI.

Thema	Cam gweithredu	Tasg	Allbwn
Gwasanaethau Atal	Darparu gwasanaeth cyson ar draws Gogledd Cymru sydd yn ymateb i'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014.	Mapio adnoddau atal sydd ar gael ar lefel leol a rhanbarthol Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar adnoddau atal sydd ar gael.	Gwell dealltwriaeth o'r rheswm pam fod pobl yn datgan eu bod yn ddigartref.
Lliniaru Diwygio'r Gyfundrefn Les	Datblygu dull cydweithredu i leihau'r effaith o Ddiwygio'r Gyfundrefn Les ar hawlwyf oedran gweithio wedi eu heffeithio gan y Credyd Cynhwysol.	Sefydlu grŵp arfer gorau rhanbarthol a rhannu data i ddeall yr effaith o Ddiwygio'r Gyfundrefn Les yn well (gan gynnwys effaith sancsiynau) a datblygu mesurau lliniaru effeithiol. Rhanbartholi protocolau cyn achosion o droi allan	Lleihau'r effaith ar gwsmeriaid a gwasanaethau cyhoeddus.
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Datblygu trefniadau gwaith agosach gyda'r Gwasanaethau Iechyd.	Adnabod meysydd i gydweithio.	Creu'r cysylltiadau rhwng iechyd a thai.

Cynllun Gweithredu Strategaeth Digartrefedd Cyngor Sir Ynys Môn 2018-2019 (Rhag-Rhag)

Thema	Gweithred	Tasg	Allbwn
Pobl Darparu cyngor llesiant / cynhwysiant ariannol i gleientiaid digartref	<ul style="list-style-type: none"> - Recriwtio Swyddog Cynhwysiant Ariannol i'w gynnwys yn y tîm Digartrefedd ar sail rhan-amser. 	<ul style="list-style-type: none"> - Mapio'r cynigion cynhwysiant ariannol er mwyn cefnogi cleientiaid digartref - Proses atgyfeirio i'w chytuno arni rhwng y tîm digartref a'r tîm incwm. 	<ul style="list-style-type: none"> - Cael yr incwm mwyaf posibl er mwyn lleihau'r risg o ddigartrefedd yn y dyfodol - Lleihau nifer y cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn rheolaidd a ystyrir yn 'ddigartref' o ganlyniad i well sefydlogrwydd ariannol - Gwell bodlonrwydd cwsmer
Gwasanaethau Gweithredu'r safon tir cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> - Sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol cenedlaethol o weithredu'r safon tir cyfartal. 	<ul style="list-style-type: none"> - Ymgysylltu â Shelter er mwyn gweithredu safon tir cyfartal lleol - Datblygu astudiaethau achos chwarterol ar sut mae safon tir cyfartal wedi dod a llwyddiant ynghyd â gwersi a ddysgwyd o ran ein darpariaeth. - Ystyried mynediad – canolfannau cymunedol ac ati (lleihau'r effaith o fynd i mewn i swyddfa ffurfiol drwy wahodd rhai unigolion sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n fregus) - Hyfforddiant Gwasanaeth Cwsmer - Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - Hyfforddiant Cyfleoedd Cyfartal - Datrys a chydabod anghenion ychwanegol megis llythrennedd. 	<ul style="list-style-type: none"> - Ataliaeth gynharach o ddigartrefedd o ganlyniad i well perthynas â'r tîm Opsiynau Tai – eglurder dwy ffordd - Gwell perthnasau yn y cylch digartrefedd - Cydymffurfiaeth gyflymach o ran ymchwiliadau digartrefedd o ganlyniad i fwy o gyfathrebu â'r cwsmer.
Gwasanaethau Hyrwyddo'r gwasanaeth Opsiynau Tai er mwyn annog cyflwyniadau cynharach	<ul style="list-style-type: none"> - Adnabod rhanddeiliaid allweddol er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth Opsiynau Tai / SPOA er mwyn galluogi pobl i gyflwyno eu hunain fel digartref cyn i argyfwng ddigwydd. 	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu ffilm fer - Datblygu rhestr o'r holl gysylltiadau perthnasol / cyfeiriadau e-bost / rhifau ffôn - Datblygu cynllun marchnata syml er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn chwarae rhan. 	<ul style="list-style-type: none"> - Ataliaeth gynharach - Rheoli disgwyliadau - Gwell perthynas ag asiantaethau cyfeirio allweddol megis gwasanaethau iechyd a diogelwch.

		<ul style="list-style-type: none"> - Cynnwys lechyd (BPIBC) gan fod hyn yn cael ei weld fel maes y mae angen ei wella ar sail rhanddeiliaid. - Mwy o farchnata ar gyfryngau cymdeithasol / gwefannau corfforaethol - Diweddarau'r wefan gorfforaethol a gwella'r cyfleuster gwe-lywio tra'n ystyried cleientiaid bregus. - Rhanddeiliaid i ddarparu adborth adeiladol ar feysydd sydd angen eu gwella gan Opsiynau Tai. 	<ul style="list-style-type: none"> - Gellir darparu cwsmeriaid â gwybodaeth, cyngor a chymorth cyn digartrefedd.
<p>Gwasanaethau Sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid sy'n dioddef tor perthynas yn cael eu mapio allan a bod gwybodaeth ar ddarpariaethau'n cael ei rhannu â chwsmeriaid.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Sylweddoli mai dyma un o'r prif bethau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd - Mapio gwasanaethau cyfryngu presennol. 	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu deunydd marchnata – taflenni, posteri, cyfryngau cymdeithasol - Sicrhau eglurder ar yr holl wasanaethau cyfryngu, os yn briodol ar gyfer cleientiaid unigol. 	<ul style="list-style-type: none"> - Cynyddu ymwybyddiaeth o gyplau sy'n chwilio am gymorth (drwy Relate neu Teulu Môn) petai perthnasau personol yn peri risg o ddigartrefedd yn y dyfodol.
<p>Gwasanaethau Datblygu protocol anghenion cynhwysfawr a phroses aseinio / adolygu cynnydd a monitro.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu agwedd wedi'i chydlynio tuag at ymateb i gwsmeriaid ag anghenion cymhleth. 	<ul style="list-style-type: none"> - Cytuno ar y diffiniad o anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth a sicrhau y cytunir ar hyn yn lleol gyda phartneriaid. - Rhannu data ac arfer dda â gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr CP. - Adnabod meysydd ar gyfer cydweithio â phartneriaid megis Syrgeris Doctor lleol a nyrsys cymunedol. - Hyfforddi swyddogion rheng flaen ar sut i ymateb i gwsmeriaid sydd ag anghenion cymhleth a sicrhau 	<ul style="list-style-type: none"> - Bydd anghenion cymhleth cwsmeriaid yn cael eu bodloni. - Darparu gwybodaeth er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

		bod y gwasanaethau cymorth cywir yn eu lle.	
<p>Pobl Datblygu proses er mwyn rheoli llety gwely a brechwast mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid mewn cartrefi cynaliadwy cyn gynted â phosibl a bod gwariant a niferoedd yn cael eu cofnodi'n gywir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Datblygu prosesau a phrotocolau mewn perthynas â rheoli Gwely a Brechwast yn fwy effeithiol. 	<ul style="list-style-type: none"> - Cyfraniad bach gan y cwsmeriaid fesul noson er mwyn cyfrannu ar gostau parhaus gwely a brechwast. - Penderfyniadau cyflymach ar ddigartrefedd - Lleihau costau Gwely a Brechwast blynyddol yn gyffredinol. - Ystyried arloesedd ar gyfer datrysiadau llety dros dro - Cynyddu cymorth ac arweiniad gan Shelter - Grŵp Ffocws gydag unigolion sydd wedi eu rhoi mewn llety dros dro ar sut mae sefydliadau gwely a brechwast wedi effeithio ar eu bywydau a sut gellir gwella hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> - Llai o gostau - Cwsmeriaid digartref yn adrodd eu bod yn teimlo'n well gyda ffocws mwy tymor hir - Gwell bodlonrwydd cwsmer o ganlyniad i benderfyniadau cyflymach sy'n creu daliadaeth fwy parhaol (preifat neu awdurdod lleol), - Cael dewis mwy addas ar gyfer llety argyfwng ar gyfer y rhai hynny sy'n camu i lawr o'r gwasanaethau statudol megis iechyd meddwl.
<p>Pobl Llwybr Iechyd Meddwl</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gweithredu'r Llwybr Iechyd Meddwl 	<ul style="list-style-type: none"> - Penodi Asesydd Iechyd Meddwl - Trefnu hyfforddiant i staff ar ddelio â materion Iechyd Meddwl - Gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd ac asiantaethau allweddol eraill ar y Llwybr Iechyd Meddwl 	<ul style="list-style-type: none"> - Cynyddu gwybodaeth a sgiliau staff mewn perthynas â materion Iechyd Meddwl - Gwell canlyniadau i gwsmeriaid sydd â phroblemau Iechyd Meddwl.
<p>Gwasanaethau</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Gweithio gyda Fforwm Atal Digartrefedd i sefyldu grwpiau fydd yn helpu delio gyda materion o fewn y cynllun gwaith lleol a rhanbarthol 	<ul style="list-style-type: none"> - Cytuno ffrydiau gwaith a chynrychiolaeth o'r Fforwm i'w ddatblygu yn ystod y flwyddyn er mwyn bwydo fewn i'r cynllun rhanbarthol a lleol 	<ul style="list-style-type: none"> - Materion yn cael eu cydlynu gan bartneriaid

Atodiad 2

Dyma grynodeb o'r ymgynghori sydd wedi digwydd yn ystod Adolygiad o'r Gwasanaeth ac cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol Gogledd Cymru 2018-22 yn ystod mis Hydref a Tachwedd, 2018. Wrth i bob Awdurdod Lleol gynnal adolygiad o'u Gwasanaeth Digartrefedd, roedd yr ymgynghori'n digwydd yn ystod yr adolygiadau trwy weithdai gyda rhanddeiliaid, arolygon gyda chwsmeriaid ac ar gyfryngau cymdeithasol – dyma oedd y sail ar gyfer datblygu'r Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol. Teimlir fod yr Adolygiadau Digartrefedd a'r cyfnod ymgynghori hwn ar gyfer y Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol yn ddigonol er mwyn gallu cytuno ar y Strategaeth hon a'r Cynlluniau Gweithredu.

Crynodeb o'r ymatebion

Ydych chi'n cytuno gyda nod cyffredinol Strategaeth Ranbarthol Gogledd Cymru?

Roedd 72% yn cytuno gyda'r nod cyffredinol

O'r ymatebion roedd dau gwsmer wedi rhoi eu profiadau personol o geisio cael mynediad at wasanaethau digartrefedd a chefnogaeth.

Ydych chi'n cytuno gydag amcan y Strategaeth?

Roedd 70% yn cytuno gydag amcan y Strategaeth

'Mae'r amcanion wedi'u cydbwyso yn erbyn y Ddeddfwriaeth'

Mae pob adolygiad annibynnol gan yr Awdurdodau Lleol wedi adnabod amcanion cyffredin er mwyn lleihau digartrefedd ar draws Gogledd Cymru

Roedd yr holl ymatebion yn cytuno gyda hwn ac fe wnaed un sylw fod hyn yn 'enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth'

Roedd yr ymatebion i'r Cynllun Gweithredu Rhanbarthol yn cynnwys

'rydym yn cefnogi'n gryf y dasg o 'hyfforddi staff rheng flaen ar sut i ddatblygu cynlluniau personol effeithiol ar gyfer pobl ifanc' a chredwn y byddai hyn o ddefnydd mawr'.

Sefydliadau sydd wedi ymateb:

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Awdurdodau Lleol – Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau, Gwasanaethau Tai, Iechyd yr Amgylchedd
Lletygarwch Llandudno Hospitality a Sefydliadau Lleol
Shelter Cymru
Fforwm Digartref Ynys Môn
Llais Ni Ynys Môn

Cynhaliwyd digwydd penodol ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth Digartref ar y Strategaeth Digartrefedd

Mynychodd 7 defnyddiwr gwasanaeth

Mae'r nodiadau o'r sesiwn wedi rhannu'r drafodaeth yn 3 phrif bwnc:

1. Cyfathrebu â Chyngor Ynys Môn
 2. Cefnogaeth mewn tenantiaeth (gwasanaethau blaenorol / cyfredol)
 3. Unrhyw gefnogaeth bellach (awgrymiadau ar gyfer y dyfodol)
1. Cyfathrebu â Chyngor Ynys Môn- gofynnwyd i'r grŵp am unrhyw feddwl neu deimlad (cadarnhaol neu negyddol) ar unrhyw gyfathrebu oedd ganddynt gyda Chyngor Ynys Môn.
 - Mae yn anodd cael mynediad i wasanaethau a gall gwasanaeth cefnogi gael eu arwyddbostio yn gynt
 - Gan nad oes Gwasanaethau Tai Facebook a Trydar teimlwyd ei fod yn cynnig cyfathrebu wedi ei gyfyngu
 - Gall llythyrau Budd dal Tai yn anodd ei deall
 - Efallai na all y Cyngor helpu ond gallai arwyddbostio i wasanaeth cefnogaeth ddigwydd
 - Mwy o wybodaeth / posteri ei angen i roi gwybodaeth
 2. Cefnogaeth mewn tenantiaeth (gwasanaethau blaenorol / cyfredol)
 - Cefnogaeth ar wasgar yn bwysig iawn
 - Cydnabod bod cael mynediad i wasanaeth ar wasgar yn anodd gan fod yna restr aros
 - Cyngor yn defnyddio Gwely a Brechwast fel opsiwn olaf
 3. Unrhyw gefnogaeth bellach (awgrymiadau ar gyfer y dyfodol)
 - Defnyddio adeiladau gwag fel eiddo dros dro
 - Café GISDA yn syniad da
 - Grwp wedi mwynhau cyfrannu tuag at Wasnaeth Diagartrefedd – fideo ar fod yn ddigartref / adolygu taflennu

Adborth of Adolygiad o'r Gwasanaeth Digartrefedd

Mae rhan nesaf yn rhoi crynodeb o'r ymgynghori ddigwyddiodd yn ystod yr Adolygiad o'r Gwasnaeth Digartrefedd sydd wedi cyfrannu at y Strategaeth Rhanbarthol a'r Cynlluniau Gwaith dilynol. Mae'r rhan hwn hefyd yn pwysleisio yr ymgysylltu parhaol / cyfleoedd cymryd rhan sydd yn digwydd.

Mewn partneriaeth â Digartref Cyf, mae'r Gwasanaeth Tai wedi datblygu Fforwm Atal Digartrefedd ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth. Grŵp o bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y gorffennol yw hwn ac maent yn cynorthwyo i ddylanwadu ar wella a datblygu'r gwasanaeth. Cawsant eu cydnabod yng Ngwobrau Cyfranogi TPAS Cymru 2017 drwy ennill yr ail wobwr yn y categori gwella gwasanaethau. Maent yn grŵp gweithgar, brwdfrydig ac ymgysylltiedig.

Nod gyffredinol y Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth yw galluogi pobl ifanc i weithio mewn partneriaeth â fforwm Atal Digartrefedd Ynys Môn er mwyn atal digartrefedd yn Ynys Môn.

Nod y Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i rannu gwybodaeth, syniadau ac arfer dda ynglŷn â materion yn ymwneud â digartrefedd ac atal digartrefedd.
- Hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid, sefydliadau, cyrff statudol a phartion â diddordeb, er mwyn datblygu dull o daclo digartrefedd sydd yn gydlynus ac yn gydgysylltiedig.
- Datblygu cynllun gweithredu'r Strategaeth Ddigartrefedd.

- Cyfrannu'n ymarferol at y gwaith o adolygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Digartrefedd Ynys Môn.

Rhestrir rhai o'u cyflawniadau yma;

1. Cynorthwyo i sefydlu prosiect datblygu tai arloesol

Cam gweithredu 4 yn y cynllun gweithredu digartrefedd dros dro: Archwilio opsiynau i hyrwyddo rhannu llety, yn arbennig ar gyfer pobl sengl dan 35 oed, mewn ymateb i newidiadau mewn budd-daliadau sy'n cyfyngu costau tai i gyfradd llety wedi ei rannu

- Lluniwyd holiadur opsiynau tai ar gyfer pobl dan 35 oed – cafodd ei gynllunio i gynorthwyo'r Cyngor i ddeall anghenion tai pobl ifanc.
- Cefnogi cais am 4 uned fodwlar hunangynhaliol yng Nghaergybi ar gyfer pobl ifanc (dan 35 oed) sy'n cynnig cyfle iddynt ddysgu sgiliau byw'n annibynnol cyn symud i lety parhaol mwy o faint - Grant Tai Arloesol Llywodraeth Cymru.
- Cyfweld penseiri
- Cefnogi digwyddiadau ymgynghori

2. Cynorthwyo i ddatblygu strategaeth ddigartrefedd dros dro a monitro cynnydd yn chwarterol.

Dyweddodd aelodau'r fforwm eu bod yn teimlo eu bod yn helpu i ddylanwadu ar wasanaethau, gan wneud y sylwadau a ganlyn;

"Mae'n gwneud i mi deimlo fy mod i wedi gwneud rhywbeth da pan fyddaf yn clywed eu bod wedi gwrando ar beth ydw i wedi'i ddweud!"

"Os na fyddem yn dweud wrthynt beth ydym yn ei feddwl, fydden nhw ddim yn gwybod beth sydd ei angen"

"Mae hwn wedi bod yn brofiad ardderchog i mi, rydw i wedi dysgu gymaint. Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai'r Cyngor yn gwrando."

Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth

Fel rhan o'r adolygiad cynhaliwyd grŵp ffocws gyda 12 aelod o'r Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth. Rhoddir eu hadborth isod.

Roedd 16 aelod yn bresennol

Barn am y gwasanaethau canlynol:

Lighthouse

- Wedi clywed am y gwasanaeth gan aelod o staff yn y Ganolfan Waith
- Gwasanaeth Ardderchog:
 - Mae'n eich cyfeirio at wasanaethau eraill sy'n gallu helpu.
 - Rhywle i fynd yn ystod y dydd; cael bwyd, cael defnyddio'r gawod
- Gellid gwella eu gwasanaeth drwy gynnig gweithgareddau yn ystod y dydd.

- Cefnogol iawn.

The Wallich

- Cynnig gwasanaethau da i gefnogi tenantiaeth.
- Cymorth ardderchog i ddod o hyd i lety.

Y Cyngor

- Roedd rhaid brwydro am gefnogaeth am nad oeddent yn gwybod sut i ddelio gyda chwsmer â phroblemau iechyd meddwl.
- Roeddwn mewn llety gwely a brecwast am wythnosau, a phan gysylltais â'r Cyngor doeddwn i ddim ar y system.
- Cefais allweddî tŷ newydd (yn Llangefni) a gofynnwyd i mi adael y llety Gwely a Brecwast (yn Felinheli) o fewn oriau, ond doedd gen i ddim cludiant.
- Dydyn nhw ddim yn siarad gydag adrannau mewnol (gwasanaethau cymdeithasol, budd-dal tai)
- Wnân nhw ddim fy helpu am nad oes gen i gysylltiad lleol - bydd rhaid i mi adael yr hostel ym mis Mai am fy mod yn 25.
- Cynnig gwasanaeth da ond does dim digon o lety Gwely a Brecwast ar eich cyfer.
- Gallu bod yn nawddoglyd ar y ffôn ac mae'n cymryd amser hir i gyrraedd yr adran gywir.
- Angen mwy o lety un ystafell wely.
- Ni chefais gefnogaeth gan y Cyngor – mae angen iddynt wella eu dulliau cyfathrebu.
- Anodd cael mynediad at wasanaethau os nad oes gennych gludiant i Langefni.
- Mae ffurflenni cais tai yn hir ac yn anodd eu deall.

Landlordiaid Preifat

- Nid yw'r sector preifat yn fforddiadwy.
- Llety wedi ei rannu yw'r unig opsiwn fforddiadwy ond nid yw landlordiaid preifat yn cynnig hyn.
- Dydyn nhw ddim eisiau pobl ifanc sy'n derbyn Budd-dal Tai.

Shelter Cymru

- Roeddwn i'n ddigartref am fisoedd ond rhoddais fy hun yn y carchar am fy mod yn gwybod y byddwn yn cael help i ddod o hyd i lety pan fyddwn yn cael fy rhyddhau. Daeth Shelter Cymru o hyd i lety i mi.

Digartref

- Cynnig gwasanaeth ardderchog; annog hyfforddiant, help gyda CV.
- Dim argymhellion ar gyfer gwella.

Perspectif Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n derbyn Gwasanaeth Cefnogi

Cynhaliwyd grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth ar gyfer Cefnogaeth Tai hefyd, ac roedd nifer dda o ddefnyddwyr gwasanaeth yn bresennol, yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol denantiaethau. Cafwyd cyflwyniad gan yr Adran Waith a Phensiynau ar y Credyd Cynhwysol a diwygio lles ac roedd yn gyfle

hefyd i'r Adran Waith a Phensiynau egluro'r adolygiad digartrefedd. Roedd y cyfarfod wedi ei drefnu'n dda a gofynnodd y rhai oedd yn bresennol gwestiynau am faterion a godwyd yn ystod y fforwm. Yn ystod yr adolygiad hwn, roedd tystiolaeth glir fod gan y Cyngor rwydwaith defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi datblygu'n dda y mae'n ei ddefnyddio'n effeithiol i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gwella gwasanaethau, a derbyn adborth gwerthfawr gan ddefnyddwyr.

Fforwm Digartrefedd

Mae'r Cyngor yn cynnal y Fforwm Digartrefedd sy'n cynnwys swyddogion y cyngor a phartneriaid, ar lefel ymarferwyr yn bennaf. Maent yn cyfarfod i drafod materion megis:

- Digartrefedd ledled Ynys Môn a materion penodol
- Y strategaeth ddigartrefedd
- Mentrau newydd

Gyda'r Fforwm Digartrefedd, trafodwyd pa mor effeithiol oedd y grŵp ac a oes angen gwneud unrhyw welliannau. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod fod Fforwm Digartrefedd yn hanfodol ar gyfer cydweithio.

Canlyniadau Arolwg Ar-lein

Yn ystod yr adolygiad cynhaliodd y cyngor arolwg ar-lein er mwyn i gwsmeriaid roi eu hadborth ynglŷn â'u barn ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn delio gyda digartrefedd neu'r bygythiad o ddigartrefedd. Cynhaliwyd yr arolwg am gyfnod o bedair wythnos ym mis Ebrill ac ymatebodd cyfanswm o 38 o bobl.

Cwestiynau ac ymatebion yr arolwg:

Q1. Ydych chi wedi defnyddio'r gwasanaeth digartrefedd yn ystod y 12 mis diwethaf?

Dywedodd 60% o gwsmeriaid eu bod wedi defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf

Q2. Pa mor hawdd oedd cysylltu â'r gwasanaeth digartrefedd?

Dywedodd 64% o ymatebwyr ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu â'r gwasanaeth digartrefedd

Q3. Sut wnaethoch chi gysylltu â'r gwasanaeth Digartrefedd?

1	Ffôn	58.6%	17
2	Ymweld â'r swyddfa	55.2%	16
3	Ciosg	3.4%	1
4	E-bost	6.9%	2
5	Arall	17.2%	5
6	Sylwadau:	0.0%	0

Q.4 Pa mor fodlon oeddech chi gyda pha mor aml y cawsoch wybod am sut roedd eich achos yn datblygu?

Roedd 58% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r wybodaeth reolaidd a roddwyd iddynt am sut roedd eu hachos yn datblygu.

Q5. Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r gefnogaeth a'r cyngor a gawsoch gan y tîm digartrefedd?

Roedd 67% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gefnogaeth neu'r cyngor a roddwyd gan y tîm digartrefedd

Q6. Gawsoch chi'r ateb oedd ei angen arnoch?

Atebodd 70% o gwsmeriaid 'do'

Cyflwynodd rhai o'r cwsmeriaid a ddywedodd 'na' y sylwadau canlynol (C7)

"Roedd rhaid i mi aros am amser hir pan oeddwn i'n 17 oed, roedd rhaid i mi gysgu ar soffas mewn nifer o wahanol dai pan oeddwn i'n feichiog"

"Cymerodd dri mis i mi gael llety mewn lle diogel yn agos at fy mherthnasau, ac oherwydd hynny dirywiodd fy iechyd meddwl, ond fe wnaethon nhw eu gorau"

"Rydw i dal yn ddigartref chwe mis ar ôl gofyn am help!!"

Q8. Yn gyffredinol, beth oedd eich barn am eich profiad?

Roedd 64% o ymatebwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad

Q9. Dywedwch wrthym beth ydych chi'n feddwl allai'r gwasanaeth digartrefedd ei wneud yn well?

"Maen nhw'n gwneud gwaith da hyd yn hyn"

"Argaeledd apwyntiadau"

"Gweithredu'n gynt"

"Bod yn fwy hygyrch, yn arbennig dros y ffôn neu os ydych yn galw yn y swyddfa"

"Dim llawer o help o gwbl, anodd iawn cysylltu â phobl, amser aros yn hurt"

Mae sgorau'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y gwasanaeth Opsiynau Tai yn gadarnhaol yn gyffredinol, fodd bynnag, mae amser aros yn thema sy'n codi'n aml. Rhagwelir y bydd y model newydd fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2018 yn delio gyda'r mater hwn.

Arolwg Ffôn

Cynhaliodd PDW arolwg ffôn, gan gysylltu â 40 cwsmer a derbyniwyd ymatebion gan 19 o gwsmeriaid. Mae'r isod yn grynodedb o'r ymatebion a dderbyniwyd;

Beth yw'r rheswm eich bod yn ddigartref?

Cael fy nhroi allan gan rieni/ffrindiau/teulu	3
Perthynas yn chwalu	2
Camdriniaeth ddomestig	4

Cael fy nhroi allan gan gymdeithas dai	
Cael fy nhroi allan gan y sector landlordiaid preifat	5
Gadael y Fyddin	
Gadael Carchar	2
Arall	3 <ul style="list-style-type: none"> • Cam-drin cyffuriau • Rhiant anabl yn cael ei ailgartrefu ac roedd rhaid i'r ferch oedd yn feichiog adael y cartref cyn y gallai hynny ddigwydd • Ymddygiad gwrthgymdeithasol cymdogion wedi eu gorfodi i adael y cartref

Pa sefydliadau eraill wnaethoch chi fynd atynt neu y cawsoch eich cyfeirio atynt?

Shelter	5
CAB	4
Cyfreithiwr	
AS	1
Arall	

Pa mor hawdd oedd cysylltu â'r gwasanaeth Opsiynau Tai?

- Dywedodd 83% o gwsmeriaid ei bod yn hawdd neu'n hawdd iawn cysylltu ag Opsiynau Tai

Sut wnaethoch chi gysylltu â'r gwasanaeth Opsiynau Tai?

- Roedd 6 cwsmer wedi ffonio'r gwasanaeth
- Roedd 17 wedi ymweld â swyddfa Llangefni

Oedd staff Opsiynau Tai yn wybodus am eich amgylchiadau?

- Cadarnhaodd 89% o gwsmeriaid fod staff Opsiynau Tai yn wybodus

Oedd staff yn gymwynasgar ac yn sympathetig?

- Roedd 50% yn cadarnhau hynny

Pa mor fodlon oeddech chi gydag ansawdd y gwasanaeth a gawsoch gan y gwasanaeth Opsiynau Tai?

- Dywedodd 62% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gydag ansawdd y gwasanaeth *'er ei bod wedi cymryd dipyn o amser i ddod o hyd i dŷ, roedd werth aros amdano'*

Pa mor fodlon oeddech chi gyda'r cyngor a gawsoch gan y tîm Opsiynau Tai?

- Roedd 54% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r cyngor a roddwyd *'roedd staff yn gymwynasgar iawn'*

Atal Digartrefedd

A fyddai'r gwasanaeth wedi gallu eich atal rhag bod yn ddigartref?

- Roedd 80% yn teimlo y gallai'r gwasanaeth fod wedi eu hatal rhag bod yn ddigartref
'Ni chynigiwyd unrhyw gyngor na chefnogaeth i mi fel un oedd yn dioddef camdriniaeth ddomestig'

'Byddai'r Cyngor wedi gallu cynnig mwy o help a chefnogaeth i mi yn ystod y 2 fis yn arwain at gyflwyno'r gorchymyn troi allan'

Gawsoch chi'r ateb oedd ei angen arnoch?

- Dywedodd 67% o gwsmeriaid eu bod wedi derbyn yr help yr oeddent ei angen
'roedd y swyddog yn arbennig o gymwynasgar wrth ddelio gyda'r achos hwn oedd yn un anodd iawn'

Pa mor fodlon oeddech chi gyda pha mor aml y cawsoch wybod am sut roedd eich achos yn datblygu?

- Roedd 50% o gwsmeriaid yn fodlon gyda pha mor aml yr oeddent yn derbyn gwybodaeth am eu hachos

Llety Gwely a Brecwast

Gawsoch chi eich rhoi mewn llety gwely a brecwast?

- Dywedodd 4 cwsmer eu bod wedi cael eu rhoi mewn llety gwely a brecwast, ac roedd 60% ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r safon
'Roedd y llety gwely a brecwast yn iawn, doedd y lleoliad ddim yn addas ond roedd y lle ei hun yn neis'

Llety Dros Dro

Gawsoch chi eich rhoi mewn llety dros dro?

- Cafodd 2 eu rhoi mewn llety dros dro ac roedd 100% yn fodlon gyda'r safon
'Yn y diwedd, daeth y llety dros dro yn gartref newydd i mi'

Gawsoch chi unrhyw gefnogaeth yn ystod eich cyfnod mewn llety dros dro?

- **Derbyniodd 36% o gwsmeriaid gymorth tra'r oeddent mewn llety dros dro**
Beth oedd eich barn am y gefnogaeth a gawsoch?
- Dywedodd 70% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gefnogaeth gyffredinol a roddwyd iddynt
'Derbyniais y cynnig o gwnsela er mwyn ymdopi â straen a phwysau bod yn ddigartref. Cefais gynnig lle i storio fy eiddo a derbyniais y cynnig'

Yn gyffredinol, beth yw eich barn am eich profiad?

- Roedd 66% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'u profiad

'Er na chefais fy rhoi mewn llety dros dro cefais gynnig cefnogaeth gan y Cyngor, oes oeddwn ei angen'

Gwella gwasanaethau – beth ellid ei wneud i wella gwasanaethau Opsiynau Tai?

'Rhaid cyfathrebu'n fwy aml, hyd yn oed os nad oes unrhyw newid yn yr achos, dim ond er mwyn i bobl wybod eu bod dal yn y system'

'Cyfathrebiadau dilyn i fyny, ni wnaeth neb gysylltu â mi er mwyn rhoi gwybodaeth am sut oedd pethau'n datblygu, roedd rhaid i mi ffonio'r Cyngor i drefnu cyfarfodydd dilyn i fyny ar ôl i mi gael fy rhoi mewn llety'

'Mae angen mwy o lety ar gyfer pobl ddigartref yn Ynys Môn, yn arbennig teuluoedd mawr, mae gan y ddynes hon 6 o blant'

'Cysylltwch â phobl yn fwy aml i ddweud wrthynt am ddatblygiadau, neu atebwch e-byst'

I grynhoi, o safbwynt mynediad i'r gwasanaeth, daethom ar draws y canlynol;

- Mae siarter Gofal Cwsmer mewn lle ar gyfer y Gwasanaeth Tai, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Opsiynau Tai
- Mae taflen wybodaeth ar gyfer cwsmeriaid, sy'n cynnwys gwybodaeth am y Sector Rhentu Preifat, Tai Cymdeithasol a manylion cyswllt
- Mae taflen wybodaeth un pwynt mynediad ar gyfer cwsmeriaid sy'n esbonio beth yw cefnogaeth yn gysylltiedig â thai, sut i gysylltu â'r gwasanaeth, sut mae cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio a sut i gael eu cynnwys yn y gwasanaeth
- Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth i gwsmeriaid am ddigartrefedd ac atal digartrefedd, cyngor am ddigartrefedd, dyledion tai a phroblemau ariannol, troi allan a'r gwasanaeth cysgu allan, rhaglen cefnogi pobl
- Mae'r cyngor yn cwrdd â nifer o ofynion Safon Tir Cyfartal Shelter Cymru

Mae nifer o gryfderau ar draws y gwasanaeth;

- Mae'n galonogol bod gan y Gwasanaeth Tai siarter gofal cwsmer, fodd bynnag nid yw ei berfformiad yn cael ei fonitro ar hyn o bryd
- Mae elfennau cadarn o brif-ffrydio'r gwasanaeth o fewn y Gwasanaeth Tai gyda'r tîm Gofal Cwsmer yn cynnal ac yn cwblhau asesiadau cysylltiad cyntaf gyda chwsmeriaid
- Mae'r staff sy'n gweithio yn y tîm Opsiynau Tai a'r holl gydweithwyr yn y Gwasanaeth Tai sy'n cynorthwyo cwsmeriaid digartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn frwdfrydig ac yn angerddol dros helpu cwsmeriaid
- Roedd yn glir, yn ystod y gwaith arsylwi, grwpiau ffocws a phrofi'r gwasanaeth fod y cwsmer yn bwysig o fewn y gwasanaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Rhagfyr 2018
Pwnc:	Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Awdur yr Adroddiad:	Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Ffôn:	01248 751813
E-bost:	ElinWilliams@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl Aelodau

A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Cefndir

Fel Aelodau Etholedig rydych yn llwyr ymwybodol o gefndir y Cynllun Gwella Gwasanaeth a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant.

Ers yr adroddiad diwethaf mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi canolbwyntio ar y gwaith canlynol:

1. Arolygiad AGC

Daeth AGC yn ôl i ail-arolygu'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd dros gyfnod o bythefnos ym mis Hydref 2018. Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl adroddiad AGC.

2. Recriwtio a Chadw

Rydym wedi parhau i hysbysebu a recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol. Gwnaed nifer o benodiadau ac erbyn hyn dim ond 1 swydd Gweithiwr Cymdeithasol sydd angen ei llenwi. Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer swyddi Gweithwyr Cymdeithasol yn ddiweddar a llwyddwyd i lenwi dwy swydd wag. Rydym yn parhau i gyflogi staff asiantaeth, ond erbyn hyn rydym yn llai dibynnol ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag o fewn y Gwasanaeth.

Mae'r Tîm Achosion Etifeddiaeth yn parhau mewn lle ac yn edrych ar achosion hanesyddol y mae angen ailymweld â nhw.

Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r Tîm Lleoli Plant wedi ei gwblhau.

3. Gwella Dangosyddion Perfformiad

Mae'r Dangosyddion Perfformiad wedi parhau i wella yn ystod y chwarteri diwethaf.

Mae'r hyn a ganlyn yn dystiolaeth o'r gwelliant yn ystod Chwarter 1 a Chwarter 2 2018/19 o gymharu â ffigyrau cronol ar gyfer 2017/18 mewn perthynas â'r Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol a Dangosyddion Perfformiad lleol penodol hyn:

	Dangosydd Perfformiad Allweddol	2017/18 Cronnol	Ch1 2018/19	Ch2 2018/19
PM C-24	Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith)	67.57%	91%	91%
PM C-27	Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar Gofrestri Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol o fewn 12 mis i ddiwedd y cofrestrriad diwethaf.	6.35%	0%	0%
PM C-34	Canran yr holl blant sydd wedi gadael gofal yn ystod y flwyddyn flaenorol (2016-17 ar gyfer 2017-18 a 2017-18 ar gyfer 2018-19) sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal.	38.00%	63%	75%
PM C-36	Canran y bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys yr holl bobl ifanc 16-24 oed perthnasol.	5.00%	4%	4%
	Canran yr atgyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o	86.31%	96.00%	96.88%

SCC006	fewn 1 diwrnod gwaith.			
--------	------------------------	--	--	--

Mae'r ffigyrau'n parhau i fod yn galonogol ac yn dangos fod y Gwasanaeth yn gwella yn erbyn y dangosyddion perfformiad. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio'n galed i sicrhau fod y gwelliant yn cael ei gynnal a'i wella ymhellach.

4. Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG)

Mae gwaith wedi parhau er mwyn gwneud cynnydd a gwelliannau pellach mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a grëwyd yn dilyn arolygiad AGC ym mis Hydref a Thachwedd 2016. Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn parhau i gynnal a diweddarau'r CGG ac mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn parhau i fonitro a chraffu ar y cynllun.

Dengys y canlynol faint o'r camau gweithredu ym mis Tachwedd 2018 y mae eu statws RAYG wedi newid ers i'r CGG gael ei greu ym mis Chwefror 2017:

RAYG	Chwefror 2017	Mai 2018	Medi 2018	Tachwedd 2018
Coch	21	0	0	0
Ambr	0	5	3	2
Melyn	0	10	8	6
Gwyrdd	0	6	10	13

Fel y dengys y tabl, mae cyflymder y gwelliant yn y Gwasanaeth wedi bod yn sylweddol, gydag 13 o gamau gweithredu wedi symud i'r statws gwyrdd. Nid oes unrhyw gamau gweithredu yn goch a dim ond 2 ar ambr a 6 yn felyn.

Mae'r 2 bwynt ambr yn ymwneud â:

1. Gwella ansawdd ymarfer;
2. Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir.

Rhagwelir y bydd y gwaith yn parhau er mwyn sicrhau fod yr holl gamau gweithredu a godwyd gan AGC yn derbyn statws gwyrdd erbyn diwedd Mawrth 2018.

ARGYMHELLION

- I gadarnhau fod y Pwyllgor yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd.
- I gadarnhau fod y Pwyllgor yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?

Ddim yn berthnasol.

C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith eu bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?


Ydi.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 19 Tachwedd 2018.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Fel yr uchod.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Amherthnasol
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol
8	Craffu	Mae'r adroddiad yn mynd i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 10 Rhagfyr 2018.

9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
10	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol

E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Amherthnasol
2	Gwrth-dlodi	Amherthnasol
3	Trosedd ac Anrhefn	Amherthnasol
4	Amgylcheddol	Amherthnasol
5	Cydraddoldebau	Amherthnasol
6	Cytundebau Canlyniad	Amherthnasol
7	Arall	Amherthnasol

F - Atodiadau:
<p>Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) Medi – Hydref 2018:</p>  <p>Cynllun Gwella Gwas Plant fersiwn !</p>
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

CC-016749-LB / 229501

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018
Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
1. Gweithlu hyderus a chymwys gyda chapasiti digonol i ddarparu gwasanaeth cyson ac effeithiol							
Tudalen 124	<p>Datblygu'r Strategaeth Gweithlu i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Arfer dda o ran recriwtio Cadw a chefnogi staff Trefniadau cynefino clir Cyfeillio Hyfforddi a mentora Cysgodi Cyfleoedd gwell i hyfforddi a datblygu ar ôl cymhwyso Canllawiau blwyddyn gyntaf o ymarfer (nid oes angen hwn gan ein bod yn dilyn Canllawiau y Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer a luniwyd ar gyfer Cyngor Gofal Cymru) <p>Dolen Argymhelliad rhif 5 yr AGC: Dylid datblygu strategaeth gweithlu gadarn ar frys a fydd yn cynnwys amcanion ar gyfer y tymor byr, canolig a hir ar gyfer recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.</p>	<p>Medi – Hydref 2018 Mae'r Strategaeth Gweithlu presennol wrthi'n cael ei ddiweddarau.</p> <p>Tachwedd 2017 – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae enghreifftiau o Arweinwyr Ymarfer yn hyfforddi/mentora Gweithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso Mwy o gyfleoedd hyfforddi a datbygu ar ôl cymhwyso – bydd yr anghenion hyn yn cael eu nodi mewn Gwerthusiadau a Goruchwyliaeth Mae 2 Weithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant wedi cychwyn yn eu swyddi Gwaith wedi parhau ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gweithlu Arsylwi ymarfer – Mae'r Grŵp Ymarfer Da wedi bod yn trafod sut orau i wneud hyn Llysgenhadon Gofal Cymdeithasol Denu Talent – rydym yn symud ymlaen efo hyn a mae eboest wedi mynd allan i Benaethiaid Gwasanaethau i ofyn am gyfleon profiad gwaith. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae 2 aelod o staff wedi llwyddo i ennill hyfforddeiaeth 2 flynedd i hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys, nod y strategaeth hon yw meithrin ein gweithwyr ein hunain ('Grow our Own'), gan sicrhau bod gennym Weithwyr Cymdeithasol a fydd yn gweithio i'r Gwasanaeth am o leiaf 2 flynedd ar ôl iddynt gymhwyso. Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd ar Ragfyr 2017. Cynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i fonitro cynnydd. Rhodddwyd ailstrwythuro'r Gwasanaeth ar waith ar 4^{ydd} Hydref. Cymerodd 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb dros eu Grwpiau Ymarfer, yn rheoli grwpiau llai ar draws Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys gyda phob Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am 3 neu 4 o Weithwyr Cymdeithasol. Bydd hyn yn golygu y bydd gan Weithwyr Cymdeithasol well mynediad i'w Harweinwyr Ymarfer, gan eu galluogi i gael cyngor buan ar gyfer delio ag achosion unigol ynghyd ag i gael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol. 	<ul style="list-style-type: none"> Sesiwn Gynefino Gorfforaethol ar gael yn fisol ar gyfer staff newydd. Sicrhau cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu. Cynhelir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i fonitro cynnydd ynghyd â monitro materion eraill sy'n ymwneud â'r gweithlu Ymgymerir â gwaith pellach i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tim Lleoli Plant, gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i roi cymorth i deuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Adolygu'r Strategaeth Gweithlu tuag at ddiwedd haf 2018 	<p>Heb eu gwneud hyd yma Gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn adrodd eu bod wedi derbyn cyfarwyddyd a disgwyliadau clir, cefnogaeth, ac adborth adeiladol ynghylch eu hymarfer ac ar ansawdd eu gwaith.</p> <p>Staff yn nodi'n gadarnhaol eu bod yn fodlon yn y gweithle ac yn teimlo eu bod yn cael eu chefnogi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.</p> <p>Wedi cychwyn Archwiliad o waith sy'n darparu tystiolaeth o weithlu hyderus a chymwys.</p> <p>Gwelliant amlwg mewn cyfraddau recriwtio a chadw gyda mwy o staff yn cael eu recriwtio i swyddi parhaol a gostyngiad yn nifer y staff sy'n gadael.</p> <p>Cynefino - pob aelod newydd o staff yn cael cyfnod cynefino cynhwysfawr ac yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.</p> <p>Tystiolaeth bod cyfarfodydd cynefino yn cael eu cynnal a bod staff newydd o'r farn eu bod yn ddefnyddiol mewn perthynas â chanllawiau a disgwyliadau, cymorth, llywio eu hymarfer ac ansawdd y gwaith.</p>	Melanie Jones a Margaret Peters	Ion 2017	Gwaith sy'n parhau

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 125		<p>Awst 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cynllun hyfforddeiaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag AD sy'n cynnig y cyfle i un aelod staff hyfforddi i fod yn Weithiwr Cymdeithasol dros ddwy flynedd drwy Brifysgol Bangor, gyda'r posibilrwydd o ddiogelu swydd barhaol yn y gwasanaeth ar ôl cymhwyso. Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth wedi'i llunio ar gyfer staff newydd. Mae Cynllun Gweithredu'r Gweithlu yn cael ei yrru yn ei flaen i fonitro cynnydd yn erbyn y camau tymor byr hyd at Ragfyr 2017. <p>Mehafin/Gorffennaf 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Strategaeth Gweithlu wedi'i gwblhau. Cynllun Gweithredu'n cael ei baratoi. <p>Mai 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Strategaeth Gweithlu Drafft wedi'i lunio ar y cyd ag AD sy'n cynnwys rhannau perthnasol ar recriwtio, cadw a chymorth, trefniadau cynefino, cyfeillio, hyfforddi a mentora, cysgodi, cyfleoedd hyfforddi a datblygu estynedig ar ôl cymhwyso, canllawiau ar gyfer y flwyddyn gyntaf o ymarfer. Y strategaeth wedi'i rhannu â staff am eu sylwadau. Disgwyliadau ar Reolwyr o ran cynefino wedi'u hamlygu – mae hyn yn gysylltiedig â manteision strwythur newydd a nifer uwch o arweinwyr ymarfer. Materion yng nghyswllt AD – cyfarfodydd wythnosol wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol gan gynnwys recriwtio. 4 gweithiwr cymdeithasol dwyieithog newydd gymhwyso wedi'u recriwtio. Pob swydd gweithiwr cymdeithasol wedi'u llenwi gyda staff dros dro/parhaol/trefniadau recriwtio ar waith. Hysbyseb agored ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol. Sesiwn i Reolwr ar ganllawiau Cynefino wedi ei gynnal ym mis Mawrth. Canllawiau ar flwyddyn gyntaf ymarfer wrthi'n cael eu hadolygu gan y Cydlynnydd Dysgu Ymarfer. 					
1.2	<p>Materion o ran Datrys Staffio i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Recriwtio i swyddi parhaol 	<p>Medi – Hydref 2018</p> <p>Mae wedi'i gytuno bod y risg yn un y gellir ei oddef. Bydd materion staffio yn rhai parhaus oherwydd y</p>	<ul style="list-style-type: none"> Lleihau nifer y staff Asiantaeth. Bydd 3 o Weithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso yn cychwyn yn y Gwasanaeth 	<p>Heb eu gwneud hyd yma</p> <p>Gweithlu sefydlog a pharhaol sy'n arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gysondeb ymarfer ar draws y gwasanaeth. 	Uwch Dîm Rheoli ac AD	Tach 2016	Hydref 2018 a bydd yn

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 126	<ul style="list-style-type: none"> Strategaeth ymadael ar gyfer staff asiantaeth 	<p>newidiadau parhaus mewn staffio sy'n anrnod ac sydd y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth.</p> <p>Mae gennym strategaeth gadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth.</p> <p>Ebrill – Awst 2018 Rydym wedi penodi 5 ymarferydd Gofal Cymdeithasol fydd yn cymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol Cofrestredig yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Nes eu bod wedi cymhwyso, byddant yn cefnogi Grwpiau Ymarfer er mwyn paratoi ar gyfer Arolygiad nesaf AGC.</p> <p>Tachwedd 2017 – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Un Gweithiwr Cymdeithasol parhaol wedi ei b/phenodi ddechrau mis Ionawr Fôn Roberts wedi bod yn ei swydd fel Pennaeth Gwasanaeth ers dechrau mis Rhagfyr Rydym yn parhau i ostwng nifer y staff Asiantaeth, 7 yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ar sail dros dro i wneud gwaith 5 o swyddi Gwaith Cymdeithasol sy'n wag. Caiff swydd un o'r staff Asiantaeth ei chyllido drwy'r Grant Trothwy Gofal. 2 aelod o staff wedi cychwyn eu cwrs fel hyfforddeion Sefydlwyd ymgyrch recriwtio newydd ym mis Tachwedd i geisio denu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol a parhaol. Caiff hysbysebion eu cynnwys yn y Guardian am flwyddyn. 4 o Weithwyr Cymorth ychwanegol wedi cael eu recriwtio i TAT a'u hariannu o Teuluoedd yn Gyntaf. Ymgynghorydd Personol ychwanegol wedi cael ei recriwtio a'i gyllido gyda Grant Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru i roi cefnogaeth ymarferol ac emosynol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Pennaeth Gwasanaeth wedi'i benodi a bydd yn cychwyn yn ei swydd ddechrau mis Rhagfyr. Rydym wedi recriwtio 8 Gweithiwr Cymdeithasol newydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf, y mae pob un ohonynt yn lleol, ac ar wahân i un gweithiwr cymdeithasol, maent i gyd yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae 7 o aelodau staff Asiantaeth yn cael eu cyflogi dros dro i wneud gwaith swyddi Gwaith Cymdeithasol a Rheolwr Tîm sy'n wag ar hyn o bryd 	<p>ddiwedd mis Medi gan ddod â nifer y swyddi parhaol sy'n wag i lawr i 3.</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd yr hysbyseb barhaol i ddenu Gweithwyr Cymdeithasol profiadol a parhaol yn cael ei hysbysebu 3 gwaith yn ystod y 6 mis nesaf. 	<ul style="list-style-type: none"> Cymorth o ansawdd gwell i blant a theuluoedd. Sefydlu gwell perthnasau rhwng teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol yn arwain at well canlyniadau i blant a theuluoedd. <p>Partneriaid yn adrodd bod gwelliant o ran y trefniadau cydweithio â'r Gwasanaethau Plant o ganlyniad i ostyngiad mewn trosiant staff.</p>			fater parhaus

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 127		<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi datblygu trefniadau Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol yn fewnol a bydd 2 o'n staff yn hyfforddi i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol cymwys dros y 2 flynedd nesaf. Rydym wedi methu ag apwyntio i swydd y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd sydd wedi arafu ein cynnydd o ran cyflawni'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd. <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu yn symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion. Wedi penodi'r Tim Teuluoedd Gwydn. Wedi penodi 2.5 Swyddog Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn. 8 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi erbyn hyn, yn dechrau ar y 4^{ydd} o Fedi. Byddir yn cynnal trafodaethau ynghylch ymestyn cytundebau Staff Asiantaeth hyd at ddiwedd mis Rhagfyr. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Cytundebau staff asiantaeth wedi'u hymestyn tan ddiwedd Medi 2017 i sicrhau gweithlu digonol o ran niferoedd a phrofiad. Nod i leihau nifer y gweithwyr cymdeithasol asiantaeth yn ystod mis Medi. 1 gweithiwr cymdeithasol cymwys a 3 myfyriwr gwaith cymdeithasol wedi'u penodi i swyddi. 1 cymwys ac 1 myfyriwr yn dechrau ym mis Gorffennaf. 5 swydd wag yn cael eu hysbysebu ar sail treigl. 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi. Swydd wag arall yn cael ei hysbysebu. Wedi penodi i swydd IRO wag gyda dyddiad dechrau y 10th o Orffennaf. Wedi penodi Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal. Yn dechrau ganol Awst. Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi'i benodi. Rheolwr Gwasanaeth Asiantaeth yn cyflawni'r swydd dros dro. Mae cadw Gweithwyr Cymdeithasol dros dro a pharhaol yn parhau i fod yn sialens i'r Gwasanaeth. Mae darparu cefnogaeth ac arweiniad digonol i'r staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth. 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 128		<p>Mai 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd misol wedi'u sefydlu rhwng AD ac uwch reolwyr y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod materion o ran recriwtio a datblygu'r gweithlu'n symud yn eu blaenau'n gyflym. Bydd hyn yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio, siart staffio a llwyth achosion. Rydym yn parhau i hysbysebu swyddi ar gyfer gweithwyr cymdeithasol profiadol ar sail treigl. AD wedi cynnal sesiynau briffio ar recriwtio i Reolwyr. AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd ynghylch cyfraddau'r Gwasanaeth o ran recriwtio a chadw staff. Arweiniad parhaus gan yr Adran Gyllid ar oblygiadau cost cyflogi staff asiantaeth. Strategaeth ymadael yn ei lle ar gyfer staff asiantaeth lle mae swyddi wedi cael eu llenwi gan weithwyr parhaol. 					
	1	<p>Adolygu'r Polisi Goruchwylio. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cod Ymarfer Goruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol neu ad-hoc Pwrpas Goruchwylio Manteision Goruchwylio Rolau a Chyfrifoldebau Isafswm y Sesiynau a Gynhelir a threfniadau Canslo Cynllunio ar gyfer Sesiwn Goruchwylio Cofnodi Goruchwyliaeth Anghydfodau Cyfrinachedd a Mynediad Cysylltiadau â Pholisiau a Gweithdrefnau Eraill <p>Dolenni i Argymhelliad rhif 7 AGC: Dylai uwch arweinwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd y goruchwylio ar gyfer staff rheng flaen; rhaid sefydlu mecanwaith sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd.</p>	<p>Chwefror – Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Uwch Reolwyr wedi arsylwi sesiynau goruchwyliaeth ar draws y gwasanaeth: mae'r pecynnau cymorth archwilio unigol hyn eto i gael eu dadansoddi fel y gallwn adrodd ar y canfyddiadau. Gwneir hyn unwaith y bydd yr holl archwiliadau unigol wedi cael eu cyflwyno. <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Cychwynnodd Archwiliad o drefniadau goruchwylio ym mis Hydref 2017 ar draws y Gwasanaethau Plant. Nid yw'r archwiliad hwn wedi mynd rhagddo yn ôl y disgwyl – nid oedd y rheolwyr perthnasol wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cofnodiadau goruchwyliaeth ar draws y timau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu fod problem o ran cofnodi goruchwyliaeth. Mae arolwg staff wedi'i gwblhau ac mae'n dangos rhai canlyniadau positif. Cynhaliwyd gweithdai mentora ym mis Rhagfyr i Arweinwyr Ymarfer ar oruchwyliaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn datblygu ymarfer adlewyrcho. Cyngor a chanllawiau'n parhau i gael eu darparu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol unigol mewn perthynas â chwblhau asesiadau, cofnodi ac asesu risg. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ffurflen adborth wedi'i datblygu gan gydweithwyr ym maes Hyfforddiant i ofyn beth y maent wedi ei ddysgu o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ganddynt, p'un 		<p>Wedi Cychwyn Adroddiadau cadarnhaol gan staff fod ansawss eu hasesiadau a chynlluniau wedi gwella drwy oruchwyliaeth reolaidd o ansawdd. Mae'r ymatebion i'r Arolwg Goruchwyliaeth yn dangos diffyg consensws ar draws y gwasanaeth ynghylch hyn ac mae angen gwneud gwaith pellach ar effaith goruchwyliaeth ar ansawdd ymarfer;</p> <p>Mae'r ymateb i effaith y strwythur newydd o ran y capasiti i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i gefnogi'r gweithlu drwy oruchwyliaeth reolaidd o safon yn dangos bod angen gwneud mwy o waith yn hyn o beth.</p> <p>Arweiniad clir ar safonau ac arfer dda yn cael ei gyfleu'n glir ac ar gael i bawb trwy Oruchwyliaeth reolaidd. 67% o ymatebwyr yn cytuno bod goruchwyliaeth yn eu helpu i ddeall yn well yr hyn y mae angen iddynt fod yn ei wneud. Mae angen adeiladu ar hyn.</p> <p>Rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwylio a'r Model Risg wedi ei ymgorffori yn y sesiynau Goruchwylio gyda staff. 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod modd iddynt wneud hyn. Bydd angen rhoi</p>		Rhag 2016

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018
Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 129		<p>a ydynt wedi rhoi'r hyn a ddysgwyd ganddynt ar waith, beth fyddent yn ei newid am y cwrs os oes unrhyw beth. Cwblhawyd y ffurflenni hyn gan staff yn ystod y Gynhadledd Staff ym mis Hydref. Rydym wrthi'n dadansoddi'r wybodaeth ar hyn o bryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd gweithdy cynllunio ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli gyda Rhonwyn Dobbing i baratoi am y 3 gweithdy ar oruchwyliaeth sy'n rhoi sylw i ganlyniadau ('outcome focused supervision'). Rydym wedi parhau i atgoffa staff bod goruchwyliaeth yn flaenoriaeth a bod ar bob aelod staff angen eu goruchwyllo'n rheolaidd yn unol â'r Polisi. Mae goruchwyliaeth yn parhau i gael ei olrhain gan y Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd Rheolwyr/Arweinwyr Ymarfer yn atebol am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio. Roedd Archwiliad o drefniadau goruchwyllo wedi dechrau ym mis Hydref 2017 ar draws y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys canfyddiad staff o oruchwyliaeth drwy holiaduron a grwpiau ffocws. Yr adborth cychwynnol gan yr archwilydd yw bod cynnydd gyda'r gwaith yn araf gan nad yw rheolwyr yn gallu darparu'r holl gofnodion goruchwyllo a oedd i fod wedi digwydd o fewn y cyfnod dynodedig. Mae'n annhebygol y bydd yr adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth systematig a chyson gyda'r polisi. Mae'r Arweinwyr Ymarfer yn newydd iawn i'w swyddi ac nid ydynt ond wedi bod yn goruchwyllo eu staff ers dechrau mis Hydref. Byddwn yn cynnal ail archwiliad yn Chwefror 2018. Mae'r mentora gan Bruce Thornton wedi dechrau gweithio gyda phob Arweinydd Ymarfer yn nhermau sut y maent yn ymwreiddio'r Model Risg yn eu gwaith, gan gynnwys yn ystod goruchwyllo. Mae canfyddiadau o archwiliadau o ffeiliau achosion yn dangos yn gyson bod diffyg tystiolaeth o drosolwg a goruchwyliaeth gan reolwyr ar y ffeiliau achosion. Ychydig iawn o dystiolaeth ar hyn o bryd i gefnogi bod y canlyniadau a nodir yn cael eu cyflawni yn nhermau: Mae ansawdd eu hasesiadau wedi gwella drwy oruchwyliaeth reolaidd o safon dda. Mae rheolwyr yn cydymffurfio â'r Polisi Goruchwyliaeth a'r Model Risg yn cael ei ymgorffori o fewn sesiynau goruchwyliaeth gyda staff. Mae archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos ansawdd da a goruchwyliaeth gyson. 		<p>prawf pellach ar hyn yn ystod gwerthusiad o Fodel Risg yr hyfforddiant/mentora diweddar.</p> <p>Mae archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn dangos goruchwyliaeth gyson o ansawdd da. Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod gwelliant o ran trosolwg a goruchwyliaeth rheolwyr yn parhau i fod yn anghyson.</p> <p>Mecanwaith sicrwydd wedi ei sefydlu'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi Goruchwyllo.</p> <p>Staff yn dweud eu bod yn cael cymorth effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau. Oddeutu 75% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf yn yr arolwg goruchwyllo eu bod yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau. 79% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael eu goruchwyllo'n ddigon aml.</p> <p>Rheolwyr yn dweud eu bod yn gallu cefnogi staff i'r safonau gofynnol – 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gallu gwneud hyn.</p>			<p>ond mae'n rhy fuan i ddod i gasgliadau</p>

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 130		<p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gwnaed trefniadau gyda Rhonwyn Dobbing o ran ymgymryd â hyfforddiant ar oruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer. Cynhelir tri gweithdy a'u pwrpas fydd rhoi cymorth i oruchwylwyr archwilio eu rôl o ran goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ynghyd ag ystyried gwerth goruchwyliaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ran defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr, ymarfer gwaith cymdeithasol ynghyd ag ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal, dylai gryfhau rôl y goruchwylwr, rhoi sylw i sgiliau craidd a'r heriau ar gyfer gwahanol grwpiau ymarfer. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant ar y polisi Goruchwyliaeth wedi'i gynnal, ynghyd â hyfforddiant ar y model risg ym mis Mehefin. Tracio a monitro trefniadau goruchwyllo'n barhaus i sicrhau cydymffurfiaeth o ran y Polisi. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Polisi Goruchwyliaeth wedi'i adolygu a'i rannu gyda staff. Trefniadau tracio yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth lwyd â'r polisi Goruchwyliaeth. Polisi Goruchwyliaeth wedi'i gwblhau. Hyfforddiant ar y Model Risg a'i gyswllt â Goruchwyllo staff wedi'i ddarparu ar gyfer yr holl staff ym mis Mehefin. Hyfforddiant Goruchwyliaeth wedi'i ddarparu i bob aelod staff a'r Rheolwyr. 					
1.4	<p>Darparu cyfleoedd datblygu ar gyfer Arweinwyr Ymarfer i gefnogi'r gweithlu i gyflawni eu dyletswyddau. Meysydd i ganolbwyntio amynt:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau cywir a diogel o ran rheoli achosion (rheolwyr â throsolwg o'r drefn gwneud penderfyniadau) Gwella a rheoli ymarfer a pherfformiad gan gynnwys 	<p><u>Medi – Hydref 2018</u></p> <p>Angen datblygu Arweinwyr Ymarfer ymhellach. Edrych i gynnal sesiwn gydag Arweinwyr Ymarfer a chreu cynllun penodol o ran cyfleoedd i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau.</p> <p><u>Ebrill – Awst 2018</u></p> <p>Oherwydd cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant a chynnydd yn nifer yr achosion gofal mae wedi bod yn her i'r Arweinwyr Ymarfer sicrhau fod eu staff yn rheoli eu hachosion yn effeithiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> AD i ddarparu diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â chyfraddau recriwtio a chadw ar gyfer y Gwasanaeth. (Gallai hyn fod yn rhan o'r trafodaethau a gynhelir yn y cyfarfodydd a gynhelir bob 6-8 wythnos gydag AD). 	<p><u>Wedi cychwyn</u></p> <p>Rheolwyr yn dweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu sgiliau o ran gwneud penderfyniadau rheoli achos cywir a diogel. 83% o'r Staff a gwblhaodd yr Holiadur Staff ym mis Tachwedd 2017 yn cytuno.</p> <p>Staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwell cefnogaeth gan eu rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda hynny'n arwain at ostyngiad o ran trosiant staff, cyfraddau gwell o ran cadw staff a mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu. 74% o'r staff a gwblhaodd yr Holiadur Staff ym mis</p>	Uwch Dîm Rheoli	Ionawr 2017	<p>Mawrth 2018</p> <p>Rhy fuan i fod â thystiolaeth o'r canlyniad cyfleoedd datblygu wedi cael eu rhoi i Arweinwyr</p>

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 131	<p>darparu her a chyfarwyddyd adeiladol i staff</p> <ul style="list-style-type: none"> Rheoli sgysiau anodd Darparu goruchwyliaeth reolaidd o ansawdd Datblygu arweinwyr ymarfer mewn sgiliau hyfforddi a mentora <p>Dolen i argymhelliad rhif 6 AGC: Dylai trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch ymarferwyr gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod capasiti ymysg rheolwyr i gadw golwg yn effeithiol ac yn gyson ar y drefn gwneud penderfyniadau, darparu her a chyfeiriad ar gyfer staff ar draws y gwasanaeth; dylai rhaglen arweinyddiaeth a datblygu fod ar gael i adeiladu gwynnwch.</p>	<p>Mae Arweinwyr Ymarfer wedi parhau i dderbyn cefnogaeth yn eu Grwpiau Ymarfer drwy oruchwyliaeth reolaidd yn unol â'r Polisi Goruchwyllo.</p> <p>Chwefror-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys yn cynnal cyfarfodydd misol gydag Arweinwyr Ymarferol er mwyn canolbwyntio ar ansawdd yr ymarfer Gwaith Cymdeithasol a'r gwelliant sydd ei angen. Caiff trefniadau ar gyfer AY eu hadolygu'r rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y capasiti i oruchwyllo a chefnogi eu staff. <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r swyddfa wedi cael ei hailstrwythuro ac mae'r Arweinwyr Ymarfer wedi cael eu lleoli gyda'u Grwpiau Ymarfer. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Rhaglen Gynefino'r Gwasanaeth yn parhau (gweler isod). Cymerodd yr Arweinwyr Ymarfer gyfrifoldeb am eu Grwpiau Ymarfer ddechrau mis Hydref. Fe gafodd y mwyafrif ohonynt gyfnod cynefino o 3 wythnos heb gyfrifoldeb rheoli dros staff. <p>Awst 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgwymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 a gadarnhaodd bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu. <p>Dyma'r Themau Allweddol: Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella Defnydd wedi cynyddu o ran yr offeryn Risk 2 Cyfarfodydd Strategaeth amserol Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio). Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn Cynhaliwyd Bore Cwrdd i Ffwrdd o'r gwaith ar y 28^{ain} o Orffennaf ar gyfer Uwch Aelodau Staff i gytuno ar drefniadau ar gyfer ailstrwythuro'r gwasanaeth ac i </p>		<p>Tachwedd 2017 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf.</p> <p>Adborth gan bartneriaid yn dangos mwy o hyder yn y gweithlu ac enw da'r sefydliad.</p> <p>Archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion yn dangos gwelliant yn ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth.</p> <p>Cynhelir archwiliadau rheolaidd ar draws y Gwasanaeth sy'n dangos fod Rheolwyr yn gwneud penderfyniadau rheoli cywir a diogel.</p>			yr Ymarfer

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 132		<p>ddechrau trafod trefniadau ar gyfer Arweinwyr Ymarfer.</p> <ul style="list-style-type: none"> Llwyddwyd i benodi 8 Arweinydd Ymarfer. Mae rhaglen gynefino'r gwasanaeth yn ei lle ar gyfer mis Medi, i gynnwys sesiynau hyfforddiant ar: Y Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth, sefydliad trosfwaol, CGG, rheoli absenoldeb salwch a Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith Cwynion a'r system Fflecsi Cyfathrebu ar y Cyd Gweithdai Goruchwyllo -3 x gweithdy diwrnod llawn ar oruchwyliaeth yn seiliedig ar ganlyniadau PLO a gwaith Llys Rheoli Amser a Rheoli Dyddiadur, Blaenoriaethu Gwaith a Disgwyliadau Cyflwyno Sesiynau Gwaith Grŵp ACE i Rien Perfformiad Galluogrwydd Cwrs Dull Rheoli Sicrwydd Ansawdd ac Archwiliadau Trothwyon a gwneud penderfyniadau cywir ynghyd â staff yn cyflawni camau gweithredu Cynllunio Gofal ac Adolygu Gofal a Chymorth, Amddiffyn Plant a LAC Cofnodi achosion Aseidiadau a'r Model Risg Rheoli Llwyth Achosion – Neilltuo achosion, camu i lawr i TAF a pheidio â chau achosion i'r Gwasanaethau Plant, llwyth achosion llai ar gyfer rhai sydd newydd gymhwyso – uchafswm o 12 achos Cynadleddau Grŵp Teulu, Cyfranogi a Gwaith Datblygu Rhiantu Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Gogledd Cymru CAF/CASS Cyfweld Ysgogiadol <p><u>Mehffin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: archwiliadau o ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiadau ar gael ddiwedd Gorffennaf. Hyfforddiant wedi'i gynnal ar gyfer Rheolwyr ar reoli sgyrsiau anodd. 7 Arweinydd Ymarfer wedi'u penodi, 4 staff mewnlol a 3 allanol. Hyfforddiant wedi'i ddarparu i Reolwyr ar ddarparu Goruchwyliaeth reolaidd o safon. 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
		<ul style="list-style-type: none"> Mae 4 o reolwyr ar hyn o bryd yn derbyn hyfforddiant achrededig ym maes Arweinyddiaeth a Datblygu. Bydd ailstrwythuro gwasanaethau a sefydlu timau gweithredol llai yn cael eu gyrru yn eu blaenau a bydd yn sicrhau mwy o gapasiti ymysg Rheolwyr i roi arweiniad, goruchwyliaeth a chefnogaeth gyson i staff. Gwnaed trefniadau i Reolwyr Gwasanaethau Oedolion roi cymorth i Reolwyr Gwasanaethau Plant gyda'u datblygiad proffesiynol. 					
1.5	<p>Argymhelliad 4 AGC: Parhau i gefnogi uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant er mwyn bodloni eu hunain, partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r lefel orau bosib.</p> <p>AGC Argymhelliad 8 AGC: Rhaid i'r gefnogaeth weidyddol a chorfforaethol gryf ar gyfer gwasanaethau plant barhau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau y mae angen eu gwneud i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal</p>	<p>Chwefror-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymweliadau Laming wedi cael eu cynnal <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Panel Aelodau'n parhau i gyfarfod yn fisol. Cafwyd 7 cyfarfod hyd yma. 3 o ymweliadau Laming wedi cael eu cynnal ers Hydref 2017, gydag ymweliadau â'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, y Tîm Teuluoedd Gwydn a'r Gwasanaethau Arbenigol Plant <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Panel Aelodau wedi parhau i ganolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad Cynllun Gwella Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant, gan ddal Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod ers yr etholiadau lleol ym mis Mai. Mae pwrpas y cyfarfodydd Laming wedi cael ei adolygu a chwestiynau wedi'u gofyn yn ystod ymweliadau, ac fe'u cysylltir â chanlyniadau perthnasol yn y CGG. Mae cyfarfodydd Laming ar gyfer Aelodau wedi'u trefnu hyd at fis Mai 2018. Ymgwymerwyd ag ymweliad Laming y ddiweddar â'r Tîm Lleoli Plant ar 27.10.17 gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol, y Cadeirydd Sgrifftini ac aelod etholedig o'r Panel. Arweinydd y Cyngor yw'r Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Plant hefyd, mae'n gefnogol iawn ac mae ganddi gysylltiad agos â'r gwaith o fonitro'r Cynllun Gwella Gwasanaeth drwy gyfarfodydd misol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth i drafod cynnydd a datblygiadau. <p>Awst 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae rhestr o ymweliadau Laming misol rhwng Gorffennaf 2017 a Mai 2018 wedi cael eu cyflwyno a'u 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i roi cymorth i uwch arweinwyr wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau plant. 	<p>Heb eu gwneud hyd yma Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn dweud bod eu cyfranogiad yn y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datblygu eu dealltwriaeth o'r materion sylfaenol allweddol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u gallu i sgrifwtineiddio effeithiolrwydd y gwasanaeth.</p> <p>Uwch reolwyr yn y gwasanaeth yn dweud bod y cymorth a'r her a ddarperir gan uwch arweinwyr ac aelodau etholedig wedi parhau i wella.</p> <p>Partneriaid proffesiynol a chymunedau yn dweud bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yn unol â'r Ddeddf GC a Llesiant.</p> <p>Wedi cychwyn Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig yn adrodd bod y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n unol â'r amserlen ac i'r safon gofynnol.</p>	Prif Weithredwr Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol	Ionawr 2017	Parhaus Nifer o Gynghor wyr wedi mynychu 'r Wyl Gynhwys iant

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 134		<p>cytuno gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ar 21/08/17. Mae ymweliadau Laming wedi cychwyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol gydag Andrew Bennett, Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research', am y posibilrwydd o redeg sesiwn fyddai ar gael i'r holl Aelodau/Uwch Arweinyddion ynghylch Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod. Cynhaliwyd yr ail Banel Aelodau ar 21^{am} o Awst a lluniwyd dogfen dracio ar gyfer gwaith y panel. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Arweinydd newydd y Cyngor/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant a'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro wedi adolygu rôl y panel Aelodau GC a Llesiant o ran creu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Panel Plant. Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd. Grŵp Gwella'r Gwasanaethau Plant yn cael ei gynnal yn fisol, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i yrru ymlaen y gwelliannau a'r newidiadau a fyynnir. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Panel GC a Llesiant i barhau i fonitro'r broses o gwblhau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth. Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i barhau i gynnal ymweliadau Laming yn rheolaidd. Gwaith Rhianta Corfforaethol i gael ei ddatblygu ymhellach (gweler 5.3). Angen adnoddau ychwanegol i gael gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau'r Gwasanaethau Plant. 					

2. Aseidiadau, ymyriadau a phenderfyniadau amserol o safon uchel yn cael eu gwneud i ddiogelu, cefnogi a rheoli'r risgiau i blant: cronolegau, cofnodion a thystiolaeth a phhecynnau cymorth ymchwil o ansawdd da

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
2.1	Gwelliant o ran ansawdd ymarfer. <u>Meysydd i ganolbwyntio arnynt:</u>	<u>Medi – Hydref 2018</u> Gwaith yn parhau er mwyn gwella ansawdd ymarfer. Ansawdd adroddiadau ymarfer Ch2 yn digwydd cyn hir. Oedi o ganlyniad i ganolbwyntio ar yr archwiliad.	Mae angen i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar	Eto i'w wneud Adolygu'r trothwyon sy'n gysylltiedig â phlentyn yn dod i ofal o ganlyniad i'r gwerthusiadau bod y trothwyon ar gyfer	Uwch Dîm Rheoli Hyfforddiant	Ionawr 2017	Mawrth 2018

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018
Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 135	<ol style="list-style-type: none"> 1. Amddiffyn plant, amddiffyn plant ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC 2. Model Risg – gwella'r dadansoddiad o risg 3. Asesu – Beth sy'n bwysig, 5 maes asesu. 4. Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. 5. Cwblhau cynlluniau Gofal a Chymorth o dan y Ddeddf GC a Llesiant. 6. Sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. 7. Cadw cofnodion 8. Cwrs Cyfathrebu ar y Cyd ar sgysiaid sy'n seiliedig ar gryfderau. <p>Argymhelliad 10: Dylid gwella ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn gyson o ansawdd da, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau a ddymunir, amserlenni ac atebolrwydd ar gyfer camau gweithredu yn glir.</p>	<p>Mae'n debygol o ddangos bod petrh gwaith da wedi'i wneud o ran gwelliannau yn erbyn y gorchmynion a nodwyd yn ystod y chwarter diwethaf ond rhai negeseuon ar yr angen i ganolbwyntio ar Ofal LAC a Chynllunio Cefnogaeth fel blaenoriaeth.</p> <p>Mae drafft o'r model 'Cryfder ar y Cyd' wedi'i gwblhau. Mae gwaith hefyd wedi'r gwblhau gabn y Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol ar wella trefniadau mewn perthynas â chynadleddau achos.</p> <p>Ebrill – Awst 2018 Cwblhawyd gwaith yn erbyn rhai o'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn y chwarter olaf mewn perthynas â'r meysydd i ganolbwyntio ar ystod y Golofn ar y chwith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cydymffurfiaeth dda â'r angen i gael Cynllun AP ar gyfer pob plentyn sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. (94% ym Mehefin 18) • Mae angen rhagor o gefnogaeth a datblygiad ar gyfer Pontio i Gynlluniau Gofal a Chefnogaeth Rhan 6. <p>Dengys canfyddiadau adroddiad Ansawdd Ch1 mewn perthynas ag ansawdd ymarfer fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd yr asesiadau yn anghyson ond yn gwell. Ymddengys fod y defnydd o genogramau a chronolegau yn gwell. Dylai datblygu hyn olygu – sicrhau fod hyn yn cael ei ddefnyddio'n gyson a staff yn derbyn cymorth i ddadansoddi'r wybodaeth fel rhan o'u hasesiad. Mae angen gwella'r dadansoddiad a rhaid cael rhesymeg glir dros unrhyw gamau a gymerir. • Mae cynlluniau gofal a chefnogaeth Rhan 4 yn cael eu gwreiddio • Cydymffurfio â'r angen am Gynllun Gofal a Chefnogaeth Rhan 6: ac mae ansawdd y cynlluniau a gwblhawyd yn wael. • Roedd anghysondeb mewn goruchwyliaeth i gefnogi gwell ymarfer a gwella penderfyniadau a throsolwg o reolaeth. Rhai enghreifftiau o Benderfyniadau Rheolwyr a oedd yn darparu tystiolaeth o bryderon / honiadau difrifol yn cael 	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu fforymau Ymarferwyr i ganolbwyntio ar Fodel Risg: Gweithwyr Newydd Gymhwysu ac Ymarfer Adfyfyrion – sesiynau cinio a dysgu • Ymddengys fod y defnydd o genogramau a chronolegau'n gwell. Dylai adeiladu ar hynny olygu – sicrhau fod hyn yn cael ei weithredu'n gyson a bod staff yn derbyn cefnogaeth i ddadansoddi'r wybodaeth fel rhan o'u hasesiad. • Dylai asesiadau a dadansoddiadau o fewn y mwyafrif o asesiadau ysgrifenedig/nodiadau achos/cofnodion cyfarfodydd ystyried yr effaith/ystyr ar y plentyn, a dylai rhesymeg glir gael ei amlygu ar gyfer unrhyw gamau a gymerir. • Bod yn gyson wrth gofnodi tystiolaeth o benderfyniadau rheolwyr a throsolwg yn cynnwys y rhesymeg dros wneud penderfyniadau • Mae angen rhoi sylw i gofnodi gwybodaeth sylfaenol yn WCCIS: a dylai staff gynnal "diwrnod tacluso cofnodion" cyn Medi 2018 er mwyn sicrhau fod yr holl ddata sylfaenol wedi cael ei ddiweddarau. • Gallai'r gwasanaeth ystyried creu Proffil/Crynodeb Un Dudalen ar bob ffeil • Dylai nodiadau achos fod yn ddadansoddol, nodi pwrpas y sesiwn yn glir bob amser, yr ymyrraeth yn ystod y sesiwn honno, a'r cynllun ar gyfer sesiynau sydd ar y gweill ayb. 	<p>cofrestru plant ar y Gofrestr Amddiffyn a chyfarfodydd rhan 4 wedi cael eu nodi fel ymarfer gwael.</p> <p>Tystiolaeth o 'atal' a 'chefnogi' gyda mwy o blant yn aros yn eu cartrefi.</p> <p>Archwiliadau rheolaidd yn digwydd; fodd bynnag nid ydynt yn adrodd ar welliannau cyson yn ansawdd yr ymarfer, asesu risg a chadw cofnodion.</p> <p>Cynhelir archwiliadau rheolaidd; fodd bynnag nid ydynt yn adrodd ar welliannau cyson sy'n dangos gwelliant yn ansawdd a chysondeb y cofnodion a'u bod yn gyfredol ac yn cael eu storio yn systematig.</p> <p>Cynnydd mewn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar y cynnydd a gyflawnwyd ganddynt gyda chymorth y Gwasanaethau Plant. Cafwyd llai o gwynion yn Ch3. Fodd bynnag, mae angen tracio hyn ar sail tymor hwy.</p> <p>Wedi dechrau Cynnydd gyda chynllun gweithredu a'r broses ar gyfer gwella cynadleddau amddiffyn plant yn digwydd yn gyflymach.</p> <p>Wedi'u cwblhau Sicrhau bod templedi rhanbarthol ar gyfer 'asesu' / cynllunio gofal a chefnogaeth' sy'n cofnodi glir anghenion, risgiau, cryfderau, canlyniadau, atebolrwydd am weithredoedd a'u hamserlenni cysylltiedig ar gael i'w defnyddio o fewn y gwasanaeth.</p>			

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 136		<p>sylw amserol a chymesur. Mae trefniadau presennol y Grwpiau Ymarfer yn caniatáu i oruchwyliaeth ddeinamig ddigwydd nid yn unig o safbwynt rheoli llinell ond yn gynyddol ar draws y gwasanaeth. Mae angen trefn gofnodi mwy cyson er mwyn darparu tystiolaeth am benderfyniadau rheolwyr a throsolwg rheolwyr, yn cynnwys y rhesymeg tu ôl i benderfyniadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Barnwyd bod 11 o'r 13 achos yn yr archwiliad o ffeiliau achos yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o ran cadw cofnodion a chofnodi digwyddiadau arwyddocaol. Mewn 10 allan o'r 13 achos barnwyd bod yr achosion wedi eu cofnodi'n dda ac yn amserol, er y nodwyd y cymerir mwy na 5 diwrnod i gofnodi'r gwaith, fel y nodwyd gan un o'r archwilwyr. Mae angen rhoi sylw i gofnodi gwybodaeth sylfaenol yn WCCIS: a dylai staff gynnal "diwrnod tacluso cofnodion" cyn mis Medi 2018 er mwyn sicrhau fod yr holl ddata sylfaenol wedi cael ei ddiweddarau ac i ddarparu Proffil/Crynodeb Achos Un Dudalen ar bob ffeil. <p><u>Asesiad</u> - er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y broses asesu ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mae Un Pwynt Mynediad yn cael ei sefydlu fydd yn cynnwys yr holl atgyfeiriadau i Wasanaeth Plant Arbenigol Ynys Môn, h.y. ar gyfer gwaith cymdeithasol, nysio Pediatrig cymunedol anabledau dysgu, gwasanaeth seicoleg anabledau Dysgu, cydlynnydd pontio.</p> <p>Sicrhawyd cyllid o gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf 17/18 a chrëwyd swydd Swyddog Cynhwysiant a Lles fel rhan o Teulu Môn, ond gyda chysylltiadau agos â'r Gwasanaeth Plant Arbenigol.</p> <p>Yn dilyn proses recriwtio dechreuodd y swyddog weithio ar 6 Awst. Bydd modd i ni dreialu'r broses tan ddiwedd Mawrth 2019. Bydd y swyddog yn cynnal y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' o fewn 10 niwrnod ac yn dilyn hynny bydd yr unigolyn/teulu yn cael eu cyfeirio, atgyfeirio i'r Tim o Amgylch y Teulu neu dimau eraill yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, neu'r Gwasanaethau Plant Arbenigol. Bydd hyn yn sicrhau ymateb cyson i'r holl atgyfeiriadau ac yn sicrhau fod yr 'Atgyfeiriad Cywir' yn cael ei wneud ar yr 'Amser</p>	<ul style="list-style-type: none"> Weithio i sicrhau Llwythi Achosion y gellir ymdopi â nhw – raid i Arweinwyr Ymarfer weithio gyda'u hymarferwyr i leihau step down cases Canolbwyntio ar wella asesiadau – sesiynau dysgu mewn grwpiau bychan ar ddatblygu arferion asesu a sut i ddefnyddio'r teclyn cymhwyster. Paratoi'n well ar gyfer Adolygiadau Statudol a Chynadledau Achos Adolygiadau. Camau cywirol o ran achosion Lleoliadau gyda Rhieni Rhaid i Gynlluniau Gofal LAC neu Gynlluniau Gofal a Chymorth LAC gael eu sefydlu ar gyfer achosion perthnasol o fewn y mis nesaf Rhaid i Arweinwyr Ymarfer a'r Rheolwyr sicrhau bod cofnod o'u trosolwg rheoli Canolbwyntio'n ddwys ar Gynllunio Sefydlogrwydd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn gostwng nifer y plant mewn gofal. Cwblhau'r achosion y mae angen eu diddymu a nodi'r holl achosion lle gall SGO fod yn briodol a chanolbwyntio ar fwrw ymlaen gyda'r achosion hynny. Parhau i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd i gyflawni ffordd newydd o weithio Adolygu'r Broses Cynadledau Achos – canolbwyntio ar adolygu'r trefniadau ymarferol, adrodd, cynlluniau amddiffyn plant a rôl y grŵp craidd hwn Mae genogramau a chronolegau yn arbennig yn parhau i fod yn feysydd y mae angen eu gwella, yn enwedig fel arf i helpu gyda asesiadau neu os cafwyd nifer o gyfeiriadau blaenorol. 				

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 137		<p>Cywir' ar gyfer y plentyn/person ifanc a'u teulu/gofalwyr.</p> <p>Mae disgwyliad clir fod rhaid i'r holl achosion Gofal a chefnogaeth, AP a LAC agored gael asesiad, cynllun gofal a chronoleg wedi eu diweddarau. Mae staff yn symud y gwaith hwn yn ei flaen fel mater o flaenoriaeth</p> <p>Chwefror - Mawrth 2018 Cwblhawyd y dadansoddiad o ansawdd ymarfer ar gyfer Ch3. Dangosodd adroddiadau blaenorol nad oedd y broses fisol o archwilio ffeiliau achos wedi ymwreiddio yn y gwasanaeth ond roedd digon o fanylion ar gael i lunio casgliadau thematig. Yn Ch3, nid oedd y manylion a gafwyd yn ôl yn ddigonol i lunio sylfaen gadarn ar gyfer dadansoddiad. Roedd natur y gwerthusiadau eraill yn benodol i achosion ar y cyfan ac yn cynnwys dau adolygiad rheoli a oedd yn cyffwrdd ar rai cyfnodau ymarfer cynharach.</p> <p>O ganlyniad, nifer gyfyngedig o faterion a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth yn gyffredinol gafwyd yn ystod y chwarter hwn. Lliniarwyd hyn yn rhannol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad thematig o ymarfer gan y swyddogion diogelu annibynnol • Trosolwg chwarterol ac adborth gan y swyddogion diogelu annibynnol • Dadansoddiad o gwynion a chanmoliaethau yn ystod Ch3 <p>Dangosodd y canfyddiadau fod</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd yr asesiadau yn anghyson. • Roedd ansawdd y cynlluniau gofal a chefnogaeth gan gynnwys cyflymder cwblhau asesiadau a gweithredu a chynnal lefel y gwaith yn wael. • Roedd goruchwyliaeth er mwyn cefnogi ymarfer gwell a gwneud penderfyniadau gwell a throsolwg y rheolwyr yn anghyson. • Roedd ansawdd a chysondeb cadw cofnodiadau yn anghyson ond roedd tystiolaeth fod pethau'n gwella.. • Roedd ansawdd, cysondeb ac amseriad ymholiadau diogelu plant a gwelliant yn lefel y ddealltwriaeth a'r defnydd o drothwyon ar gyfer cyfeiriadau, asesiadau a diogelu plant yn anghyson. 	<ul style="list-style-type: none"> • Sylw i fanylion mewn cofnodiadau gwybodaeth gyffredinol ar WCCIS – yn enwedig gwybodaeth gan ysgolion, Meddygon Teulu a rhieni / PR. • Goruchwyliaeth rheoli. Er yr ymddengys bod trosolwg o achosion yn cael ei rheoli'n dda a bod penderfyniadau'n glir, ychydig o dystiolaeth welwyd o oruchwyliaeth ffurfiol ac adlewyrchol ddiweddar yn y sampl hwn o achosion. • Cofnodion achosion pwrpasol sy'n rhoi trosolwg clir o'r achos a dealltwriaeth o'r rhesymau pam y cymerwyd camau gweithredu penodol. • Dealltwriaeth o arwyddocâd cleisiau heb eglurhad mewn babanod na fedrant symud eto. • Sefydlu'n ehangach Fodel Risg Gwynedd/Thornton. • Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 – Rhaid i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sylfaenol i wella data perfformiad. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw gwella ymarfer asesu. Darperir hyfforddiant gan Bruce Thornton ar weithredu'r model risg mewn asesiadau. Mae gwaith ar fynd o ran ymgysylltu â staff i ddiffinio safonau ar gyfer asesiadau. • Ymarfer Myfyriol mewn Gwaith Cymdeithasol: <ol style="list-style-type: none"> 1. Amddiffyn plant 2. Sut i sefydlu a chynnal perthnasau o ansawdd uchel gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. 3. Cadw cofnodion. 4. Datblygu canllawiau ar ymarfer da mewn perthynas â chadw cofnodion. Comisiynwyd Bruce Thornton i 				

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 138		<p>Dangosodd archwiliad thematig o Leoliadau gyda Rhieni nad oedd yr achosion yn cwrdd â'r gofynion statudol.</p> <p>Yn dilyn o archwiliad cynharach a nododd nad oedd gan yr holl achosion gynlluniau diogelu plant – dangosodd archwiliad dilyn i fyny bod y rhain bellach yn eu lle ac mai dim ond rhyw un neu ddau o achosion unigol oedd yn parhau i fod angen sylw. Gwnaed yr un gwaith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – fodd bynnag, ychydig o gynnydd a wnaed o ran sicrhau bod gan bob plentyn gynllun cyfredol.</p> <p>Ar nodyn cadarnhaol, dangosodd y dadansoddiad o archwiliad mis Rhagfyr o'r ffeiliau achosion (a gwblhawyd ym mis Chwefror) bod peth gwaith da iawn yn cael ei wneud a hynny o safbwynt nifer yr achosion (6 wedi eu graddio'n 'dda') a hefyd y gwaith a wnaed gan yr archwilyr gyda nifer ohonynt wedi darparu sylwadau da a threiddgar. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar ymarfer ers Hydref 2017. Canfu'r archwiliad arfer dda yn y meysydd canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • At ei gilydd, roedd y cofnodiadau achos yn gyfredol. • Roedd rheolwyr yn gwneud penderfyniadau mewn ymateb i gyfeiriadau o fewn 2-4 awr. Roeddynt yn glir ac yn briodol. • Lle yr oedd angen gwneud penderfyniadau ynghylch strategaeth, roedd yn ymddangos bod y rhain hefyd yn cael eu cynnal yn amserol ac yn arwain at benderfyniadau clir a oedd yn cael eu cofnodi'n gryno Ymddengys bod hyn yn wir am benderfyniadau rheoli yn gyffredinol drwy'r archwiliad hwn. • Mae'n ddyddiau cynnar yn achos nifer o'r achosion a archwiliwyd y mis hwn ond yn gyffredinol, roedd yr archwilyr yn canmol safon yr asesu a'r dadansoddi ynghyd â'r penderfyniad clir a wnaed mewn un achos o ran cau'r achos. • Yn y mwyafrif llethol o achosion perthnasol (8 allan o 11), roedd cyfrifoldebau statudol yn cael eu diwallu, megis cynnal trafodaethau strategaeth, cwblhau asesiadau ac ymchwiliadau A47 o fewn yr amserlen. • Mewn 7 allan o 10 o'r achosion perthnasol, cafodd y gwaith a wnaed o ran trosglwyddo achosion a chau achosion ei ddyfarnu'n 'dda'; yn 	<p>sefydlu model gweithredol o fewn y system newydd - WCCIS.</p> <p>5. Canllawiau ymarfer i gael eu datblygu mewn perthynas ag AP ac ymweliadau gwaith cymdeithasol LAC.</p>				

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 139		<p>gyffredinol, roedd tystiolaeth ar ffeil fod cau achosion yn cael ei drafod gyda phlant, rhieni ac asiantaethau partner a bod eu sylwadau'n cael eu mofyn ac roedd rhai crynodebau da ar ffeil o'r rhesymau dros gau achosion.</p> <p>Cynhaliwyd hyfforddiant yn Ch4 ar Gyfweld Cymhellol a Therapi'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau Byr. Mae'n rhy fuan i asesu'r effaith y mae hyn wedi ei gael ar ymarfer.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae disgwyliad clir bod angen i asesiadau gofal a chymorth fod yn gyfredol gyda dadansoddiad mewn perthynas â'r risg o niwed sylweddol. Mae staff Gwaith Cymdeithasol wedi cael arweiniad clir bod angen cynlluniau gofal ar gyfer yr holl blant sydd ar y gofrestr Amddiffyn Plant, Plant sy'n Derbyn Gofal a gadawyr gofal ac y dylid cynnal ymweliadau gwaith cymdeithasol yn unol â'r amserlenni statudol. Bu gostyngiad parhaus yn nifer y plant ar y gofrestr AP lle mae Cynhadledd amlasiantaethol wedi asesu bod y risg o niwed sylweddol wedi gostwng yn ddigonol. Ar ddiwedd Mawrth 2018, roedd 46 o blant ar y gofrestr o gymharu â 48 ar ddiwedd Rhagfyr 2017. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod hwn gyda 144 o blant mewn gofal ym Mawrth 208 o gymharu â 139 yn Rhagfyr 2017. <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid yw dadansoddiad Ch3 o ansawdd ymarfer wedi cael ei gwblhau eto. Cynhaliwyd nifer o werthusiadau o ymarfer yn ystod y cyfnod – ac mae'r hyn a ddysgwyd wedi cael ei rannu gydag arweinwyr ymarfer/rheolwyr. I grynhoi, deuir i'r casgliad bod ymarfer yn anghyson mewn sawl maes: nid yw rhai o'r gofynion sylfaenol yn cael eu diwallu, e.e. cynlluniau diogelu plant, Cynlluniau Gofal a Chymorth. Dengys archwiliadau bod safon y cofnodi wedi gwella; mae hyn er clod i'r staff er gwaethaf yr anawsterau a gawsant o ran cyfarwyddo eu hunain gyda system newydd. Mae rhai enghreifftiau o Arweinwyr Ymarfer yn ceisio gweithio mewn ffordd wahanol – sefydlu dulliau newydd o 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 140		<p>weithio: ond nid yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y Gwasanaeth. Mae ymarfer yn parhau i fod yn anghyson ac mae'r gwasanaeth eto i wireddu nifer o'i amcanion gwella o ran ansawdd ymarfer, asesiad, dadansoddiad, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Penodwyd Rheolwr Dros Dro i geisio gyrru'r gwelliannau i ymarfer drwy hyfforddi/mentora, datblygu prosesau a gweithdrefnau a sefydlu safonau ymarfer. Mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae'r sesiynau hyfforddi a mentora gan Bruce Thornton ar Fodel Risg Gwynedd/Thornton yn parhau ac mae gwerthusiad ar y gweill. Yn ôl tystiolaeth anecdotaid, mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol. • Cafwyd llai o gwynion i'r gwasanaeth yn Ch3 o gymharu â Ch2 – 12 lawr i dri a'r sylwadau positif wedi codi o 24 i 31. <p><u>Medi a Hydref 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd cwrs Cyfathrebu Cydweithredol ar 28^{ain} a'r 29^{ain} o Fedi ac mae'r symud i weithio o dan y Ddeddf GCaLL yn parhau. • Mae'r crynodeb o berfformiad chwarter 2 yn rhoi tystiolaeth o ystod o ffynonellau gwerthuso - adolygiadau rheoli, cwynion, archwiliadau thematig, archwiliadau rheolaidd o ffeiliau achosion. Y prif ganfyddiadau yw bod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson: a bod y gwasanaeth yn dal heb wireddu sawl un o'i amcanion gwella yn nhermau ansawdd ymarfer, asesu, dadansoddi, rheoli risg a chynllunio gofal a chymorth. Ceir arwyddion o beth gwelliant ym maes gwneud penderfyniadau cychwynnol a chofnodi. • Mae ymyriadau sydd wedi'u targedu'n parhau i gael eu gwneud gyda Gweithwyr Cymdeithasol unigol nad ydynt wedi gwella ansawdd eu ymarfer. • Datblygwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Llys i ganolbwyntio ar wella ansawdd a'r dadansoddiadau o'r holl asesiadau a wneir i lywio ein penderfyniadau, a bydd yn cefnogi trefniadau ar gyfer gweithredu dwys yn gynnar ('front loading') o fewn achosion cyfraith gyhoeddus. Mae gan Arweinwyr Ymarfer bellach drosolwg o amserlen y Llys ar gyfer achosion o fewn eu Grwpiau Ymarfer a byddant yn cefnogi ac yn arwain Gweithwyr Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn paratoi'n well ar 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 141		<p>gyfer y Llys a bod dogfennau'n cael eu ffeilio mewn pryd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Gwasanaethau Plant wedi mabwysiadu Model Risg Thornton/Gwynedd er mwyn parhau i gefnogi gweithwyr cymdeithasol i weithio mewn modd rhagweithiol gyda theuluoedd i reoli risg - gan dreulio llawer mwy o amser yn gweithio ochr yn ochr â hwy yn eu helpu i newid fel bod y teulu'n lle diogel i'w plant. Bellach, mae angen ymwreiddio'r model risg o fewn ymarfer a chefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer i ddatblygu ymhellach eu sgiliau o ran plannu'r model i gefnogi penderfyniadau effeithiol o ran risgiau. Mae Bruce Thornton, cyd-awdur y model, yn ymgymryd â rôl Hyfforddwr Ymarfer/Datblygu Mentora am gyfnod o 7 mis i ganolbwyntio ar: <ul style="list-style-type: none"> Ddarparu hyfforddiant a mentora i helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a chymhwyster ymarferwyr ac arweinwyr ymarfer. Cefnogi Rheolwyr Gwasanaeth i weithredu, prosesu, systemau a gweithdrefnau i sicrhau bod y Model Risg yn cael ei weithredu o fewn prosesau gwasanaeth. Cefnogi datblygiad y Model Risg o fewn goruchwyliaeth feiriadol a myfyriol. Er gwaethaf yr anghysondeb o ran ymarfer, mae gennym dystiolaeth gadarnhaol o'r gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd gan arwain at well canlyniadau. Gwelsom ostyngiad sylweddol yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 102 ym Mawrth 2017 i 56 ar y gofrestr ar 31ain Awst, 2017, sef gostyngiad o 55%. Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi parhau i fod yn gyson yn ystod yr 8 mis diwethaf oherwydd ein bod yn ceisio rhoi cymorth i blant barhau i fyw adref pan fo'n ddiogel i wneud hynny. Trafodaethau parhaus ynghylch y gofynion ar gyfer Adroddiadau Monitro Perfformiad o'r System Gofal Cymdeithasol newydd - WCCIS a gyflwynwyd ym mis Awst. Ni fu modd i ni ond adrodd ar 4 o'r 6 dangosydd cerdyn sgorio corfforaethol oherwydd bod angen gwneud rhagor o waith i gael darlun cywir o berfformiad presennol. Bu'r gwaith hwn yn parhau ac mae gan y Gwasanaeth gynllun gweithredu yn ei le i wella'r sefyllfa ac i ddarparu data cywir a chyfredol i'w ystyried. 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 142		<p>Awst 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwiliadau – ffeiliau achosion a thematig – fesul gwasanaeth ac amlasiantaethol – wedi'u cynnal yn ystod y mis. Mae'r llwythi achosion ar gyfer y tîm rheng flaen yn parhau i fod yn uwch nag y byddai'r tîm rheoli gwasanaeth yn ei ddymuno, mae tystiolaeth o archwiliadau'n awgrymu fod ymarfer yn parhau i fod yn anghyson. • Fframwaith Drafft ar gyfer Gwella Ansawdd Ymarfer wedi'i ddatblygu ar gyfer ymgynghori. • Mae'r UDRh yn ystyried canfyddiadau adroddiad ansawd Ch1 – yn argymhell blaenoriaethu gwelliannau o ran arferion asesu. • Wedi herio a chefnogi gweithwyr unigol i wella eu hymarfer • Dogfen Adroddiad Gwerthuso Ymarfer Ch1 2017/18 Gwaith archwilio ffeiliau achos wedi'i gwblhau ar y meysydd ymarfer a ganlyn: archwiliad camu i lawr LAC, adroddiad ar gyfer y panel lleoli, archwiliadau ffeiliau achos misol wedi'u cynllunio gan Reolwyr Timau, archwilio ymatebol (cwynion Cam 2) a phenderfynu cychwynnol, sgrinio, trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth ac asesu syml. Barnau defnyddwyr gwasanaeth a gwerthuso adolygiadau rheoli a gynhaliwyd yn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod ymarfer yn dal i fod yn anghyson, fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arfer dda y mae AGC wedi cadarnhau eu bod wedi cyflawni'r canlyniad a fynnir ar gyfer y plentyn/plant a'u teuluoedd. • Roedd AGC wedi tracio dau achos – 'Darllenwyd ffeiliau achos, cyfwelwyd gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr a theuluoedd. Darparodd yr achosion dystiolaeth o ganlyniadau da i deuluoedd. Defnyddiwyd ystod dda o wasanaethau yn effeithiol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol a gyfwelwyd yn llawn cymhelliad ac yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roeddynt yn cyflawni lefel uchel iawn o ymgysylltu gyda'r teuluoedd. Roedd y teuluoedd yn frwdfrydig ac yn cael cymorth i fynd i'r afael â phatrymau ymddygiad a oedd wedi gwreiddio'n ddwfn o ran camddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cefnogi'n dda ond nid bob amser drwy oruchwyliaeth ffurfiol'. <p>Roedd Achos 2 yn darparu tystiolaeth o:</p>					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 143		<p>'Ddefnydd da o systemau a gwasanaethau. Ystod dda o wasanaethau - LAC, Trais Domestig, FGC mewn cynllunio, asesiad therapiwtig gwasanaeth arbenigol. Mae anghenion plant a theuluoedd wedi'u diwallu. Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn fedrus, yn gallu cynnal ei pherthynas gyda'r fam a'r plant a gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r plant. O'r trafodaethau a'r ffeil, roedd wedi gwneud cyfraniad sylweddol o ran newid disgwyliadau'r fam, ei meddyliau a'i hymddygiad.'</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgwymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu. <p>Dyma'r Themau Allweddol: Mae presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth wedi gwella Defnydd wedi cynyddu o ran offeryn Risk 2 Cyfarfodydd Strategaeth amserol Defnydd cynyddol o Gronolegau yn amlwg Gwell ansawdd yn amlwg o ran asesiadau Mae cysondeb ffurflenni'n dal i fod yn broblem (Adroddiad G.C/Craidd/Risk2/ mae'r Asesiad Gofal a Chymorth a'r offeryn Cymhwyster yn cael eu defnyddio). Nid yw'r cam cysyniadol o hidlo risg i ganfod cryfderau wedi'i wreiddio'n llawn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae canllawiau ymarfer Teulu Môn yn cael eu datblygu gan y Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar. • Comisiynwyd Bruce Thornton i lunio Arweiniad ar Gadw Cofnodion a Gwneud Penderfyniadau. • Mae ansawdd yr ymarfer yn parhau i fod yn anghyson. • Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol wedi'u cwblhau a fydd yn cael eu cadarnhau yn y Grŵp Diogelu Cyflawni Lleol ym mis Hydref, meysydd a gynhwysir yw: Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru. Rhan 4 AWCPP2008 Gwneud Atgyfeiriadau 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 144		<ul style="list-style-type: none"> Lluniwyd dogfen ddrafft sy'n nodi'r dull gweithio ar gyfer y gwasanaeth (cyfathrebu ar y cyd, cyd-gynhyrchu ac asesu risg). Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae'r gwasanaeth wedi ystyried yr angen i wella ymarfer o ran ffurfio asesiadau o ansawdd da ynghyd ag ymateb i'r gofynion o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i weithio ar y cyd gyda phlant a theuluoedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth o ran sut y byddwn yn asesu risg, yn cyd-gynhyrchu ac yn cynnal cyfathrebu ar y cyd gyda phlant a theuluoedd ym Môn. <p><u>Mehafin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Archwiliadau wedi dechrau ar gyfer Chwarter 1: Archwilio ffeiliau achosion, archwiliadau amlasiantaethol, archwiliadau thematig, dadansoddiad ar gael ddiwedd Gorffennaf. Wedi herio a rhoi cymorth i weithwyr unigol wella eu hymarfer. Mae ansawdd ymarfer yn parhau i fod yn anghyson. Sesiwn ar gyfer staff wedi'i gynnal ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol i drafod safonau ymarfer, ynghyd â gofyn i staff am syniadau o ran beth fyddai'n eu helpu i wella eu dulliau gweithio. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Yr Uned Hyfforddi wedi trefnu hyfforddiant i'r holl staff gofal cymdeithasol ar: <ul style="list-style-type: none"> Asesu Gofalwyr yn y tymor hir Gweithredu'r Fframwaith Cynefino ar gyfer Gofalwyr Maeth Newid Diwylliant a Mesur Perfformiad yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cyfathrebu Cydweithredol / sgysiaid sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau Templedi rhanbarthol – gan gynnwys Asesu, Beth sy'n Bwysig, 5 maes asesu, cynluniau Gofal a Chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer Rheolwyr Darparu Adborth Adeiladol a Rheoli Sgysiaid Anodd Gwneud y Gorau o Oruchwyliaeth – ar gyfer staff Hyfforddiant Teuluoedd Gwydn GICD (gan gynnwys Therapi Byr sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiadau a Chyfweld Ysgogiadol Cyfathrebu Cydweithredol – dilyn i fyny 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
		Diogelu Cyffredinol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Model Risg Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chyfweliadau ar gyfer Dychwelyd Adref Cyfweld Ysgogiadol					
2.2	<p>Argymhelliad 3 AGC: Bydd uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau o ran:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. ansawdd, 2. cysondeb, ac 3. amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. <p>Datblygu Canllaw Ymarfer rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant mewn perthynas ag atgyfeiriadau diogelu plant, trafodaethau / cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau.</p>	<p>Medi – Hydref 2018 Gwaith yn parhau gyda'r Heddlu.</p> <p>Ebrill – Awst 2018 Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas â'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn y chwarter diwethaf. Mae gwaith wedi'i gwblhau mewn perthynas â rhai o'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn y chwarter diwethaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cydymffurfiaeth dda â'r angen i gael Cynllun AP ar gyfer pob plentyn sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. (94% ym Mehefin 18) • Cynnydd cadarnhaol gan yr Uned Ddiogelu ar Arweinwyr Ymarfer i ddatblygu cynllun AP sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau: lle mae'r Model Risg, taflenni graddio a nodau a dull cydweithredol yn ganolog a dull cydweithredol yn ganolog. Cytunir ar gynllun gweithredu yn Ch2. • Prosesau Cynhadledd Achos Newydd – Bruce Thornton wedi darparu mentora er mwyn sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth a bod y Model Risg wedi cael ei integreiddio. Arweinwyr Ymarfer a Swyddog Diogelu Annibynnol ar y cyd. Cytunir ar gynllun gweithredu yn Ch2. • Proses s47. Gwelwyd cynnydd: datblygwyd templed cofnodi newydd: Bruce Thornton wedi darparu mentora er mwyn sicrhau fod y Model Risg yn cael ei wreiddio. Hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer Medi 2018. Awgrymu fod hyn yn orfodol ar gyfer staff dynodedig. Datblygir Gweithdrefn Ymarfer yn Ch3 i adlewyrchu'r dull a amlinellwyd yn yr hyfforddiant. <p>Trosolwg Ch1 o adroddiadau'r Swyddog Diogelu a'r Swyddog Adolygu:-</p>	<p>Ebrill - Awst 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canolbwyntio ar baratoi ar gyfer Cynadleddau Achos • Cwblhau'r Adolygiad o Broses Cynhadledd Achos – canolbwyntio ar adolygu trefniadau ymarferol, adrodd, cynlluniau amddiffyn plant a rôl y grŵp craidd. • Gwella sgiliau a gwybodaeth mewn perthynas â chynnal Ymchwiliadau s47 • Trothwyon ar gyfer cynhadledd – Mewn rhai achosion mae angen gwell tystiolaeth fod yr ymchwiliad /Asesiad Gofal a Chefnogaeth s47 wedi'i gwblhau a'r Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi eu cwrdd er mwyn cefnogi'r penderfyniad i fynd i gynhadledd. • Ansawdd adroddiadau cynhadledd - Datblygu ansawdd adroddiadau cynhadledd yn gyson er mwyn osgoi'r prif wendidau: dyblygu'r adroddiad gwreiddiol gyda chronoleg o'r atgyfeiriad gwreiddiol, gwybodaeth gyfyngedig heb gronoleg: gwybodaeth sylfaenol ar goll. • Ansawdd cynlluniau AP – Datblygu'r ansawdd yn gyson er mwyn osgoi'r prif wendidau – canolbwyntio'n ormodol ar gwrdd â disgwyliadau yn hytrach na 	<p>Heb eu gwneud hyd yma Mae'r Fframwaith Gwella Ansawdd mewn lle – ni ellir adrodd ar gwelliant yn ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant gan arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc.</p> <p>Staff yn dweud eu bod yn cael arweiniad cliriach a bod ganddynt well dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau oherwydd gweithrediad y Canllawiau Ymarfer.</p>	Rheolwyr Gwasanaeth	Ionawr 2017	Parhau

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 146		<ul style="list-style-type: none"> Trothwy ar gyfer cynadleddau – gwnaethpwyd cynnydd da i symud rhai achosion yn eu blaenau gan fod gweithwyr cymdeithasol newydd ar yr achosion wedi eu symud ymlaen i'r llys mewn modd amserol. Ar y cyfan mae hyn yn parhau i fod yn anghyson ac mewn rhai achosion mae angen gwell tystiolaeth fod yr ymchwiliad/Asesiad Gofal a Chefnogaeth s47 wedi eu cwblhau a bod gofynion y Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi eu cwrdd er mwyn cefnogi'r penderfyniad i fynd i gynhadledd. Ansawdd adroddiadau cynhadledd – Gwelwyd tystiolaeth o rai adroddiadau da sy'n glir ac yn gryno gydag anghenion pob plentyn yn cael sylw ar wahân. Roedd tystiolaeth o gynlluniau diogelwch mewn rhai achosion a chafodd y cynlluniau hyn eu gweithredu cyn y gynhadledd. Ar y cyfan, mae hyn yn parhau i fod yn anghyson gan fod angen, mewn rhai achosion, datblygu ansawdd yr adroddiadau a gyflwynir i gynadleddau er mwyn osgoi'r prif wendidau: dyblygu'r adroddiad gwreiddiol gyda chronoleg o'r atgyfeiriad cychwynnol, gwybodaeth gyfyngedig heb unrhyw gronoleg: gwybodaeth sylfaenol ar goll. Ansawdd cynlluniau AP – Roedd tystiolaeth o gynlluniau o ansawdd da, yn benodol i anghenion pob plentyn ac yn eglur ynglŷn ar hyn sydd rhaid ei wneud er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel. Roedd enghraifft dda o gynllun CP oedd yn canolbwyntio ar anghenion baban newydd anedig yn datgan... "A i ddatblygu synnwyr o ymddiriedaeth sy'n sylfaen i ymlyniad sicr... Darparu gofal cynnes, cariadus, dibynadwy a disgwyliadwy. Y gofawyr sylfaenol i fod mewn cytgor ag anghenion gofal sylfaenol A ac ymateb yn sensitif iddynt". Mae hyn yn canolbwyntio ar anghenion y babi. Fodd bynnag, ar y cyfan mae hyn yn parhau i fod yn anghyson a'r gwelliannau angenrheidiol yw – osgoi rhoi gormod o ffocws ar gwrdd â disgwyliadau yn hytrach na chyflawni newid: ddim yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r plentyn ac yn ymddangos fel cynllun o'r hyn y mae'n rhaid i'r rhieni ei wneud ond nid ydynt 	<p>chyflawni newid: ddim yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r plentyn ac yn ymddangos fel cynllun o'r hyn y dylai'r rhieni wneud ond nid ydynt wedi eu cysylltu ag anghenion y plentyn. Nid yw llais y plentyn yn amlwg yn y cynlluniau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu – Sicrhau fod teuluoedd yn cael gweld yr adroddiad cynhadledd 24 awr cyn y gynhadledd, gan ganiatáu iddynt brosesu'r wybodaeth a gofyn cwestiynau i'r gweithiwr cymdeithasol am unrhyw faterion nad ydynt yn eu deall. Datblygu gwelliant diweddar mewn ymarfer, er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn derbyn gwahoddiad i gynhadledd a fod barn y plentyn yn cael ei glywed. Lansio'r Canllawiau Ymarfer <p>Dengys archwiliadau bod angen i ni wella ein trefniadau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cofnodion Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth - Sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn rhan o'r Cyfarfodydd/Trafodaethau Strategaeth - Sicrhau gwell trosolwg o ymchwiliadau a47 - Sicrhau gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae ymchwiliadau a47 yn ei olygu - Darparu hyfforddiant a thempled adrodd diwygeidig sy'n ymgorffori Model Risg Gwynedd/Thornton. 				

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 147		<p>wedi'u cysylltu ag anghenion y plant. Nid yw llais y plentyn yn amlwg yn y cynlluniau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu – Rhaid i'r gwasanaeth wella gwaith paratoi ymlaen llaw a sicrhau fod teuluoedd yn cael gweld yr adroddiad cynhadledd 24 awr cyn y gynhadledd, gan roi amser iddynt brosesu'r wybodaeth a gofyn cwestiynau i'r gweithiwr cymdeithasol am unrhyw faterion sy'n aneglur iddynt. Mae angen datblygu ar y gwelliant diweddar mewn ymarfer, er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn derbyn gwahoddiad i gynhadledd a bod bam y plentyn yn cael ei glywed. <p><u>Chwefror - Mawrth 2018</u> Gweler 2.1</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni chafodd y canllawiau Amlasiantaethol eu cymeradwyo gan LDG Gwynedd a Môn ac o'r herwydd cânt eu defnyddio fel dogfen ar gyfer CSYM yn unig. Maent wedi cael eu cyfieithu a byddant yn cael eu lansio yn ystod ch1 2018/19. Mae'r canllawiau o ran y trothwyon ar gyfer ymchwiliadau wedi cael eu hanfon at Grŵp Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Hyd yma, nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol. Rydym wedi gweithio gydag is-grŵp o BDPGC i ddatblygu ymagwedd ranbarthol tuag at hyfforddiant JIT. Bydd Is-grŵp Polisi a Protocol Gogledd Cymru yn trafod y protocol ar y cyd rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant ar ddiwedd Ebrill er mwyn penderfynu a fydd yn cael ei gymeradwyo ar draws y rhanbarth. Bydd trefniadau hyfforddiant yn awr yn cael eu trefnu ar sail amlasiantaethol. Mae'r ddau Reolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar a Dwys wedi sefydlu perthynas waith gadarnhaol gyda'r Heddlu sy'n caniatáu ar gyfer trafodaethau agored a gonest er mwyn datrys unrhyw faterion gweithredol <p><u>Tachwedd – Ionawr 2018</u></p>					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 148		<ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn dadansoddi atgyfeiriadau CID 16, mae gwaith yn parhau rhwng yr Heddlu a'r Gwasanaethau Plant. • Trafodaeth ynghylch arbrofi gyda threfniadau ar gyfer nifer o fesurau i wella llif ac ansawdd y wybodaeth a rennir rhwng y naill asiantaeth a'r llall. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae archwiliadau rheolaidd yn dangos bod tystiolaeth anghyson yn nhermau'r gwelliant o ran ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau amddiffyn plant. Daeth archwiliad o'r 'pellter a deithiwyd' i'r casgliad y cafwyd gwelliant o ran presenoldeb a chofnodi mewn Cyfarfodydd Strategaeth a bod y cyfarfodydd strategaeth yn amserol. Fodd bynnag, daeth Archwiliad o Ffeil Achosion (Gorffennaf) ac adolygiad rheoli i'r casgliad, mewn sawl achos, bod archwilwyr wedi mynegi pryder am drafodaethau neu gyfarfodydd strategaeth o ran: <ul style="list-style-type: none"> • Nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal mewn modd amserol – e.e. ni chynhaliwyd un tan 3 wythnos ar ôl gwneud penderfyniad i'w gynnal. • Mae cofnodion o'r trafodaethau'n annigonol – h.y. yn rhy gryo. • Ceir cyfeiriadau at yr angen am gyfarfodydd strategaeth dilynol ond heb dystiolaeth o'u cynnal. • Adlewyrchir hyn yn Archwiliad Thematig Rhan 4, ynghyd ag adolygiad o blant sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant – mae prosesau penderfynu, oediadau a diffyg cynlluniau clir a'u dilyn trwodd yn faterion a nodwyd. • Cynhaliwyd trafodaethau lefel uchel rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaethau Plant ynghylch peilota hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Amlasiantaethol. Bydd hyn yn cael ei yrru yn ei flaen ymhellach ym mis Tachwedd. • Mae'r Heddlu yn gwneud cynnydd gyda'u dadansoddiad o CID 16's, ac yn awgrymu mai'r cam nesaf fydd i'r ddau ddim gyfarfod i gymharu eu casgliadau. • Mae canllawiau ymarfer amlasiantaethol drafft wedi'u cwblhau gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 149		<ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd • Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru • Rhan 4 AWCPP2008 • Gwneud Atgyfeiriadau <p>• Bydd y canllawiau amlasiantaethol yn cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, ac yn cael eu defnyddio gan yr adrannau Tai ac Addysg a gan asiantaethau sy'n bartneriaid mewn perthynas â'r broses ddiogelu. Yn ogystal, trafodir y canllawiau yn yr Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau Rhanbarthol er mwyn eu defnyddio ar lefel ranbarthol. Datblygir cynllun hyfforddiant i sicrhau bod trefniadau yn eu lle i staff ddefnyddio'r Canllawiau Ymarfer</p> <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi cyfarfod â'r hyb IAA cyfatebol yng Nghynghorau Sir Conwy a Sir y Fflint er mwyn archwilio opsiynau a rhannu eu profiadau. Mae'r ymweliad â Chonwy a Sir y Fflint wedi ein cynorthwyo i ffurfio cenhadaeth gliriach ar gyfer ein IAA ein hunain. • Wedi datblygu cwmpas y gwaith gyda'r heddlu ar yr archwiliad ar y cyd a gwelliant o ran atgyfeiriadau, cyfarfodydd Strategaeth ac archwiliadau Adran 47. • Cynhaliwyd archwiliad ar bob un o'r 81 atgyfeiriad a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Plant oddi wrth Uned Diogelu'r Cyhoedd yn ffurf CID 16's rhwng y 1^{af} a'r 14^{eg} o Fehefin 2017. Ystyriwyd nad oedd 20 o'r atgyfeiriadau'n glir o ran y rheswm dros rannu'r wybodaeth. O'r 81, dim ond saith oedd yn nodi beth fyddai'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer yr atgyfeiriad. Dim ond 15 atgyfeiriad oedd yn cynnwys llais y plentyn. Rhaid i Uned Diogelu'r Cyhoedd sicrhau eu bod yn fwy penodol o ran pam maent yn atgyfeirio'r wybodaeth ac ni ddylent atgyfeirio dim ond oherwydd bod plant yn gysylltiedig â'r oedolion dan sylw. • CSE a Chyfweliadau Dychwelyd Adref ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae gwaith yn cael ei wneud i wella perfformiad yn y meysydd hyn gyda phartneriaid – yr Heddlu a 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. • Ymgwymerwyd ag archwiliad pellach ym Mai/Mehefin 2017 o ran atgyfeiriadau a oedd yn mynd ymlaen i Strategaeth a Chynhadledd: Ansawdd 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 150		<p>Trafodaethau/Cyfarfodydd, Ansawdd Asesu. Gweler 2.1</p> <p><u>Mehafin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae protocolau wedi'u drafftio ar hyn o bryd ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> Trothwyon Ymchwilio Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Gweithwyr Allweddol a Grwpiau Craidd Canllawiau Ymarfer Amddiffyn Plant Amlasiantaethol – Trothwyon Cofrestru <p>Set o brotocolau'n debygol o fod yn barod ar gyfer mis Hydref.</p> <ul style="list-style-type: none"> Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 mewn perthynas â phob CID16 a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor a deall y data ac archwilio rhannu gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfarfod ar 26^{ain} Mehafin. Trefnir cyfarfodydd misol rhwng y Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru i fynd i'r afael â materion gweithredol ac i ddatblygu Canllawiau Ymarfer mewn perthynas ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, trafodaethau /cyfarfodydd strategaeth ac ymholiadau. PG yn cael gwybod am unrhyw anawsterau gweithredol mewn perthynas â chydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn cael sylw brys ac nad yw plant yn cael eu gadael mewn sefyllfaoedd sy'n golygu eu bod yn agored i niwed. Cynnal archwiliad i fonitro ansawdd, cysondeb a phrydlondeb ymholiadau amddiffyn plant. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Cynhaliwyd trafodaeth gadarnhaol gyda'r Heddlu ynghylch cydweithredu. 					
2.3	<p>Argymhelliad 9 AGC: Dylid sefydlu trefniadau amlasiantaethol i gryfhau cynlluniau gweithredol i gefnogi cydlynid effeithiol er mwyn sicrhau bod partneriaid statudol yn cwblhau 'Fframweithiau Asesu ar y Cyd'.</p> <p>Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg</p>	<p><u>Chwefror-Mawrth 2018</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cyfarfodydd amlasiantaethol yn parhau i gael eu cynnal rhwng y Gwasanaethau Plant, Heddlu, Addysg, Iechyd a CAMHS i gytuno ar faterion gweithredol. Trafodwyd Cynllun Gweithredu i wella trefniadau Cynadleddau Achos Plant ym mis Mawrth a chytunwyd ar y modd y byddir yn symud ymlaen â hyn. <p><u>Tachwedd – Ionawr 2018</u></p>		<p>Wedi cychwyn Gwell trefniadau diogelu amlasiantaethol sy'n arwain at well canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc</p> <p>Wedi eu cwblhau Canllaw Ymarfer amlasiantaethol sydd yn rhoi diffiniad clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau lleol a threfniadau diogelu.</p>	Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar	Ionawr 2017	Parhaus o ran trefniadau amlasiantaethol

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 151	<p>er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol – cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi derbyn caniatâd gan Lywodraeth Cymru i gyfuno'r Fframwaith Asesu ar y Cyd (JAF) gyfredol efo'r ffurflen asesu gofal a chefnogaeth. Mae gwaith wedi cychwyn ar gynnwys y mesuriadau sy'n cael eu casglu yn y Fframwaith Asesu ar y Cyd. Bydd angen defnyddio'r Asesiad a'r Cynllun Gofal a Chymorth yn lle'r JAF. Mae cyfarfodydd gweithredol Aml-asiantaethol yn cael eu cynnal yn fisol gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, CAMHS, Pediatregydd ac Addysg i drafod trefniadau cydweithio i wella a chryfhau trefniadau cyfredol, e.e ansawdd y cyfeiriadau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. <p><u>Medi a Hydref 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gwnaed cynned o ran gwella ansawdd a'n dealltwriaeth o'r asesiadau gofal a chymorth (Rhan 1,2,3). Mae hyn yn cynnwys y set ddata graidd, y sgwrs 'beth sy'n bwysig' a'r asesiad gofal a chymorth. Buom yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwyster cenedlaethol ac i gael cysondeb o ran cofnodi'r meini prawf cymhwyster yn ein hasesiadau. Rydym wedi canfod dulliau cyfathrebu addas, awgrymiadau ac offerynnau i wella ansawdd y sgwrsiau 'beth sy'n bwysig', y broses benderfynu a chofnodi. <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Canllawiau ymarfer wedi'u cwblhau, gweler 2.2 Cyfarfodydd wedi eu cynnal efo CAF/CASS a CAMHS <p><u>Mehafin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Gwnaed trefniadau i gynnal grŵp tasg a gorffen amlasiantaethol o dan y grŵp cyflawni diogelu lleol i ddatblygu y canllawiau ymarfer. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Y Grŵp Cyflawni Diogelu Lleol wedi cytuno ar 16.2.17 y dylid cynnal cyfarfod amlasiantaethol rhwng Gwynedd ac Ynys Môn i drafod trefniadau gwaith ac anawsterau presennol a'u dwyn i sylw'r BRhDP. Canllawiau Ymarfer i gael eu datblygu rhwng y Gwasanaethau Plant, Iechyd, yr Heddlu ac Addysg er mwyn sicrhau eglurder o ran trefniadau gweithredol - cytuno ar drothwy atgyfeirio, gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, mynychu cyfarfodydd strategaeth, 					

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
	cyfarfodydd grŵp craidd a rhannu gwybodaeth, gweler. 3.3 (4)					

3. Fframwaith sicrhau ansawdd a pherfformiad sy'n cefnogi'r awdurdod lleol i reoli ei gyfrifoldebau tuag at blant yn effeithiol

CAMAU I'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/I'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
<p>3.1</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 152</p> <p>Adolygu'r holl blant sydd mewn gofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir.</p> <p>Dealltwriaeth ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol o broffil plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar y CAP.</p> <p>Adolygu bob achos lle mae enwau plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am 12 mis + er mwyn penderfynu os y dylid eu trafod mewn Panel Porthgadw Cyfreithiol (achosion gofal).</p>	<p>Medi – Hydref 2018 Mae archwiliad annibynnol wedi'i gwblhau sy'n dangos bod angen blaenoriaethu gwelliant i'r cynlluniau gofal a chefnogaeth ar gyfer LAC.</p> <p>Gwaith yn parhau.</p> <p>Ebrill – Awst 2018 Cwblhawyd gwaith yn erbyn rhai o'r gwelliannau angenrheidiol a nodwyd yn y chwarter diwethaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pontio i Gynlluniau Gofal a Chefnogaeth Rhan 6 angen mwy o gefnogaeth a'u datblygu ymhellach. O'r 43 sy'n gymwys Erbyn hyn mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gweithio i sicrhau eu bod yn cadw tystiolaeth o'u hól troed ar ffeil y plentyn: a lle bo'n bosib cwrdd â'r plentyn rhwng neu cyn adolygiadau. Mae Protocol Swyddogion Adolygu Annibynnol a gwasanaeth yn barod i'w cymeradwyo a chynhaliwyd trafodaethau buan gyda'r tîm WCCIS ynglŷn ag ymgorffori'r llif gwaith her. Lleoliad Camau Unioni gyda Rhieni – wedi ei gynllunio ar gyfer 17/9/2018 a Fforymau Ymarferwyr wedi eu cynllunio ar gyfer 16 a 17/09/2018 i weithio gyda deilyddion achos er mwyn darparu cefnogaeth i gwblhau'r camau unioni sydd eu hangen ar achosion presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion. <p>Roedd y canfyddiadau mewn perthynas ag ansawdd ymarfer yn dangos fod</p>	<p>Mae angen i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar</p> <ul style="list-style-type: none"> Canolbwyntio ar wella cynllunio gofal a chefnogaeth rhan 6 Rhaid rhoi Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth (Rhan 6) a Chynlluniau Llwybr yn eu lle drwy broses o ymgysylltu a chydyngyrru gyda'r plentyn ac unigolion arwyddocaol Paratoi ar gyfer adolygiadau a chynadleddau a darparu gwybodaeth sy'n caniatáu craffu ar gynllun y plentyn a'i symud ymlaen. Symud cynllun gofal a chefnogaeth y plentyn yn ei flaen tu allan i'r "cyfarfod" adolygu. Canolbwyntio ar baratoi ar gyfer Adolygiadau Statudol Erbyn mis Medi mae'r Swyddog Diogelu a'r Swyddog Adolygu yn anelu i ddatblygu dulliau newydd o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc: yn cynnwys defnyddio Facetime a SKYPE: pecyn gwybodaeth newydd amdanant a'u swyddogaeth a'r 	<p>Heb ei wneud eto Archwiliad o ffeiliau achos yn dangos bod cynlluniau gofal gan Weithwyr Cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n sylweddol drwy weithredu'r Canllawiau Ymarfer.</p> <p>Wedi cychwyn Gwaith dwys gyda phlant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sydd angen trefniadau 'camu i lawr' llwyddiannus yn arwain at well canlyniadau.</p> <p>Y Cyngor yn cael sicrwydd bod lleoliadau yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Plant yn cael eu hadsefydlu'n ddiogel yn eu cartrefi trwy leoliadau gyda'u rhieni/cyflawni Gorchmynion Gofal.</p> <p>Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i argymhellion Adolygiadau LAC a bod y broses o gwblhau asesiadau a gwaith sydd ar ôl i'w wneud yn digwydd yn gyflym ac yn cael ei chynnal.</p> <p>Lleihad yn nifer y plant mewn lleoliadau preswyl erbyn diwedd mis Mawrth 2018 o ganlyniad i waith dwys a wnaed i'w symud i drefniadau 'camu i lawr'.</p> <p>Costau a gwariant ar leoliadau costus wedi lleihau'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau 'camu i lawr' ar gyfer plant a phobl ifanc'.</p> <p>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod cynllunio gofal gan Weithiwr Cymdeithasol ar</p>		Ionawr 2017	Mawrth 2018

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

Tudalen 168		<ul style="list-style-type: none"> Gweithredwyd strwythur newydd y gwasanaeth ar 4^{ydd} Hydref pryd y cymerodd yr 8 Arweinydd Ymarfer gyfrifoldeb dros eu Grwpiau Ymarfer. Ymgwymerir â gwaith pellach i gwblhau'r ailstrwythuro, gan gynnwys adolygu'r trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i roi cymorth i deuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod cymorth gweinyddol yn briodol er mwyn i Grwpiau Ymarfer gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. <p>Awst 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Dau Uwch Reolwr wedi cychwyn (Ymyrraeth Gynnar ac Ymyrraeth Ddwys) <p>Mehefin/Gorffennaf 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Strwythur gwasanaeth newydd wedi'i weithredu. Yn parhau i benodi i'r swyddi i sefydlu timoedd llai efo Arweinwyr Ymarfer Yn parhau i adolygu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal o gwmpas y rhaglen 'Teuluoedd yn Gyntaf' <p>Mai 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Daw'r cyfnod ymgynghori gyda staff i ben ar 24.2.17. PG Dros Dro wedi darparu dadansoddiad o'r sylwadau a'r adborth yn yr adroddiad gydag argymhellion. Penderfyniad terfynol ac amserlenni i'w cytuno a'u rhannu yn y Gynhadledd staff ar 27.3.17. 		<p>Staff yn adrodd eu bod yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n ddigonol gan eu rheolwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.</p> <p>Archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos gwelliant amlwg yn ansawdd yr ymarfer o ganlyniad i'r llwybrau a systemau clir o fewn y Gwasanaeth a thrwy oruchwyliaeth reolaidd.</p>			
4.3	Gweithredu model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ar gyfer Ynys Môn	<p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Swyddog Ymgysylltu amser llawn wedi cychwyn yn Teulu Môn ym mis Ionawr ac mae hynny wedi cryfhau'r capasiti i 3.5 gweithiwr FTE yn y tîm hwnnw. Ymwelwyd â Theulu Môn ar 29.01.18 gan Jackie Drysdale, Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn arsylwi'r tîm ac ystyried yr angen am Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Cymru gyfan. Gwnaeth yr hyn a welodd argraff ar Jackie a dywedodd bod y tîm yn ymrwymedig, yn dangos gwytnwch yn wyneb rhai o'r rhwystredigaethau. Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu'r tîm hwnnw o ran sgiliau a chymorth TG. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Ers dechrau mis Hydref, mae'r gwasanaeth IAA o'r enw Teulu Môn, yn cael ei reoli gan 3 Arweinydd 		<p>Heb eu gwneud hyd yma</p> <p>Defnyddwyr gwasanaeth yn dweud ei bod yn hawdd cael mynediad at wasanaethau a bod gofal cwsmer yn dda.</p> <p>Gwell cydlyniant o ran gwasanaethau a strategaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.</p> <p>Llai o ddyblygu ymdrech fel sy'n digwydd ar hyn o bryd oherwydd bod nifer o 'ddrysau ffrynt' ar gael.</p>	Rheolwr Gwasanaeth	Rhagfyr 2016	Ebrill 2017

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 169		<p>Ymarfer a Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bellach mae swyddogion ymgysylltu Teulu Môn yn gallu bod yn fwy effeithiol fel pwynt cyswllt cyntaf – gyda'r cyfle i gael sgwrs fwy strwythuredig i gynorthwyo teuluoedd i gael mynediad i ddatrysiadau o fewn eu cylch eu hunain o adnoddau/adnoddau cymunedol. • Bydd cyllid gan Teuluoedd yn Gyntaf yn cryfhau ein gwasanaethau IAA gyda recriwtio ar gyfer 1.5 swydd Swyddog Ymgysylltu arall. • Wedi parhau i gefnogi ein staff i sicrhau eu bod yn mynd ati'n gyson i gael sgwrsiau o ansawdd da gan fod gan rai swyddogion fwy o hyder a sgiliau o ran yr ymagwedd hon. • Gwnaed trefniadau ar gyfer cael gweithdai mewnol i staff ymarfer y sgwrsiau 'Beth sy'n Bwysig' gyda Jackie Drysdale, y Rheolwr Datblygu Gwelliant ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru. <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Swyddogion Ymgysylltu wedi dechrau yn eu swyddi. • Mae Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn ei swydd. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheolwr Ymgysylltu Dros Dro wedi'i benodi. • Hysbysebion allan ar gyfer y Swyddogion Ymgysylltu, dyddiad cau 12/07/17 • Deunyddiau hyrwyddo wedi'u cadarnhau. • Nifer o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth wedi'u trefnu ar gyfer yr Eisteddfod, Sioe Môn ac ati ynghyd â nifer o ddiwrnodau hwyl/carnifals ac ati yn y gymuned. • Archwiliadau Amlasiantaethol (Iechyd, Addysg a'r Heddlu) mewn perthynas ag ansawdd yr atgyfeiriadau a dderbynnir yn Teulu Môn • Gwaith parhaus gydag asiantaethau sy'n bartneriaid o ran rhannu gwybodaeth a chydweithio gyda Teulu Môn • Dadansoddiad pythefnos wedi dechrau ar 10/07/17 o ran yr holl CID16's a dderbynnir yn Teulu Môn er mwyn sicrhau gwneud atgyfeiriadau priodol i'r Cyngor ac archwilio rhannu gwybodaeth. • Bydd gwaith yn dechrau i sefydlu Protocol Rhannu Gwybodaeth. 					

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018
Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 170		<p>Mai 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio, cymeradwyo a chyfieithu'r holl bolisiâu, protocolau, trothwyon a'r templedi cysylltiedig sy'n ofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau. • Cytuno ar fesurau llwyddiant • Sgopio anghenion TGCh • Cytuno ar y gofynion hyfforddi. • Enw'r tîm 'Teulu Môn', y Cyfryngau Cymdeithasol, cytunwyd ar rif ffôn. • Hyfforddi staff wedi cychwyn • Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar fin symud i'r Pencadlys ddiwedd mis Ionawr • Logo ar gyfer y gwasanaeth newydd wrthi'n cael ei ddylunio. • Y bwrdd prosiect yn cyfarfod yn fisol • Grŵp tasg a gorffen Marchnata yn cyfarfod ac yn datblygu allbynnau marchnata ar gyfer y gwasanaeth. • Tîm newydd yn cychwyn ar gyfnod o 'adeiladu tîm' • Staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar y newidiadau o fewn y Gwasanaeth a thrwy Sesiynau Gwybodaeth. • Ymgynghori ar y strwythur diwygiedig wedi'i gwblhau. • Un pwynt mynediad ar gyfer pob ymholiad o ran plant a theuluoedd wedi'i sefydlu ac yn weithredol erbyn 03.04.17 					
4.4	<p>Datblygu Strategaeth Atal Gorrfforaethol; rhaid i'r ALI ddarparu ystod a lefel o wasanaethau ataliol ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.</p> <p>Darparu gwasanaeth integredig a rhoi help a chymorth cynnar sydd, i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.</p> <p>Bydd yr arosiad poblogaeth yn cynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi'r gwasanaethau ataliol sydd eu hangen. Cryfhau'r swyddogaeth gomisiynu o fewn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion i'n cefnogi i gyflawni'r agenda hon.</p> <p>Argymhelliad 1 AGC.</p>	<p>Medi – Hydref 2018</p> <p>Ystyriodd yr Uwch Dîm Rheoli bapur ar y Strategaeth Ataliol ar 22 Hydref 2018. Bydd yr UDA yn ystyried y ffordd ymlaen o ran y Cyllid Hyblyg yn ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2018. Mae'r Grŵp traws Wasanaeth o Swyddogion wedi'i ail sefydlu ac mae'n cyfarfod bob mis. Mae'r UDA yn bwriadu trafod y ffordd ymlaen gydag Aelodau Etholedd dros y misoedd nesaf gyda'r bwriad o sefydlu strythurau Llywodraethiant newydd erbyn Ebrill 2019.</p> <p>Mae George Salvanara yn gweithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau a gomisiynwyd yn bennal o'r gyllideb Cefnogi Pobl. Gallai cyfleoedd i gael mynediad i'r cyllid hwn fod ar gael mewn perthynas ag Ôl-ofal a gwasanaethau Ôl – 16 yn enwedig.</p> <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Prif Weithredwr Cynorthwyol yn gyfrifol am yrru'r gwaith yn ei flaen o ran y Strategaeth Ddiogelu gorrfforaethol 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltiad ac ymgynghoriad ystyrlon gyda theuluoedd, plant, pobl ifanc a defnyddwyr gwasanaeth. • Byddwn yn ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt. 	<p>Heb eu gwneud hyd yma</p> <p>Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen arnynt.</p> <p>Ailgomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LiC drwy ddefnyddio data lleol, safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth ac Anghenion y Boblogaeth / Cynlluniau Ardal Lleol yn arwain at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd (gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal).</p> <p>Lleihad yn nifer y plant sy'n dod i ofal a chynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu cefnogi i fyw adref efo'u teuluoedd.</p> <p>Wedi cychwyn</p> <p>Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar Ynys Môn.</p>	<p>Dr Caroline Turner, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant</p> <p>Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion</p> <p>Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid</p>	Ionawr 2017	Hydref 2017

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 171	<p>Datblygu fframwaith ar gyfer gwneud gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig ac yn rhoi help a chymorth cynnar gyda hynny i bob pwrpas, yn fodd effeithiol o ohirio'r angen am ofal a chymorth.</p> <p>Argymhelliad 12 AGC: Dylai'r awdurdod lleol a phartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hyn i lywio'r broses o lunio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau aliniad effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a'r gwasanaethau statudol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Tim Teuluoedd Gwydn yn gweithio gydag 8 o deuluoedd Yn dilyn yr Aseiad o Anghenion y Boblogaeth, bydd y Cynlluniau Rhanbarthol ar gael o Ebrill 2018 gan nodi'r amrediad o wasanaethau y bydd angen eu darparu <p><u>Medi a Hydref 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae grŵp Strategaeth Atal Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a arweinir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod yn rheolaidd. Cyflwynodd y grŵp bapur i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn amlinellu'r hyn a fydd yn sicrhau cyflawni strategaeth atal yn llwyddiannus ac mae gwaith yn parhau i yrru hyn yn ei flaen. Mae'r Awdurdod Lleol wedi blaenoriaethu datblygiad gwasanaethau atal corfforaethol a chymorth i deuluoedd fel rhan o'i Gynllun ar gyfer 2017 – 2022 o ran <i>‘Darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal cynnar i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cymorth fel eu bod yn cael cyn lleied â phosib o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod.’</i> Sefydlwyd gweledigaeth glir o ran gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ac mae strategaeth ddrafft wedi'i datblygu a'i rhannu gyda AGC. <p>Ymgynghorwyd â staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid ac rydym wedi trefnu i gael sesiynau ymgynghori pellach gyda grwpiau cymunedol a gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc a fydd yn gallu rhoi barn o ran yr hyn sydd wedi gweithio ac nad yw wedi gweithio yn y gorffennol, ynghyd â pha wasanaethau ataliol y dylid eu datblygu yn y dyfodol.</p> <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Strategaeth Darpariaeth Gwasanaeth yn ei lle. Mae LIC wedi cytuno i ariannu 3 o staff cymorth i deuluoedd ychwanegol o fewn TAF ynghyd ag 1.5 o Swyddogion Ymgysylltu ar gyfer Teulu Môn. Bydd hyn yn cryfhau'r gwasanaethau ataliol er mwyn gohirio'r angen am ofal a chymorth. Mae gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer Ynys Môn. Mae briff wedi cael ei ddrafftio ar gyfer 		<p>'Teulu Môn', y gwasanaeth GCCh (IAA) newydd ar gyfer Ynys Môn yn weithredol ac yn rhan allweddol o'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar / atal.</p>	<p>Strategol a Busnes</p> <p>Melanie Jones, Rheolwr Gwasanaeth</p> <p>Llyr Ap Rhisiart, GICD</p>		

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 172		<p>ymgyngori gyda grwpiau cymunedol plant a theuluoedd ac asiantaethau sy'n bartneriaid ar Ynys Môn. Mae strategaeth ddrafft wedi cael ei llunio. Lluniwyd hon gan wybod bod gennym wybodaeth o ran anghenion teuluoedd Ynys Môn drwy'r asesiad anghenion lleol, ein data ein hunain ac ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Cordis Bright. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ffurfio cysylltiadau â grwpiau cymunedol fel Caru Amlwch. Cynhaliwyd trafodaethau gyda darparwyr presennol o ran sut y gallant ddarparu gwasanaethau mewn modd gwahanol yn y dyfodol.</p> <p>Bydd strategaeth yr adran o ran gwaith ataliol yn bwydo i mewn i broses y strategaeth ataliol ehangach ar gyfer yr Awdurdod Lleol. Bydd canfod ACE'au yn ffurfio rhan o'n strategaeth. Gwnaed cysylltiadau ag Andrew Bennet (Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth 'Public Health Research') a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyflwyno ymarfer sy'n ymwybodol o ACE'au mewn meddygyfeydd ar yr ynys. Cynhaliwyd trafodaethau i gynnwys y maes hwn o fewn ysgolion yn y gobaith y gallwn ddatblygu ysgolion sy'n ymwybodol o ACE'au ym Môn. Gwnaed cysylltiadau â grwpiau cymunedol a chanddynt ddi-ddordeb mewn defnyddio ACE'au o fewn eu hymagweddau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae archwiliad o achosion TAF wedi dechrau. Gwnaed hyn i wella ein dealltwriaeth o'r teuluoedd yr ydym yn gweithio â hwy. Mae angen i ni sicrhau bod y teuluoedd iawn yn cael mynediad i'r gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn yn yr archwiliad, mae'n ymddangos y gellir cau achosion o fewn y TAF a chyfeirio teuluoedd ymlaen i gael mynediad at wasanaethau penodol sydd wedi'u targedu. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn adolygu pob gwasanaeth a gomisiynir o dan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. • Ymgynghori gyda staff ac asiantaethau sy'n bartneriaid o ran canfod y bwlch mewn darpariaeth gwasanaeth. • Cais i ailddosbarthu cyllid gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i anfon at LIC. • Cais ar gyfer Grant Rhiantu Teuluoedd yn Gyntaf ychwanegol yn cael ei gyflwyno erbyn 14/07/17. 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
		<ul style="list-style-type: none"> Arian wedi ei gymeradwyo ar gyfer Rheolwr Atal Corfforaethol i sicrhau bod y strategaeth atal yn cael ei gwireddu ar draws yr Awdurdod Lleol. <p>Mai 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd adolygiad o'r gwasanaeth ataliol cyfredol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnal yn fuan yn 2017. Ail-gomisiynu gwasanaethau yn unol â chanllawiau LIC drwy ddefnyddio data lleol ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth gyda hynny'n arwain at ganlyniadau o ansawdd oherwydd ymyrraeth gynnar. Swyddog comisiynu, cydlynu a monitro'r grant Teuluoedd yn Gyntaf, wedi trosglwyddo i'r Gwasanaethau Plant erbyn mis Ebrill 2017. <ul style="list-style-type: none"> Adolygu ac aildrefnu 'Gofal Ysbaid' sy'n cael ei gynnig drwy'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i gefnogi teuluoedd. 					

Tud
n
173

5.Gwella gwasanaethau cymorth i deuluoedd a'u targedu tuag at ddarparu cefnogaeth ddwys a chyflym ar adeg pan fydd teuluoedd yn chwalu mewn ymagis i gadw'r teulu gyda'i gilydd.

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
5.1	<p>Adolygiad o Wasanaethau Cefnogi Plant i ganolbwyntio ar:</p> <ol style="list-style-type: none"> Gyswllt dan oruchwyliaeth Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol Rôl y Swyddog Rhianta 	<p>Ebrill – Awst 2018</p> <p>Mae'r adolygiad o'r Gwasanaethau Cefnogi a'r Tîm Lleoli yn parhau a'r gobaith yw y bydd wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Medi.</p> <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Oherwydd pwysau sy'n cystadlu ar Uwch Reolwyr, mae adolygiad hwn wedi cael ei ohirio. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2018 <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r gwaith o adolygu Gwasanaethau Cymorth wedi dechrau gan wneud y defnydd gorau o Weithwyr Cymorth i gefnogi teuluoedd. <p>Mehefin/Gorffennaf 2017</p>	<p>Byddwn yn adolygu Gwasanaethau Cymorth i Blant yn Chwefror 2018 i ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gyswllt dan oruchwyliaeth Rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith ataliol Rôl y Swyddog Rhianta Bydd gwaith yn dechrau ar hyn 	<p>Heb eu gwneud hyd yma</p> <p>Mae'r gwasanaeth yn gwneud gwell defnydd o'i adnoddau ac yn canolbwyntio ar gefnogi plant i barhau i fyw o fewn eu teuluoedd.</p> <p>Darparu cymorth rhianta 1: 1 ac / neu mewn Grŵp i rieni i gryfhau safon y gofal a gaiff eu plant.</p> <p>Mwy o blant yn cael eu cefnogi i fyw adref.</p> <p>Gostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal.</p>	Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys	Ionawr 2017	Cwblhawyd Awst 2018

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
		<p>• Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliath ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref.</p> <p><u>Mai 2017</u></p> <p>• Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu achosion lle nad oes angen i'r awdurdod lleol oruchwylio cyswllt. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall y capasiti sydd ar gael i'w drosglwyddo i'r Tîm Teuluoedd Gwydn.</p>					
5.2	Gweithredu'r Tîm Teuluoedd Gwydn	<p><u>Chwefror-Mawrth 2018</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Tîm yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd (di-enw): <p>Stori Deulu 1: Mae Tom yn ddisgybl ysgol gynradd sy'n byw gyda'i deulu. Mae Tom a'i deulu'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Arbenigol Plant oherwydd ei anghenion dysgu cymhleth ef a'i rieni. Roedd gan yr Awdurdod Lleol bryderon am yr effaith yr oedd cweryla ei rieni yn ei gael ar Tom. Roeddynt yn cweryla i'r graddau y byddai'r cymdogion weithiau yn galw'r Heddlu i fynd i'r tŷ. Yn ychwanegol at hyn, byddai Tom ar adegau yn dychwelyd adref o'r ysgol neu sesiynau gyda'i weithiwr cymorth ond ni fyddai oedolyn priodol adref i edrych ar ei ôl. Roedd hyn oll yn peri i Tom arddangos ymddygiad ymosodol a phryder ynghylch gwahaniad a hynny'n ei dro yn ei gwneud yn anodd i'w rieni ddeall ei anghenion a sut i ymateb iddynt (oherwydd eu lefel dealltwriaeth eu hunain a'u capasiti rhiantu).</p> <p>Ystyriwyd rhoi Tom ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gyda'r tebygolrwydd y byddai pethau'n datblygu'n gyflym iawn i'r cam Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus oni bai y byddai'n pethau'n newid. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd bod angen efallai y byddai angen i Tom gael ei dynnu o ofal ei deulu petai argyfwng difrifol yn codi.</p> <p>Gweithiodd y Tîm Teuluoedd Gwydn gyda'r teulu yn ystod cyfnod o 8 wythnos dwys (Cam 1). O ganlyniad, mae Tom yn parhau i fod adref gyda'i rieni, bu lleihad yn nifer yr achosion lle'r oedd teulu neu gymdogion yn rhoi gwybod am wrthdaro, ni chafwyd unrhyw</p>	<ul style="list-style-type: none"> Bydd rhaglen hyfforddi a datblygu sgiliau yn cael ei llunio ar gyfer y Tîm newydd. Bydd angen gwneud gwaith i sefydlu sut y bydd y grant Teuluoedd Gwydn yn cael ei ddefnyddio. 	<p>Heb eu gwneud hyd yma</p> <p>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng ymyrraeth y tîm hwn a nifer y plant a phobl ifanc y llwyddwyd i'w hadsefydlu'n ôl yn eu cartrefi.</p> <p>Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos cyswllt uniongyrchol rhwng gwaith y tîm a lleihad yn yr angen am leoliadau maethu/preswyl costus.</p> <p>Gall y tîm ddangos tystiolaeth o ymyrraeth yn seiliedig ar atal a dad-ddwysáu drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol.</p> <p>Mae archwiliadau o ffeiliau achos yn dangos bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu teilwra o amgylch anghenion y teulu unigol, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.</p> <p>Wedi cychwyn</p> <p>Mae'r tîm newydd yn weithredol ac yn darparu cefnogaeth ddwys i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd.</p>	Alex Kaitell, Rheolwr Gwasanaeth	Ionawr 2017	Mai 2017

Tudalen 174

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 175		<p>adroddiadau pellach gan yr heddlu yn ystod cyfnod yr ymgysylltiad ac mae Tom yn llai ymosodol a phryderus yn y cartref; mae'n teimlo y gall gysgu yn ei wely ei hun yn hytrach nag yn ystafell ei rieni. Roedd y cynnydd mor ddramatig nes penderfynu nad oedd y teulu angen cymorth 'Cam 2' gan fod y gefnogaeth barhaus gan y Gwasanaeth Arbenigol Plant yn ddigon i gynnal y newidiadau a wnaed.</p> <p>Stori Deulu 2: 3 o blant sy'n byw gyda'u mam. Mae'r rhieni wedi gwahanu; roedd gan y ddau riant dai ac roedd eu hymddygiad o ran hordio yn golygu nad oedd y tai hynny'n ddiogel. Roedd y plant wedi gweld camdriniaeth ddomestig pan oedd eu rhieni'n byw gyda'i gilydd. Roedd hyn wedi cael effaith ar ymddygiad y plant; daeth un plentyn yn ofalwr emosynol ar gyfer ei fam, aeth plentyn arall yn dawedog ac yn encilgar a daeth un arall yn ymosodol ac yn afreolus am oriau ar eu hyd. Rhoddwyd y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a chychwynwyd camau cyfreithiol drwy'r Llys a'r cynllun oedd i roi'r plant mewn gofal maeth.</p> <p>Gweithiodd y Tim Teuluoedd Gwydn gyda'r teulu (y fam a'r tad ar wahân) yn ystod cyfnod dwys o 8 wythnos (Cam 1). Nid yw'r hordio yng nghartref y plant yn digwydd mwyach. Dywed y fam ei bod yn teimlo'n fwy hyderus i helpu'r plant ddeall a rheoli eu hemosiynau gan arwain at lai o wrthdrawiad rhwng y rhieni a'r plant a'r plant yn teimlo'n bryderus. Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapusach a'u bod wedi mwynhau'r cymorth a gawsant.</p> <p>Er nad oedd y tad yn gallu gwneud yr un newidiadau i'w ymddygiad hordio (gan olygu na fedr y plant aros hefo fo dros nos), mae o'n awr yn gallu cynnal cyswllt cadarnhaol yn ddi-oruchwyliaeth gyda'i blant drwy'r cymorth a'r hwb a gaiff gan y Tim Teuluoedd Gwydn. prompts of the Resilient Families Team.</p> <p>Mae'r teulu yn awr yn derbyn cefnogaeth Cam 2 (ar hyd at flwyddyn) i'w helpu i atgyfnerthu a gynnal y newidiadau a wnaed.</p> <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Tim Teuluoedd Gwydn bellach yn weithredol ac yn gweithio ar hyn o bryd gyda 9 o blant unigol o 8 teulu 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 176		<p>Mae'r tîm yn gweithio gyda rhieni i'w cefnogi i fedru gofalu am eu plant a'u hatal rhag gorfod mynd i ofal. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn gofal ac mae cynlluniau adfer dwys wedi cael eu sefydlu ar gyfer y bobl ifanc hynny. Rydym yn gobeithio cynhyrchu adroddiad ym mis Mai 2018 i ddwyn sylw at beth o'r gwaith a gwblhawyd gan y tîm hwn.</p> <p><u>Medi a Hydref 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Tim Teuluoedd Gwydn wedi'i staffio'n llawn erbyn hyn ac wrthi'n gweithio ag 8 teulu i atal y teuluoedd rhag chwalu ac i roi cymorth i blant sy'n byw yn y cartref. • Mae gan y tîm dri nod craidd: <ul style="list-style-type: none"> • Atat - atal plant rhag gorfod Derbyn Gofal • Lleihau – lleihau natur y llety gofal a ddarperir, o ofal preswyl i ofal maeth. • Ailuno – ailuno plant sy'n derbyn gofal gyda'u teuluoedd. • Mae'r Arweinydd Ymarfer ar gyfer y tîm hwn wedi derbyn gwobr genedlaethol yn ddiweddar gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) am ei gwaith yn datblygu cymorth i rai sy'n gadael gofal, ynghyd â threfniadau i roi cymorth i ofalwyr maeth atal lleoliadau rhag chwalu. <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Tim Teuluoedd Gwydn wedi'i benodi a bydd y staff i gyd yn eu swyddi erbyn dechrau mis Medi. • Mae LIC wedi rhoi grant ychwanegol o £96,000 i roi cymorth pellach i sefydlu'r Tim Teuluoedd Gwydn. Ceisir rhagor o arweiniad gan LIC mewn perthynas â sut y gellir defnyddio'r grant hwn. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Reiciwtio i'r swyddi Arweinydd Ymarfer, Gweithiwr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymorth, wedi eu hysbysebu, cyfweiliadau i'w cynnal erbyn diwedd Gorffennaf. • Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth mae'r gwaith cychwynol o ran 'Teuluoedd Gwydn' wedi cychwyn i leihau'r angen am gyswllt o dan oruwchwyliath ar gyfer gweithwyr cefnogol, mae hyn yn rhyddhau capasiti i ymgymryd â gwaith mwy dwys efo plant a theuluoedd i sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i fyw adref. 					

Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant fersiwn 9.0 Medi- Hydref 2018
Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
		<p>Mai 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod y plant a phobl ifanc y gellir gwneud gwaith dwys â hwy er mwyn eu galluogi i ddychwelyd adref yn ddiogel. Mae Disgrifiadau Swydd newydd wedi cael eu llunio a byddir yn cychwyn recriwtio i'r swyddi ddiwedd mis Mawrth 2017. 					
Tudalen 177	<p>5.3 Gwella cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fel Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Meysydd y dylid canolbwyntio amynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adolygu'r gwasanaeth gadael gofal (ôl-ofal) Creu 'Polisi Llety â Chymorth' Cytuno ar 'Bolisi Ariannol Gadael Gofal' Trefniadau profiad gwaith a phrentisiaethau yn y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd Mynediad am ddim / am bris gostyngol i wasanaethau hamdden a gwasanaethau llyfrgell Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal 	<p>Medi – Hydref 2018 Gwaith yn parhau ond mae mwy i'w wneud.</p> <p>Chwefror-Mawrth 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Strategaeth LAC wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd ar gael ar gyfer ymgynghoriad tuag at ddiwedd mis Ebrill. <p>Tachwedd – Ionawr 2018</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae un cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi cael ei gynnal ar 11 Rhagfyr 2018 ers i raglen y Panel gael ei hailstrwythuro. Mae hyn yn rhoi amser i'r aelodau graffu'r data a ddarperir a chael trafodaeth ystyrlon ar faterion rhiantu corfforaethol. Mae gwaith ar y Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal yn parhau i fynd rhagddo a gobeithir y bydd modd cynhyrchu Strategaeth ddrafft y gellir ymgynghori arni yn ystod Ebrill 2018. <p>Medi a Hydref 2017</p> <ul style="list-style-type: none"> Ym mis Medi, cymeradwyodd y Panel Rhiantu Corfforaethol gynllun gweithredu i ddatblygu "Strategaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal" am gyfnod o dair blynedd 2018 - 2020. Byddai'r strategaeth hon yn darparu'r fframwaith i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol Plant sy'n Derbyn Gofal. Erbyn Mawrth 2018 rydym yn bwriadu ail-lansio gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn o ran Rhiantu Corfforaethol. Wrthi'n recriwtio ar gyfer swydd Cynghorydd Personol ychwanegol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a ariennir gan gronfa Dydd Gŵyl Dewi a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal. Bydd hyn yn cryfhau ein gwasanaeth i ddarparu cymorth amserol i rai sy'n gadael gofal i'w helpu i gyflawni eu huchelgeisiau ac i drosglwyddo'n llwyddiannus i fod yn oedolion ac i fyw'n annibynnol. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen gwneud penderfyniad o ran cyllid grant ychwanegol gan LIC mewn perthynas â phrofiad gwaith a phrentisiaethau. Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol ar 18 Mawrth. 	<p>Heb eu gwneud hyd yma Gwaith clir o ran cynllunio llwybr yn darparu amcanion yn y cynllun i baratoi'r unigolyn ifanc ar gyfer bod yn oedolyn.</p> <p>Rhai sy'n gadael gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt a bod yr awdurdod yn eu cefnogi yn y cyfnod trosiannol cyn gadael gofal.</p> <p>Mae plant sy'n derbyn gofal yn dweud eu bod yn teimlo bod ganddynt ddylanwad ar y modd y darperir gwasanaethau ar eu cyfer.</p> <p>Wedi cychwyn Canllawiau clir ar waith ar gyfer staff y Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol drwy bolisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.</p>	Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys	Ionawr 2017	Mawrth 2018

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 178		<p>• Bydd y Gwasanaethau Plant yn rhan o fenter newydd o fewn y Cyngor i gynnig profiad gwaith cyflogedig i bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer gwaith; cyfnod cyflogedig o hyd at 12 wythnos gyda'r Cyngor. Bydd pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth gyda chyfle iddynt fynychu sesiwn gynefino ffurfiol, cyrsiau mewnol perthnasol a chyfle i weithio ar brosiectau penodol o fewn y gwasanaeth.</p> <p><u>Awst 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys wedi paratoi adroddiad ar gyfer y panel rhiantu corfforaethol gydag opsiynau o ran sut i gryfhau rôl y panel rhiantu corfforaethol. • Drwy grant Dydd Gŵyl Dewi LIC a'r grant Cymorth i Rai sy'n Gadael Gofal derbyniwyd £31,000. Mae gwaith wedi mynd yn ei flaen gyda chydweithwyr AD i ganfod cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith o fewn yr Awdurdod Lleol. Bydd y grŵp prosiect ôl-ofal yn gyrru'r gwaith hwn yn ei flaen. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfu'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar 10/07/17, yr aelodaeth, yr agenda a'r Cylch Gorchwyl i'w hadolygu ac i gynnwys pobl ifanc. • Digwyddiad Rhiantu Corfforaethol wedi'i gynllunio ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion ar 20/07/17 • Penodi Aelod Lleol fel Hyrwyddwr Plant sy'n Derbyn Gofal. • Gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer seremoni wobrwyo 'STARS' ym mis Tachwedd i ddathlu llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlwyd prosiect ôl-ofal gyda chynllun gweithredu cytunedig. • Cymeradwywyd protocol ôl-ofal a thai ym mis Chwefror 2017 • Cynhaliwyd trafodaethau gydag AD a Hamdden ynglŷn â phrofiad gwaith a gwasanaethau hamdden. • Wedi llunio drafft cynnar o'r polisi ariannol Ôl-ofal. • Yn ystyried cynnal Digwyddiad Rhiantu Corfforaethol ar gyfer aelodau lleol ac uwch swyddogion i gytuno ar gryfhau'r trefniadau presennol. • Sefydlwyd grŵp ymgynghori gyda phlant sy'n derbyn gofal lle gallant roi eu barn am y gwaith datblygu y mae angen ei wneud. 					

Argymhellion AGC mewn coch – blaenoriaeth uchel

	CAMAU F'W CYMRYD A CHYSYLLTIADAU AG ARGYMHELLION AGC	CAMAU A GYMERWYD/F'W CYMRYD I GYFLAWNI GWELLIANT	CAMAU Y MAE EU HANGEN I GYFLAWNI GWELLIANT	CANLYNIAD/GWELLIANT DISGWYLIEDIG A THYSTIOLAETH	SWYDDOG ARWEINIOL	CYCHWYN	DIWEDD
Tudalen 179	5.4 Datblygu a gweithredu Protocol ar gyfer Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gan fyfyrion ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - Rhan 8 Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.	<p><u>Ebrill – Awst 2018</u> Mae Protocol Rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn yn ystod mis Medi 2018 er mwyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol.</p> <p><u>Tachwedd – Ionawr 2018</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r protocol wedi cael ei adolygu a bydd fersiwn ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng nghanol mis Chwefror. <p><u>Medi a Hydref 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas â rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti. <p><u>Mehefin/Gorffennaf 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Dim cynnydd o ran adolygu'r protocol mewnol mewn perthynas â rôl drosfwaol y Cyfarwyddwr oherwydd materion capasiti. <p><u>Mai 2017</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd gwaith yn dechrau ar gryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017. 		Heb ei wneud hyd yma Cryfhau rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr Awdurdod Lleol.	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dafydd Bulman, Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes	Hydref 2017	Cwblhawyd Awst 2018

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17/12/2018
Pwnc:	Sefydlu Cyfundrefn ar gyfer ag ymdrin a Swyddogaethau'r Cyngor fel Corff Cymeradwyo ceisiadau Safonau Cenedlaethol Draenio Cynaliadwy dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dwr 2010.
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd Bob Parry
Pennaeth Gwasanaeth:	Huw Percy (Interim)
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Huw Percy, hmpht@ynysmon.gov.uk, 2303 Rowland Thomas, ertht@ynysmon.gov.uk, 2312
Aelodau Lleol:	Nid yw yn fater lleol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

1. Fod gweithredu cyfrifoldebau statudol o'r Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) i'w priodoli i'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.
2. Dirprwyo'r cyfrifoldeb a phwerau'r CCS dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i Bennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gyda'r hawl i ddirprwyo ymhellach fel sydd yn briodol.
3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd sefydlu cyfundrefn benderfynu ceisiadau yn unol â'r Ddeddfwriaeth ac Arweiniad Statudol
4. Clustnodi'r incwm a gynhyrchir o weinyddu CCS ar gyfer gweithredu dyletswyddau'r CCS.
5. Dirprwyo'r hawl i'r Deilydd Portffolio a'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo greu strwythur a llenwi swyddi er mwyn gweithredu dyletswyddau'r CCS.
6. Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i addasu'r Cynllun Dirprwyo yn y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r penderfyniad yma.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraethau Lleol Cymru (CLILIC) a'r 22 o Awdurdodau Llifogydd Lleol wedi bod yn trafod cyflwyno Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLID) 2010 yng Nghymru. Fe gyllidodd LLC adroddiad Rheolwr Prosiect gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) i gefnogi'r broses o sefydlu CCS, i annog cyd-weithio, i

asesu incwm posibl ac i ymchwilio opsiynau ar gyfer siroedd Gogledd Cymru.

Yn dilyn yr adroddiad, trafodaethau mewnol gyda'r Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd ac YGC, rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau canlynol:

1. Cyflawni'r holl ddyletswyddau o fewn yr adnoddau staff presennol;
2. Sefydlu CCS rhanbarthol;
3. Allanoli'r gwaith i YGC neu i gwmni preifat;
4. Cyflawni'r dyletswyddau yn fewnol o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gan ddefnyddio trefniadau'r Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd ar gyfer gweinyddiaeth ac YGC er mwyn cael gwydnwch.

Cafodd yr opsiwn cyntaf ei ddiystyru fel ateb tymor hir oherwydd diffyg capasiti. Cafodd yr ail a'r trydydd opsiwn eu diystyru oherwydd dyhead i ddarparu'r gwasanaeth yn lleol a chreu cyfleoedd swyddi ac oherwydd bod cyfraddau adennill costau staff allanol yn uwch na chost cyflogi yn fewnol.

Yr argymhelliad felly yw cyflawni'r dyletswyddau yn fewnol o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gan ddefnyddio trefniadau'r Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd ar gyfer gweinyddiaeth ac YGC er mwyn cael gwydnwch.

Bydd angen creu swyddi newydd a'u llenwi fel ac y bydd lefelau incwm digonol yn cael eu derbyn. Yn y cyfamser, a hyd nes y bydd yr incwm yn ddigon i dalu costau swyddi llawn amser cyfatebol, argymhellir cyfuno'r dyletswyddau yma gyda dyletswyddau presennol staff gan ddefnyddio YGC lle nad yw'r arbennigedd neu'r capasiti yn bodoli ar hyn o bryd. Mae cais am yr hawl i lenwi un swydd weinyddol yn syth er mwyn gallu delio gyda cheisiadau o 7fed Ionawr, 2019 a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae sefydlu CCS yn arwain at ddyletswyddau ychwanegol ac mae yn hanfodol fod y Cyngor yn gallu ymdrin â'i ddyletswyddau statudol i gyd-ymffurfio ac i osgoi oedi'r broses o gymeradwyo datblygiadau.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae angen penderfyniad gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLID) 2010 sydd yn gorchymyn y dylai systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy (SDCau).

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae creu'r CCS yn ofyn statudol newydd ar Awdurdodau lleol, ond nid oes cyllid ychwanegol yn dod gan Lywodraeth Cymru. Mae asesiadau Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylai'r Corff fod yn hunan-gynhaliol yn yr hir dymor, gyda'r ffioedd sydd ynghlwm â'r ceisiadau yn talu'r costau rhedeg.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**Beth oedd eu sylwadau?**

1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Mae'r model ariannol wedi cael ei drafod gyda swyddogion Cyllid a bydd swyddi (arwahân i'r swydd weinyddol) yn cael eu llenwi pan fydd yr incwm yn ddigonol.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Mae swyddogion Cyfreithiol wedi cyfarfod yn rhanbarthol i drafod CCS.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Bydd unrhyw swydd newydd yn dilyn prosesau AD
5	Eiddo	Dim yn berthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Mae swyddogion TGCH wedi bod yn rhan o drafodaethau datblygu cyfundrefn Ynys Môn
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	Dim yn fater lleol
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Mae CNC a Dŵr Cymru wedi bod yn rhan o ddatblygu CCS

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	Mae swyddogion yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu cyfundrefn Ynys Môn a'r effaith ar ddatblygiadau
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	Mae swyddogion Rheoleiddio wedi bod yn rhan o drafodaethau datblygu cyfundrefn Ynys Môn
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:

Atodiad 1 – Siart Llif y broses cymeradwyo SDC

Atodiad 2 - Memorandwm esboniadol ac asesiad effaith rheoleiddiol

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**Cyflwyniad**

Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLID) 2010 yn gorchymyn y dylai systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol ar gyfer draenio cynaliadwy (SDCau). Mae Atodlen 3 DRhLID 2010 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol fel Corff Cymeradwyo SDCau i gymeradwyo, mabwysiadu a chynnal systemau sy'n cyd-fynd ag adran 17 yr Atodlen. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bydd gofynion Atodlen 3 yn dod yn weithredol yng Nghymru ar y 7fed Ionawr 2019.

Felly, o'r dyddiad yma, bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100m² neu fwy. Rhaid i systemau draenio fod wedi eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae siart llif sydd yn egluro'r broses ymhellach wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn gweithredu yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) cyn y bydd gwaith adeiladu'n dechrau. Bydd gan y CCS yr hawl i godi ffi am gymeradwyo'r ceisiadau, gyda'r ffi yn cael ei bennu ar sail maint y datblygiad. Bydd y ffioedd yn gyson drwy Gymru gan eu bod wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau. Mi fydd y CCS hefyd yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn-gais, gyda'r ffi ar gyfer y gwasanaeth yma yn cael ei osod gan bob awdurdod lleol yn unigol, gad adlewyrchu'r drefn Cynllunio bresennol.

Mae'n bwysig nodi fod y drefn Gynllunio a'r drefn CCS yn ddwy drefn ar wahân gyda deddfwriaeth unigol. Wedi dweud hyn, fe fydd gofynion y naill yn dylanwadu ar y llall ac mae'n debygol y bydd rhaid i ddatblygwyr ystyried trefniadau draenio'r safle yn gynharach oherwydd y gofynion newydd. Bydd y neges yma yn cael ei bwysleisio gan y Cyngor drwy'r drefn cyn-gais, drwy'r broses Gynllunio bresennol ac ar ei safle we. Bydd swyddogion hefyd yn trefnu cyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar y drefn CCS a sut y mae'n cysylltu gyda'r drefn Gynllunio.

Mae'r broses o gymeradwyo cais CCS yn dechnegol ag angen arbenigaeth yn y maes. Bydd rhaid i bob cais ddangos ei bod yn cwrdd â'r meini prawf fydd yn y safonau cenedlaethol er

mwyn eu cymeradwyo. Bydd yn ddyletswydd i'r CCS ymgynghori ar y cais gydag ymgynghorwyr statudol yn unig. Ym Môn yr ymgynghorwyr statudol perthnasol fydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

Bydd ceisiadau yn cael eu cymeradwyo yn unol ag amodau. Tra'n ddibynol ar faint a natur y cynllun, bydd yr amodau yn debygol o gynnwys yr angen am gyfres o ymchwiliadau yn ystod ag ar ôl gorffen y gwaith a bondiau adeiladau byddai'n cael ei ddal gan y CCS tra fo'r gwaith wedi ei gwblhau i'r safon ofynnol. Mae hefyd trefn apêl a gorfodaeth wedi ei sefydlu, sy'n debyg iawn i'r drefn Cynllunio bresennol.

Bydd dyletswydd ar y CCS i fabwysiadu systemau sy'n gwasanaethu mwy nag un tŷ, cyhyd a'i fod wedi ei adeiladu ac yn gweithredu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, gan gynnwys unrhyw amodau cymeradwyaeth CCS. Fel rhan o gymeradwyo'r cais bydd angen sicrhau fod yna drefn cynnal a chadw mewn lle sydd wedi ei ariannu a'i ddiogelu drwy gytundeb cyfreithiol. Y ffordd fwyaf tebygol o sicrhau fod arian ar gael er mwyn cynnal a chadw unrhyw system a fabwysiedir gan y Cyngor yw drwy godi swm cymudol ar y datblygwr, yn debyg i'r hyn a wneir yn bresennol drwy fabwysiadu ffyrdd.

Mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r mecanwaith i'r CCS i ofyn am daliad gan ddatblygwyr o ran cynnal a chadw yn dilyn mabwysiadu gan y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi codi'r mater yma gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o grŵp rhanbarthol. Nid oes ymateb ffurfiol wedi ei dderbyn hyd yma. Nodir fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wrth lunio'r canllawiau i'r CCS mai'r datblygwyr fyddai'n gyfrifol am ariannu cynnal a chadw unrhyw system a gaiff ei fabwysiadu. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Uned Gyfreithiol er mwyn derbyn eglurder ar y mater.

Mae'r cyfrifoldeb dros faterion dŵr a llifogydd ym Môn yn eistedd o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Mae'r cyfrifoldeb o ran y CCS ar hyn o bryd yn eistedd gyda'r Pwyllgor Gwaith, ond y bwriad yw y bydd y cyfrifoldebau CCS yn cael eu gweithredu gan yr adran. Bydd hawl dirprwyedig gan swyddogion penodol o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i weithredu'r gyfundrefn ar y ceisiadau ar ran y Cyngor.

Dylid nodi y bydd cyfrifoldeb o ran gorfodi diffyg cydymffurfiaeth hefyd yn gyfrifoldeb y CCS.

Mae creu'r CCS yn ofyn statudol newydd ar awdurdodau lleol, ond nid oes cyllid ychwanegol yn dod gan Lywodraeth Cymru. Mae asesiadau Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylai'r Corff fod yn hunan cynhaliol yn yr hir dymor, gyda'r ffioedd sydd ynghlwm a'r ceisiadau yn talu'r costau rhedeg.

Cyllidodd Llywodraeth Cymru adroddiad gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) i asesu'r incwm y gallai CCS ei greu ym mhob un o siroedd Gogledd Cymru ac amcanu costau gweithredu ar gyfer pob sir. Wrth edrych ar geisiadau Cynllunio hanesyddol Ynys Môn, roeddynt yn amcangyfrif y bydd tua 278 o geisiadau i'r CCS yn flynyddol ag y bydd angen hyd at 3 aelod o staff llawn amser. Roeddynt yn amcangyfrif bydd y 278 o geisiadau yn creu incwm o £171,160 yn erbyn costau gweithredu'r corff o £168,551. Mae'r costau yma yn

seiliedig ar raddfeydd adennill costau YGC sydd yn uwch na chostau cyflogi aelod o staff mewnol drwy Gyngor Sir Ynys Môn. Bydd costau llai yn golygu fod opsiwn defnyddio rhan o'r incwm i benodi YGC i gynorthwyo mewn cyfnodau brig ac i roi gwydnwch i gyfundrefn Ynys Môn.

Y bwriad yw penodi un aelod o staff llawn amser i ymdrin â dyletswyddau gweinyddol yn Ionawr 2019, ac yna ail strwythuro dyletswyddau staff presennol a llenwi bylchau trwy greu swyddi i wireddu'r angen pellach. Bydd llenwi unrhyw swyddi ychwanegol yn ddibynnol ar incwm a thrafodaethau gyda'r Gwasanaeth Cyllid.

Mae yna fuddsoddiad sylweddol o ran amser staff ei angen er mwyn sefydlu'r corff, datblygu prosesau a chyfundrefnau newydd i wneud yn siŵr fod yr awdurdod mewn lle i dderbyn ceisiadau o fis Ionawr ymlaen. Er mwyn cwblhau dyletswyddau statudol newydd sydd yn ychwanegol a gan na fydd yr incwm cychwynnol yn cwrdd â chostau byr dymor sefydlu'r CCS, mae cais i gael llenwi un swydd yn Ionawr 2019 yn cael ei argymhell.

Rhesymau dros argymhell y penderfyniad


Mae asesu ceisiadau o'r fath yn faes arbenigol sydd angen profiad a hyfforddiant technegol perthnasol. Mae'r Cyngor yn gweithredu trefn debyg yn barod wrth asesu oblygiadau draenio ceisiadau cynllunio a cheisiadau ar gyfer gwaith mewn cyrsiau dŵr arferol drwy'r Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. Disgwylir nifer sylweddol o geisiadau technegol iawn eu natur ac ystyrir fod yr argymhellion yn cyfarch y gofyn statudol o ran y broses benderfynu. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd (Cynllunio), cytunwyd y byddai yn fradol ymdrin â'r dyletswyddau newydd o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ond i ddefnyddio prosesau gweinyddol y Gwasanaeth Rheoleiddio ac Economaidd.

Ystyriaethau perthnasol

Byddai rhoi'r hawl i swyddogion wneud y penderfyniad yn hwyluso'r gallu i gwrdd â'r gofyn statudol i benderfynu ar geisiadau arferol o fewn 7 wythnos, a 11 wythnos ar gyfer ceisiadau sydd angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol. Mae'r trefniadau hyn yn gyson gyda'r trefniadau sydd ar hyn o bryd yn cael ei sefydlu mewn awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru.

Camau nesaf ac amserlen

Mae'r drefn newydd yn weithredol o'r 7fed Ionawr 2019, ac felly mae gofyn statudol i'r gyfundrefn fod mewn lle erbyn y dyddiad yma. Mae'r amserlen yn gaeth a phryderon dros hyn a diffyg cyllid, yn enwedig ar gyfer sefydlu ac yn y blynyddoedd cynnar, wedi cael ei adrodd i'r Llywodraeth mewn llythyr ac mewn cyfarfodydd rhanbarthol.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli
Llifogydd a Dŵr 2010 ar
systemau draenio cynaliadwy,
memorandwm esboniadol yn
cynnwys yr asesiad effaith
rheoleiddiol a'r nodiadau
esboniadol, Hydref 2018

2018

Memorandwm Esboniadol i:

- 1. Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018**
- 2. Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018**
- 3. Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018**
- 4. Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018**
- 5. Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

1. Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018
2. Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018
3. Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018
4. Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018
5. Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) (Cymru) 2018

Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Hannah Blythyn AC
Gweinidog yr Amgylchedd

15 Hydref 2018

CYNNWYS

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad
2. Materion o ddiddordeb arbennig
3. Y cefndir deddfwriaethol
4. Pwrpas a'r effaith a fwriedir
5. Ymgynghori

RHAN 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

6. Opsiynau polisi a ystyriwyd
7. Dadansoddiad o gostau a buddion yr opsiynau
8. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth
9. Aseu'r gystadleuaeth
10. Aseidiadau effaith penodol
11. Adolygiad ar ôl gweithredu

Atodiad 1 - Datblygiadau tai

Atodiad 2 - Datblygiadau masnachol a diwydiannol

Atodiad 3 - Datblygwyr yng Nghymru

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Deddf 2010) yn ymwneud â darparu systemau draenio cynaliadwy (SuDS). Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Corff Cymeradwyo SuDS yn yr awdurdod lleol ochr yn ochr â'i ddyletswydd fel awdurdod llifogydd lleol arweiniol. Bydd angen cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo cyn gallu dechrau gwaith i adeiladu systemau draenio ar safleoedd newydd a rhai sy'n cael eu hailddatblygu. A bwrw bod Safonau SuDS cenedlaethol statudol (safonau SuDS) yn cael eu bodloni, bydd gofyn i'r Corff Cymeradwyo fabwysiadu a chynnal SuDS cymeradwy sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo.
- 1.2 Gall SuDS ddarparu ystod o fuddion, gan gynnwys *lleihau difrod a achosir gan lifogydd, gwella ansawdd dŵr, gwarchod a gwella'r amgylchedd, gwella iechyd a lles a sicrhau sefydlogrwydd a gwydnwch systemau draenio*. Mae'r rhain yn gyson â'r nodau llesiant a'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹. Maent hefyd yn gyson â Pholisi Adnoddau Naturiol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.²
- 1.3 Yn wahanol i ddraeniau pibellau cyffredin, mae SuDS yn ceisio efelychu prosesau naturiol i reoli dŵr glaw, gan ddefnyddio'r dirwedd a'r llystyfiant naturiol i reoli llif a swm y dŵr wyneb. Hyd yma, nid yw wedi bod yn orfodol defnyddio SuDS ar ddatblygiadau newydd. O'r herwydd, cyfyngedig yw'r defnydd a wneir o SuDS ac nid yw systemau bob amser yn cydymffurfio â Safonau SuDS³. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd ansicrwydd ynghylch mabwysiadu a chynnal a chadw parhaus.
- 1.4 Ceir yma un memorandwm esboniadol ar gyfer y gyfres o Offerynnau Statudol sydd eu hangen i roi Atodlen 3 Deddf 2010 ar waith. Pan fyddant wedi'u cychwyn bydd yr offerynnau hyn gyda'i gilydd yn darparu ar gyfer:
- Sefydlu Corff Cymeradwyo SuDS mewn cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.
 - Rheidrwydd i systemau draenio ar gyfer rheoli dŵr glaw (gan gynnwys dŵr glaw, eira a dyddodiadau eraill) mewn datblygiadau newydd gael eu cymeradwyo gan y Corff Cymeradwyo cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.
 - Rheidrwydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi Safonau SuDS Cenedlaethol (Safonau SuDS) ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw SuDS. Er mwyn cael ei chymeradwyo gan y Corff Cymeradwyo bydd yn rhaid i'r system ddraenio a gynigir fodloni'r Safonau SuDS.
 - Ei gwneud yn ddyletswydd ar y Corff Cymeradwyo i fabwysiadu a chynnal a chadw SuDS cymeradwy sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo. Er mwyn i'r Corff Cymeradwyo ei mabwysiadu bydd yn rhaid i'r system ddraenio gael ei hadeiladu a gweithredu yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn unol â'r Safonau SuDS.

¹ Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

² Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol

³ Llywodraeth Cymru (2016) Safonau anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru

- Mewnosod adran 106A newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n ategu'r darpariaethau presennol yn adran 106 y Ddeddf sy'n pennu y bydd yr hawl i gysylltu dŵr wyneb â charthffosydd cyhoeddus yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo fod y system ddraenio'n bodloni'r Safonau SuDS.
 - Pennu y bydd Ymgwymerwyr Carthffosiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dyfrffyrdd Prydain ac Awdurdodau Priffyrdd yn ymgngoreion statudol i'r Corff Cymeradwyo.
 - Sefydlu trefn orfodi ac apelio i'r Corff Cymeradwyo.
 - Darparu dull o adennill costau rhesymol a ysgwyddir gan y Corff Cymeradwyo wrth arfer ei swyddogaeth.
- 1.5 Cafodd y Gorchymyn sy'n cychwyn Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ar gyfer Gymru ei wneud ar 1 Mai 2018. Daw'r ddeddfwriaeth, ynghyd â'r rheoliadau sydd eu hangen i'w rhoi ar waith i rym ar 7 Ionawr 2019. Bydd hynny'n rhoi digon o amser i awdurdodau lleol sefydlu dull cymeradwyo'r Corff Cymeradwyo. Bydd hefyd yn rhoi amser i'r datblygwyr ddod yn ymwybodol o'r newidiadau a pharatoi ar gyfer Safonau SuDS gorfodol a'r rheidrydd i gael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo cyn dechrau gwaith adeiladu.
- 1.6 Cynigir na fydd angen cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo ar anheddau unigol a datblygiadau a chanddynt arwynebedd adeiladu o lai na 100 metr sgwâr.
- 1.7 Mae darpariaethau dros dro wedi eu mewnosod fel na fydd angen cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo ar ôl y dyddiad dod i rym ar gyfer yr isod:
- Datblygiadau newydd a oedd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio cyn y dyddiad dod i rym, neu
 - Datblygiadau newydd gydag un neu fwy o faterion a gadwyd yn ôl lle gwneir cais am gymeradwyaeth i'r mater(ion) a gadwyd yn ôl o fewn 12 mis i'r dyddiad dod i rym, neu
 - Datblygiadau newydd lle y cyflwynwyd cais cynllunio dilys cyn y dyddiad dod i rym.
- 1.8 Mae amodau eithrio wedi'u mewnosod sy'n golygu na fydd angen cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo ar gyfer y canlynol:
- Gwaith adeiladu sy'n gysylltiedig â phriffyrdd (a adeiledir gan Lywodraeth Cymru), rheilffyrdd Network Rail a gweithgareddau byrddau draenio mewnol (a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru).
 - Datblygiadau a ganiateir sy'n golygu adeiladu adeilad neu adeiladwaith arall sydd lai na 100 metr sgwâr o arwynebedd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddeddfwriaethol

- 2.1 Mae Deddf 2010 yn Ddeddf Seneddol y DU sydd eisoes yn bodoli, ac mae angen yr Offerynnau Statudol hyn gyda'i gilydd i weithredu Atodlen 3 Deddf 2010 yng Nghymru ac i Gymru yn unig y maent yn berthnasol. Cafodd y Gorchymyn (Cychwyn rhif 2) (Cymru) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ei wneud ar 1 Mai 2018. Daw'r Gorchymyn sy'n cychwyn Atodlen 3 y Ddeddf i rym o'r diwrnod ar ôl

diwrnod gwneud y Gorchymyn at bwrpas gwneud is-ddeddfwriaeth ac o 7 Ionawr 2019 at y dibenion sy'n weddill.

- 2.2 Gallai Atodlen 3 Deddf 2010 fod yn berthnasol yn Lloegr ond nid yw wedi'i chychwyn eto. Mae mesurau SuDS yn Lloegr yn dal i fod yn destun adolygu gan Lywodraeth y DU ac maent wedi bod yn destun craffu gan y Pwyllgor Seneddol Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (EFRA). Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad yw polisi Llywodraeth y DU ar SuDS yn llwyddo a gwnaeth argymhellion ynglŷn â'r angen i wneud safonau ar gyfer SuDS yn orfodol er mwyn gwella ansawdd cynlluniau SuDS.
- 2.3 Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adolygiad⁴ o'i mesurau a'u heffeithiolrwydd sy'n annog defnyddio SuDS ar ddatblygiadau mawr newydd a rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio SuDS mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd trwy bolisi cynllunio anstatudol. Cafwyd nifer o ganfyddiadau sy'n cael eu crynhoi isod:
- Mae 80% o bolisiâu cynllunio lleol sydd wedi'u mabwysiadu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) yn adlewyrchu'r polisi y dylid darparu SuDS mewn datblygiadau mawr newydd.
 - Nid oes gan 70-75% o ACLI **unrhyw** drefniadau ar gyfer monitro neu adrodd a ydynt yn defnyddio SuDS.
 - Dywedodd nifer fawr o ACLI bod prinder amser, arbenigeddau ac adnoddau ganddynt i asesu ceisiadau cynllunio.
 - Nodwyd yn yr adroddiad bod Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn ofidus nad yw SuDS yn cael eu hymgorffori yng nghanam llunio'r cynllun meistr, a bod diffyg sylw a manylder iddo ar ddechrau'r broses gynllunio.
 - Nodwyd yn yr adroddiad nad yw digon o ACLI yn sicrhau bod ganddynt drefniadau ar gyfer cynnal a chadw cynlluniau SuDS dros oes y datblygiad.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Adran 32 Deddf 2010 sy'n rhoi grym i Atodlen 3 y Ddeddf honno. Mae Adran 49(1)(i) Deddf 2010 yn darparu bod Adran 32 ac Atodlen 3 yn dod i rym mewn perthynas â Chymru yn unol â darpariaethau a wnaed drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.
- 3.2 Mae Atodlen 3 Deddf 2010 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru ar nifer o faterion:
- Mae paragraff 7(4) yn cynnwys darpariaeth i reoliadau gael eu gwneud ynghylch eithriadau i'r gofyniad am gymeradwyaeth. Mae paragraff 11(5) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch amseriad penderfyniadau ar geisiadau am gymeradwyaeth a'r weithdrefn ar gyfer hynny, gan gynnwys canlyniadau peidio â chydymffurfio â hwy.
 - Mae paragraff 13(1) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch ffioedd ceisiadau am gymeradwyaeth.

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/a-review-of-the-application-and-effectiveness-of-planning-policy-for-sustainable-drainage-systems>

- Mae paragraff 18 (3) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau i bennu pryd y caiff system ddraenio ei thrin fel petai wedi'i chynllunio ar gyfer un eiddo. Mae paragraff 20 yn darparu ar gyfer gwneud eithriadau ychwanegol i'r ddyletswydd fabwysiadu. Mae paragraff 23(7) a 24(5) yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch amseriad a dull rhoi hysbysiad gan y Corff Cymeradwyo ynghylch mabwysiadu.
- Mae paragraff 14(1) yn ei gwneud yn ofynnol gwneud rheoliadau i orfodi'r gofyniad am gymeradwyaeth.
- Mae paragraff 25(1) yn ei gwneud yn ofynnol gwneud rheoliadau i ddarparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol gan y Corff Cymeradwyo.

3.3 Nodir isod y weithdrefn ddeddfwriaethol statudol ar gyfer gwneud yr offerynnau:

- Trwy adran 48(5) Deddf 2010, mae Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018, Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Ffioedd Cais am Gymeradwyaeth) (Cymru) 2018 yn dilyn y weithdrefn penderfyniadau negyddol.
- Trwy adran 48(6)(a) a paragraffau 14(5)(b) a 25(3)(b) Atodlen 3 Deddf 2010, mae Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Apelau) Cymru 2018 yn dilyn y weithdrefn penderfyniadau cadarnhaol.

- 3.4 Mae'r offerynnau hyn yn ymdrin â draenio dŵr wyneb yng Nghymru yn unig. Mae hynny'n wahanol i bob agwedd arall ar garthffosiaeth a draenio a ddarperir gan ymgymerywyr carthffosiaeth o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. O dan y Ddeddf honno, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio ymgymerywyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am gwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr. O'r herwydd, ar gyfer gwasanaethau draenio a ddarperir gan ymgymerywyr dŵr a charthffosiaeth, mae'r rhannau hynny o Loegr y mae Dŵr Cymru Welsh Water yn eu gwasanaethu'n rhan o gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru. Bydd darpariaethau cysylltiedig yn Neddf Cymru 2017 wedi iddynt gael eu cychwyn yn cysoni trefniadau rheoleiddio ymgymerywyr carthffosiaeth â'r ffin genedlaethol, yn hytrach nag yn gyfan gwbl neu'n bennaf.
- 3.5 Mae Atodlen 3 y Ddeddf yn defnyddio'r gair "Gweinidog" i ddynodi Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol fel ei gilydd. Defnyddir y gair "Gweinidog" yn y ddogfen hon i ddynodi Gweinidogion Cymru.

4. PWRPAS A'R EFFAITH A FWRIEDIR

Y broblem y mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio ymdrin â hi

- 4.1 Mae tua 163,000 o unedau eiddo yng Nghymru yn wynebu perygl o lifogydd dŵr wyneb (120,000 preswyl a 43,000 di-breswyl)⁵. Mae perygl llifogydd ar gynnydd, i raddau helaeth oherwydd newid yn yr hinsawdd a threfoli.
- 4.2 Gall dŵr wyneb ffo achosi llawer iawn o lygredd; yn uniongyrchol ac wrth i garthffosydd gorlawn ollwng dŵr i afonydd. Mae'r pwysau i weithredu ynghylch ansawdd dŵr, er enghraifft drwy gynyddu capasiti'r system garthffosiaeth, hefyd yn deillio o'r angen ar hyn o bryd i gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE, ac yn benodol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.
- 4.3 Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru⁶ mae "*diffyg amlwg o 'eglurder cyhoeddus' dros gyfrifoldebau ('pwy sy'n gwneud beth'), yn enwedig mewn perthynas â rheoli llifogydd arfordirol a dŵr*". Nodir "creu cyrff cymeradwyaeth draenio cynaliadwy" fel mesur allweddol a allai helpu i reoli'r risg o lifogydd yn well. Yn wir, un o amcanion y strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli'r risg llifogydd yng Nghymru yw sefydlu corff cymeradwyo mewn awdurdodau lleol i gymeradwyo a mabwysiadu cynlluniau SuDS⁷. Un pryder penodol yw'r diffyg cyfrifoldebau clir dros gynnal a gweithredu systemau draenio dŵr wyneb nad ydynt yn cael eu diffinio fel draeniau piben neu garthffos traddodiadol sy'n cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus neu fel arall.
- 4.4 Mae SuDS yn lleihau cyfradd a chyfaint dŵr wyneb ffo o ddatblygiadau er mwyn cyd-fynd yn well â safleoedd 'maes glas'. Mae hyn gan amlaf yn golygu gollyngiadau is ac arafach o gymharu â draeniau pibell confensiynol. Maent yn ddull draenio mwy cynaliadwy a gwydn ac ymhlith yr elfennau nodweddiadol mae pyllau, palmentydd athraidd a phantiau⁸.
- 4.5 Mae Atodlen 3 Deddf 2010 yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr geisio cymeradwyaeth draenio gan y Corff Cymeradwyo cyn dechrau unrhyw waith adeiladu ac iddo oblygiadau o ran draenio. Mae'n rhaid i'r Corff Cymeradwyo benderfynu a yw'r cais yn bodloni'r Safonau SuDS gorfodol. O dan y ddeddf, rhaid i bob system SuDS sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo gael ei mabwysiadu a'i chynnal gan y Corff Cymeradwyo.
- 4.6 Gellid caniatáu eithriadau i'r drefn drwy reoliadau ac mae Deddf 2010 yn caniatáu cychwyn yn raddol er mwyn rheoli'r effeithiau ar Awdurdodau Lleol a busnesau.
- 4.7 Gwnaeth adolygiad Pitt⁹, yn sgil llifogydd 2007, argymhellion penodol ynghylch dŵr wyneb ffo, gan gynnwys yr angen i:
- Egluro pwy sy'n gyfrifol am fabwysiadu a chynnal systemau draenio cynaliadwy; a
 - Dileu'r hawl awtomatig i gysylltu carthffosydd dŵr wyneb cyhoeddus (Adran 106 ac Adran 115 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991) a gaiff ei rhoi ar waith trwy Atodlen gychwyn 3 Deddf 2010.

Pam y mae angen i'r Llywodraeth ymyrryd

- 4.8 Mae'r cyfiawnhad dros SuDS a'r defnydd a wneir ohonynt wedi hen ennill eu plwyf yn y system gynllunio, sy'n cynnwys TAN 15 a Dogfen Gymeradwy H y Rheoliadau Adeiladu, yn ogystal â safonau gwirfoddol megis y Nod Ansawdd Cartrefi. Er hynny,

⁵ Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru, 2014 – 2016

⁶ <https://cdn.naturalresources.wales/media/680132/rheoli-risg-llifogydd-ac-erydiad-arfordirol-yng-nghymru.pdf?mode=pad&rnd=131267042100000000>

⁷ <https://gov.wales/docs/desh/publications/111114floodingstrategygy.pdf>

⁸ CIRIA (2015) The SuDS Manual (C753)

⁹ Swyddfa'r Cabinet (2008) The Pitt Review: Learning the Lessons from the 2007 Floods

ychedig o ddefnydd a wneir o SuDS ar hyn o bryd, ac mae hynny'n cyfyngu ar y cyfraniad y gall SuDS ei wneud i liniaru peryglon llifogydd oherwydd dŵr wyneb ffo a pherygl carthffosydd gorlawn, neu i warchod ansawdd dŵr.

4.9 Yn y gorffennol, byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau'n cael eu hadeiladu gyda draeniau ar wahân ar gyfer dŵr budr a dŵr wyneb ffo, er bod rhyw 70% o rwydwaith carthffosydd y DU yn garthffosydd cyfun, ac felly mae llawer o ddraeniau dŵr wyneb yn cysylltu â charthffosydd cyfun. Cyfran gymharol isel (tua 20-40% yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd) y gellir eu disgrifio fel rhai SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol¹⁰. Mae'r farchnad wedi bod yn araf yn cynnwys SuDS yn wirfoddol mewn cynlluniau datblygu. Mae'r farchnad wedi'i chyfyngu oherwydd:

- Methu â rhoi gwybodaeth – ar hyn o bryd, mae diffyg cysondeb o ran defnyddio'r safonau a argymhellir. Er bod rhywfaint o arfer da, mae arfer gwael i'w weld hefyd ac mae hynny'n cyfrannu at y canfyddiad fod SuDS yn ddrud ac yn peri costau nad ydynt yn hanfodol.
- Allanoldebau – mae diffyg cyswllt rhwng y rhai sy'n rheoli a/neu'n talu am ddraenio dŵr wyneb a'r rhai sy'n elwa o reoli cynaliadwy. Mae'r budd yn aml yn gyhoeddus ac yn cronni ymhellach i lawer y llif, h.y. beth ffordd o ble bynnag y mae'r glaw'n cwmpo ac yn cael ei drin;
- Diffyg gofyn statudol a threfniadau cydlynol ar gyfer mabwysiadu a chynnal a chadw'r systemau draenio – ar hyn o bryd, mae'n rhaid i'r datblygwyr neu'r awdurdodau lleol wneud trefniadau i ariannu gwaith cynnal a chadw parhaus ar SuDS, os cânt eu hadeiladu. Er hynny, mae'r trefniadau yn hyn o beth yn amrywiol iawn ac yn ad-hoc.

4.10 Yn ogystal â'r cyfyngiadau y sonnir amdanynt uchod, nid oes fawr o ysgogiadau yn y farchnad i reoli dŵr wyneb ffo:

- Mae gwaddol draenio dŵr wyneb ffo i mewn i'n carthffosydd yn golygu bod dŵr budr a dŵr wyneb ffo yn aml yn cael eu gweld fel un broblem. Ond dros y blynyddoedd diwethaf, ychedig o newid sydd wedi bod o ran faint o ddŵr y mae pob unigolyn yn ei ddefnyddio gartref¹¹ h.y. dim ond ychedig o welliant a welwyd o ran effeithlonrwydd dŵr fesul unigolyn. Ar y llaw arall, mae Ofwat yn rhagweld cynnydd sylweddol yn llifogydd carthffosydd yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol¹². Felly bydd dylanwad dŵr wyneb ffo ar ein carthffosydd (oherwydd patrwm newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â lledaeniad trefi) yn cynyddu yn unol â faint o ddŵr budr y mae angen ei drin.
- Mae cost yswiriant llifogydd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd gan daliadau pobl nad ydynt mewn perygl o gael llifogydd, ac felly nid oes cymhelliant i bobl ddefnyddio mesurau rheoli, gan gynnwys SuDS.

Amcan Polisi

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2016) Safonau anstatudol a argymhellir ar gyfer draenio cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru

¹¹ Asiantaeth yr Amgylchedd (2008) Water resources in England and Wales – current state and future pressures

¹² Mae Ofwat wedi cyhoeddi gwaith ymchwil sy'n dangos y cynnydd a ragwelir yn y llifogydd carthffosydd oherwydd y newid yn yr hinsawdd e https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2015/11/rpt_com201106mottmacsewer.pdf

4.11 Drwy gychwyn Atodlen 3, y bwriad yw:

- Gwneud darparu SuDS yn ofyniad statudol yn hytrach nag anstatudol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau ar gyfer rheoli dŵr wyneb yn y tymor hir, a sicrhau bod y safonau'n gyson;
- Rhoi sicrwydd i ddatblygwyr y bydd SuDS yn cael eu mabwysiadu heb fod angen trafodaethau hirfaith neu gostau sylweddol;
- Lleihau perygl llifogydd dŵr wyneb mewn manau penodol;
- Lliniaru'r llygredd a all ddigwydd yn sgil dŵr wyneb ffo;
- Lleihau'r pwysau ychwanegol ar garthffosydd cyhoeddus a'r angen am gapasiti ychwanegol; a
- Helpu i ddiogelu cyflenwadau dŵr.

4.12 Ymhlith y manteision eraill anuniongyrchol mae:

- Helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn arbennig **Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru** i gysylltu cymunedau trwy seilwaith cynaliadwy a chydnerth
- Cyfrannu at yr ymrwymiad i reoli ein hamgylchedd dŵr yn well a wnaed yn **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2016-2021**. Mae'n nodi hefyd bod seilwaith gwyrdd (fel SuDS) yn gyfle i fynd i'r afael â thlodi, tai a seilwaith, tra'n cyflawni amcanion tymor hir ehangach.
- Cyfrannu at yr ymrwymiad i atebion sy'n seiliedig ar natur, un o flaenoriaethau cenedlaethol **Polisi Adnoddau Naturiol (2017)** Llywodraeth Cymru ac i amcanion ehangach gan gynnwys cefnogi cymunedau cynaliadwy, hyrwyddo twf gwyrdd, cefnogi economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a chynnal cymunedau iechyd, egniol a chysylltiedig¹³.
- Cyfrannu at nodau'r **Strategaeth Ddŵr i Gymru**, sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol o ran polisi dŵr dros yr 20 mlynedd nesaf a thu hwnt.
- Cyfrannu at gyflawni amcanion **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru**
- Cydymffurfio â **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**, sy'n gosod dyletswyddau i wneud "*datblygu cynaliadwy*" sy'n gyson â nodweddion SuDS yn ofynnol ar gyfer datblygiadau newydd.
- Cydymffurfio â'r ddyletswydd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau a sefydlwyd o dan **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**.
- Helpu i gyflawni nodau **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE**.
- Lleihau llygredd aer drwy ddefnyddio mwy ar seilwaith gwyrdd, gan gyfrannu at gyflawni **Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010**.
- Helpu i gyflawni **Safonau Ansawdd Tai Cymru**, sy'n nodi bod yn rhaid i gartrefi newydd sy'n cael eu codi i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) er mwyn darparu tai cymdeithasol a thai i'w gwerthu ar y farchnad agored fod "*wedi'u lleoli mewn amgylcheddau deniadol a diogel*", defnyddio "*tirlunio meddal a chaled a phlanhigion mewn ardaloedd gwarchoddedig*" a darparu "*manau cymunedol digonol, ymarferol y gellir eu cynnal*".

¹³ Dywed y Polisi yn arbennig "gwella'r mynediad i fannau gwyrdd a darparu cyfleusterau i ddwyn pobl ynghyd yw'r ffordd orau o atal anhwylderau meddwl a gwella llesiant meddyliol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu bod dulliau iechyd cyhoeddus sy'n cynnig buddion iechyd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, megis manau gwyrdd diogel a thrafnidiaeth egniol, yn gost effeithiol ac yn darparu enillion ar fuddsoddiadau. Awgrymir hefyd gan astudiaethau fod y bobl sy'n byw'n agos at fan gwyrdd yn fwy tebygol o fod â lefel uchel o weithgarwch corfforol, ac o ddefnyddio'r man gwyrdd yn amlach.

- Helpu Cymru i gyflawni **amcanion lleihau carbon**¹⁴ ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- Creu mwy o gynefinoedd gwlyptir a mannau gwyrdd trefol i gyflawni nod y **Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a'r Cynllun Gweithredu dros Gymru** (Cynllun Adfer Natur Cymru) a'r ymrwymïadau i'r **Cyfarwyddbau Cynefinoedd ac Adar**.

Pam SuDS?

- 4.13 Rhagwelir y bydd difrod llifogydd yn sgil dŵr wyneb ffo yn cynyddu oherwydd y newid yn yr hinsawdd a threfoli¹⁵..
- 4.14 Gall SuDS leihau'r cynnydd hwn drwy storio dŵr ffo, arafu cyfradd arllwys dŵr ffo i gyrff dŵr, a helpu dŵr ffo i dreiddio i'r ddaear. Mae astudiaethau achos wedi dangos bod SuDS o dan amgylchiadau penodol yn gallu lleihau dŵr ffo gymaint â 50%¹⁶.
- 4.15 Adeiladwyd y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd yng Nghymru â charthffosydd cyfun lle mae dŵr wyneb ffo'n cymysgu â dŵr budr ac yna'n cael ei gludo i waith trin sy'n tynnu dŵr glân ohono. Yn tua hanner y rhwydwaith, mae'r systemau carthffosiaeth yn llawn neu'n orlawn.
- 4.16 Yn y sefyllfaoedd hyn, yn ystod cyfnodau o law trwm, mae'r carthffosydd cyfun hyn yn llenwi'n gyflym. Pan fydd hyn yn digwydd, mae carthffosiaeth heb ei drin a dŵr budr yn cael eu gollwng i nentydd ac afonydd drwy sianeli gorlifo (er mwyn ceisio atal llifogydd tebyg mewn eiddo). Yn ystod llifogydd, bydd hyn yn cyfuno â llifddwr ac mewn nifer fach o achosion gall hefyd achosi llifogydd yn uniongyrchol mewn cartrefi.
- 4.17 Mae graddfa'r gollyngiadau cyfreithlon wedi'i chyfyngu gan drwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cyfarwyddbau isod:
- y Gyfarwydddeb Dŵr Ymdrochi;
 - y Gyfarwydddeb Pysgod Cregyn;
 - y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr; a
 - y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.
- 4.18 Mae rhwydwaith carthffosiaeth Cymru a Lloegr yn werth rhyw £174 biliwn. Bydd angen cynyddu capasiti'r carthffosydd yn fawr er mwyn iddynt allu delio â'r cynnydd mewn llifogydd a ddisgwylir oherwydd y newid yn yr hinsawdd, lledaeniad trefi a chysylltiadau newydd. Fodd bynnag, pe na bai cysylltiadau newydd yn cael eu gwneud (drwy gyflwyno SuDS), bydd hynny'n lleihau'r pwysau ar garthffosydd ac arbed biliynau o ran buddsoddi i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth.
- 4.19 Mae SuDS yn cynnig cyfle i osgoi llawer o'r cysylltiadau newydd a datblygu seilwaith gwahanol ar gyfer carthffosydd cyhoeddus – a fyddai'n cynnig arbedion buddsoddi sylweddol.

5. Ymgynghori

¹⁴ Yn unol â'r cyngor a amlinellir gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (2017) Cyngor ar Gynllunio Targedau Carbon Cymru

¹⁵ Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol 2011

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy>

¹⁶ Gweler er enghraifft EPC (2017) Sustainable Drainage Systems on new developments, Analysis of evidence <https://gov.wales/docs/desh/publications/170209-suds-evidence-epc-final-report-en.pdf>

- 5.1 Wrth ddatblygu'r dystiolaeth i ategu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol (AERh)¹⁷, ymgynghorwyd ag ystod eang o sefydliadau a sectorau, gan gynnwys:
- Awdurdodau lleol
 - Datblygwyr ac adeiladwyr tai
 - Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth
 - Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Sefydliadau anllywodraethol a'r trydydd sector
 - Cyrff defnyddwyr
 - Academyddion
 - Gweithwyr proffesiynol yn y sector
- 5.2 Cwblhawyd AERh law yn llaw â'r Memorandwm Esboniadol hwn. Ceir rhagor o fanylion am yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn yr AERh isod (Rhan 2).

¹⁷ Gweler er enghraifft EPC (2017) Sustainable Drainage Systems on new developments, Analysis of evidence <https://gov.wales/docs/desh/publications/170209-suds-evidence-epc-final-report-en.pdf> .

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Adran	Tud.
Opsiynau polisi a ystyriwyd	12
Yr opsiwn a ffeirir	13
Dadansoddiad o gostau a buddion yr opsiynau	13
Opsiwn 1 – Gwneud Dim	19
Opsiwn 2 – Cychwyn Atodlen 3 Deddf 2010	19
Opsiwn 3 – Dull Cynllunio	36
Crynodeb o'r costau a'r buddion	45
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriadau ac ymateb y Llywodraeth	47
Asesu'r gystadleuaeth	52
Asesiadau effaith penodol	53
Adolygiad ar ôl gweithredu	58

Atodiadau

Atodiad 1 – Datblygiadau tai

Atodiad 2 – Datblygiadau masnachol a diwydiannol

Atodiad 3 – Datblygwyr yng Nghymru

6. Opsiynau polisi a ystyriwyd

6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried tri phrif opsiwn polisi (Tabl 1).

Tabl 1: Crynodeb o'r opsiynau polisi a ystyriwyd

Opsiwn polisi	Enw	Disgrifiad
1	Gwneud dim	Y waelodlin, sef parhau â'r polisi anrheoleiddiol presennol.
2	Cychwyn Atodlen 3	Ei gwneud yn orfodol defnyddio SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol ar bob datblygiad bach a mawr (mwy nag 1 annedd neu safleoedd sy'n fwy nag 0.1 hectar).
3	Dull cynllunio	Disgwyliad y bydd SuDS yn cael eu darparu ar bob datblygiad bach a mawr lle bynnag y bo hynny'n briodol a heblaw y gellir dangos bod hynny'n amhriodol. Defnyddio amodau cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio i sicrhau bod trefniadau clir ar waith ar gyfer cynnal a chadw yn ystod oes y datblygiad.

6.2 Yn ogystal â'r tri opsiwn a amlinellir uchod, trafodwyd nifer o opsiynau eraill ond ni chawsant eu cynnwys i'w hystyried yn llawn yn yr AERh. Er hynny, mae'n bosib na fydd rhai o'r rhain yn anghyson â'r opsiynau polisi a amlinellir uchod, a thrafodir y rhain yn y papur ymgynghori ehangach. Dangosir yr opsiynau hyn, a'r rheswm dros eu hepgor, yn Nhabl 2.

Tabl 2: Opsiynau a drafodwyd ond na chawsant eu cynnwys i'w hystyried yn llawn yn yr AERh

Opsiwn	Disgrifiad	Rhesymau dros beidio â'i gynnwys
Mabwysiadu gan y cwmnïau dŵr	Rheidrwydd ar gwmnïau dŵr a charthffosiaeth i fabwysiadu a bod yn gyfrifol am gynnal a chadw rhai SuDS (e.e. o dan y ddaear, perchnogol) sy'n cydymffurfio â'r safonau.	Ystyrir opsiynau ar gyfer mabwysiadu a chynnal a chadw SuDS yn wirfoddol gan gwmnïau dŵr yn y papur ymgynghori ehangach. Byddai mabwysiadu anwirfoddol yn gofyn am newid y ddeddfwriaeth sylfaenol (A104 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991), a deddfwriaeth i ddileu'r hawl awtomatig i gysylltu. Mae'n creu cymhelliant i osod systemau lle mae'n fwy sicr y cânt eu mabwysiadu (yn debygol o fod o dan y ddaear, fel yn yr Alban).
Diwygio	Sefydlu Corff Cymeradwyo i gymeradwyo SuDS, ond	Trafodir opsiynau ar gyfer diwygio Atodlen 3, e.e. drwy reoliadau a

Atodlen 3	gwahanol grwpiau'n mabwysiadu'r SuDS, megis awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth neu gymdeithasau tai, yn dibynnu ar ymarferoldeb, buddion, ayyb.	gorchmynion, yn y papur ymgynghori ehangach. Risg uchel o weithredu'n wahanol mewn gwahanol ardaloedd a dyblygu safonau. Hefyd mae rhoi cyfrifoldebau SuDS i gymaint o gyrff yn debygol o greu dryswch.
<i>Sewers for adoption</i>	Diweddarau <i>Sewers for Adoption</i> (canllawiau ar gyfer dylunio ac adeiladu carthffosydd a fabwysiedir gan Ymgymeryr Carthffosiaeth yn unol ag Adran 104 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991) i gynnwys SuDS.	Dim gofyniad gorfodol, felly'n annhebygol o newid y sefyllfa sydd ohoni'n sylweddol.

Beth yw'r opsiwn a ffefir?

- 6.3 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefir. Amcangyfrifir mai gwerth presennol net (NPV) Opsiwn 2 yw £164.9m (o £82.6m i £961.4m). Mae'n gadarnhaol awgrymu bod y buddion net i'r gymdeithas yn fwy na'r costau net i'r gymdeithas. Sero yw gwerth presennol net Opsiwn 1. Amcangyfrifir mai £54.3m yw gwerth presennol net Opsiwn 3, h.y. tua traean buddion yr opsiwn a ffefir (er bod yr ystod o £20.4m i £460.4m yn gorgyffwrdd Opsiwn 2).

7. Dadansoddi Costau a Buddion yr Opsiynau

- 7.1 Rydym wedi defnyddio canllawiau a ddarparwyd gan Drysorlys EM¹⁸ i gynnal Dadansoddiad o Gostau a Buddion y tri opsiwn polisi.
- 7.2 Tybir y bydd y cyfnod arfarnu'n para o 2018 tan 2026. Dewiswyd y flwyddyn olaf (2026) am mai dyna pryd y bydd llawer o gynlluniau datblygu lleol yng Nghymru'n dod i ben, h.y. mae mwy o sicrwydd ynglŷn â maint a graddfa datblygiadau tai a datblygiadau eraill dros y cyfnod hwn. Wrth gwrs, mae'n bosib y gellid cyfiawnhau cyfnod arfarnu hwy a gallai hynny fod yn briodol, er y byddai maint a graddfa datblygiadau newydd a newidiadau o'r tu allan yn fwy ansicr. Serch hynny, byddai mabwysiadu cyfnod hwy yn rhoi mwy o bwysigrwydd i'r effeithiau rheolaidd dros amser. Mae hyn yn cael ei ystyried drwy gynnal dadansoddiad sensitifrwydd.
- 7.3 Rhannwyd yr effeithiau hyn yn ddau gategori, naill ai:
- Effeithiau untro – tybir yr effeithiau ar ddechrau'r cyfnod arfarnu (2018); neu

¹⁸ Trysorlys EM (2011) Green Book

- Effeithiau rheolaidd – tybir y bydd yr effeithiau'n digwydd bob blwyddyn (o 2018 tan 2026 yn gynwysedig).
- 7.4 Yn unol â chanllawiau Trysorlys EM, mae cyfradd ddisgownt o 3.5% wedi'i defnyddio ar gyfer costau a buddion yn y dyfodol, er mwyn cyfrifo gwerth presennol yr effeithiau. Mae newid y gyfradd hon yn cael ei ystyried drwy gynnal dadansoddiad sensitifrwydd.
- 7.5 Mae'r cyfansymiau a amcangyfrifir yn yr AERh wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfateb yn union i'r gwerthoedd yn y tablau cysylltiedig.
- 7.6 Mae'r AERh yn rhoi pwyslais ar y costau a'r buddion ychwanegol/ymylol sy'n gysylltiedig ag opsiynau 2 a 3. Felly, nid yw unrhyw gostau/buddion o dan Opsiwn 1 (yr opsiwn 'Gwneud Dim') yn ychwanegol at y sefyllfa bresennol a thybir eu bod yn sero.
- 7.7 Ystyriwyd y costau a'r buddion a fyddai'n cronni i nifer o grwpiau a sefydliadau allweddol, sef:
- Llywodraeth Cymru
 - Awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo
 - Datblygwyr
 - Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth
 - Perchnogion/meddianwyr eiddo
 - Cyfoeth Naturiol Cymru
 - Y boblogaeth gyffredinol
- 7.8 Mae'r effeithiau penodol a ystyriwyd yn yr AERh yn seiliedig ar gyswllt â rhanddeiliaid, ystod o waith blaenorol, gan gynnwys Defra (2010)¹⁹, Llawlyfr SuDS²⁰ ac offeryn buddion SuDS (BeST) CIRIA, ynghyd â gwybodaeth arbenigol. Ceir rhestr lawn o'r effeithiau a ystyriwyd yn Nhabl 3.

Tabl 3: Yr effeithiau a ystyriwyd (rhestr lawn)

Effeithiau posib	Disgrifiad
Adeiladu	Adeiladu SuDS sy'n cydymffurfio
Ffioedd (datblygwyr)	Ffi gwneud cais/cymeradwyo/ardystio/archwilio/mabwysiadu
Cymryd tir	Cymryd tir ychwanegol drwy SuDS
Sefydlu (datblygwyr)	Meithrin gallu, uwchsgilio a hyfforddi
Taliadau cysylltu (datblygwyr)	Osgoi ceisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb
Mabwysiadu, gweithredu a	Llai o weithredu a monitro, a sicrwydd ynghylch mabwysiadu, gan arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y broses gynllunio a'r

¹⁹ Cychwyn Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 3 ar gyfer Draenio Cynaliadwy: Asesiad Effaith

²⁰ CIRIA (2015) The SuDS Manual (C753)

monitro (datblygwyr)	gwaith datblygu, yn ogystal â llai o ymwneud neu ymwneud symlach ag ystod gymhleth o fuddiannau, gan gynnwys cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Prifffyrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru.
Sefydlu (awdurdodau lleol / cyrff cymeradwyo)	Sefydlu corff cymeradwyo, gan gynnwys gweinyddu, cyfrifyddiaeth, ffioedd cyfreithiol, taliadau cofrestru, hysbysebu, gwaith hyrwyddo, meithrin cyswllt, hyfforddi staff, ayyb.
Gweithredu a monitro (awdurdodau lleol / cyrff cymeradwyo)	Gweithredu a chynnal a chadw SuDS
Mabwysiadu (awdurdodau lleol / cyrff cymeradwyo)	Dyletswydd/cyfrifoldeb ychwanegol i gynnal a chadw, ond efallai y byddai risg is cynlluniau amddifad neu segur yn gwrthbwysu hynny
Refeniw (awdurdodau lleol / cyrff cymeradwyo)	Refeniw o ffioedd gwneud cais/cymeradwyo
Monitro a gorfodi (awdurdodau lleol / cyrff cymeradwyo)	Pob agwedd ar fonitro a gorfodi SuDS, gan gynnwys apeliadau a sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn (e.e. palmentydd athraidd a ffosydd cerrig)
Ymgynghori (awdurdodau lleol / cyrff cymeradwyo)	Costau ychwanegol ymgynghori wrth i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ddod yn ymgynghoreion statudol ym mhob cais cynllunio ar gyfer draenio dŵr wyneb. Hefyd, costau yn sgil amodau cynllunio/cytundebau ariannu ychwanegol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r system ddraenio ar bob datblygiad.
Ymgynghori (eraill)	Costau ychwanegol ymgynghori ar geisiadau cynllunio i ymgynghoreion statudol ac eraill. Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r gofynion ymgynghori'n cael eu bodloni drwy gyngor sefydlog, fel sy'n digwydd mewn prosesau cynllunio ar hyn o bryd. Felly, ni ddisgwylir costau ychwanegol sylweddol yn sgil y newidiadau a gynigir.
Sylfaen asedau (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth)	Cost cyfle oherwydd cynnydd rhagweladwy yn y sylfaen asedau, y gall cwmnïau wneud elw yn ei sgil
Taliadau cysylltu (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth)	Llai o refeniw oherwydd ceisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb
Seilwaith	Lleihau/gohirio'r angen i fuddsoddi yn y dyfodol yn y seilwaith carthffosiaeth, lleihau costau gweithredu a monitro carthffosydd confensiynol (e.e. pwmpio, trin) a gwella'r gallu i weithredu mewn modd integredig o ran systemau dŵr trefol.

Monitro a gorfodi (cwmnïau dŵr a charthffosiaeth)	Lleihau'r angen i fonitro a gorfodi cysylltiadau carthffosiaeth
Taliadau dŵr wyneb	Lleihau'r taliadau a delir gan berchnogion/meddianwyr eiddo i ddraenio dŵr wyneb
Perygl llifogydd	Osgoi difrod ac effeithiau cysylltiedig (e.e. ar iechyd seicolegol) am fod llai o berygl llifogydd
Amwynder	Datblygiadau'n fwy deniadol ac yn brafiach byw ynddynt
Gweithredu a monitro (perchnogion / meddianwyr eiddo)	Cyfrifoldebau ychwanegol am ddŵr wyneb ar gwrtiliau
Tymheredd adeiladau	Effaith SuDS ar oeri (yn yr haf) neu inswleiddio (yn y gaeaf)
Troseddu	Llai o droseddu yn erbyn eiddo neu bobl
Arafu traffig	Risg damweiniau ffyrdd neu gyfleoedd hamddena ar y stryd
Torri deddfwriaeth	Osgoi risg o fynd yn groes i gyfarwyddebau'r UE ynghylch ansawdd dŵr
Twf	Twf economaidd
Galluogi datblygiadau	Cyfrannu at dargedau tai fforddiadwy
Apeliadau	Costau sefydlu a chynnal Arolygiaeth Gynllunio i ymdrin ag apeliadau
Buddion ehangach	Yn gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gan gynnwys Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, ayyb.
Casglu dŵr glaw	Lleihau'r llif, llygredd neu ddefnyddio'r prif gyflenwad
Twristiaeth	Pa mor ddeniadol yw safleoedd twristiaeth
Rheoleiddio	CNC yn fwy abl i ymdrin â llygredd gwasgaredig a pherygl llifogydd dŵr wyneb, a sicrhau buddion i ecosystemau
Perygl llifogydd	Mwy o berygl o lifogydd mewn mannau cyhoeddus (e.e. ffyrdd) oherwydd gormodiant
Bioamrywiaeth	Cynefinoedd a chyfleoedd newydd neu well i fywyd gwylt
Carbon	Lleihau neu ddal a storio allyriadau nwyon tŷ gwydr oherwydd llai o bwmpio/trin neu blannu newydd/ychwanegol
Addysg	Mwy o gyfleoedd i ddysgu a datblygu
Newid yn yr hinsawdd	Gallu lliniaru neu addasu'n well i effeithiau disgwylidig newid yn yr hinsawdd

Swm y dŵr	Mwy o ddŵr wyneb neu ddŵr daear ar gael i'w dynnu, neu i helpu i liniaru sychder/prinder dŵr
Iechyd	Gwella iechyd a lles am fod mwy o fannau gwyrdd y mae modd eu cyrraedd a'u defnyddio'n fwy hwylus, neu, yn dibynnu ar y math o SuDS a ddefnyddir, gwella ansawdd yr aer a rheoli'r tymheredd yn well (e.e. defnyddio toeon gwyrdd)
Hamdden	Cyfleoedd hamdden gwell (e.e. cerdded, pysgota, chwaraeon dŵr)
Ansawdd dŵr	Llai o garthffosiaeth/dŵr wyneb yn gorlifo a dŵr wyneb yn ymdreiddio'n naturiol cyn iddo gyrraedd cyrsiau dŵr, sy'n gwella ansawdd dŵr wyneb, daear, aberol neu arfordirol, ac yn cyd-fynd ag amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

7.9 Defnyddiwyd dull cymesur, a chafodd yr effeithiau uchod eu 'sgrinio' i asesu eu harwyddocâd. Lle mae'r costau a'r buddion yn debygol o fod yn fach, neu lle'r ystyrir nad yw'r effeithiau ond yn debygol o effeithio ar ychydig o sefydliadau/cwmnïau, neu ar lawer o sefydliadau/cwmnïau i raddau bach iawn, ni roddwyd gwerth iddynt. Rhoddwyd gwerth i effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol gan ddefnyddio BeST.

7.10 Mewn llawer o achosion, ni ragwelir newid net cyffredinol, er y disgwylir rhywfaint o ailddosbarthu ('trosglwyddo' costau a buddion o un grŵp i un arall). Yn yr achosion hyn, mae'r effeithiau wedi eu hasesu yn yr AERh.

7.11 At ddibenion yr AERh, sy'n ymwneud ag effeithiau net ar draws yr economi, mae amcangyfrifon crynswth o'r costau a'r buddion ledled y wlad yn briodol. Er hynny, rydym yn cydnabod y bydd effaith y cynigion yn wahanol ar y grwpiau a'r sefydliadau unigol sy'n gysylltiedig â'r rhestr ym mharagraff 7.7.

7.12 Mae dwy elfen i bob effaith y rhoddwyd gwerth iddi yn yr AERh:

- Amcangyfrif wedi'i feintioli o'r effaith flynyddol; a
- Gwerth uned ariannol.

Mae'r rhain yn cael eu lluosu i gyfrifo gwerth ariannol blynyddol i bob effaith sylweddol. Lle y bo modd, ystyrir amcangyfrifon isel ac uchel ar gyfer pob elfen (yn ogystal â'r amcangyfrif canol neu orau). O ganlyniad, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ystod ar gyfer pob gwerth ariannol blynyddol.

Gwnaethpwyd dadansoddiad sensitifrwydd pellach hefyd, i ystyried newidiadau i bamedrau allweddol y gyfradd ddisgownt a'r cyfnod asesu.

7.13 Yn y dadansoddiad a'r cyflwyniad isod, mae effeithiau â gwerth cadarnhaol yn dangos budd, ac effeithiau â gwerth negyddol yn dangos cost.

Tybiaethau

7.14 Nodir y tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr AERh yn Nhabl 4.

Tabl 4: Tybiaethau allweddol yr AERh

Tybiaethau cyffredinol	
1	Disgwylir i newidiadau gweinyddol fod yn niwtral o ran cost
2	Cyflwynir yr holl effeithiau y rhoddwyd gwerth iddynt fel buddion. Felly, mae costau'n ymddangos fel gwerthoedd negyddol.
3	Asesir buddion ehangach sylweddol drwy ddefnyddio BeST. Mae'r rhain yn cynnwys amwynder, addysg a charbon.
4	Mae datblygiadau masnachol a diwydiannol yn cynnwys y rhai sydd dros 0.1ha (100m ²).
5	Tybir bod buddion yn dechrau cronni o 2018 ymlaen, sef blwyddyn gyntaf y cyfnod arfarnu.
6	Cynhelir yr asesiad hyd at 2026, sef y flwyddyn y bydd y rhan fwyaf o gynlluniau datblygu lleol yn dod i ben yng Nghymru.
7	Mae gwerthoedd hanesyddol wedi eu diweddarau i brisiau 2016 gan ddefnyddio cyfrifiannell chwyddiant ar-lein Banc Lloegr.
8	Mae cyflog cyfartalog wedi'i bwysoli a chostau cysylltiedig â chyflog i gyflogwyr yn sgil penodi swyddog corff cymeradwyo yn amrywio o £30,369 (cyflog cyfartalog peiriannydd sifil) i £61,467 (Defra, 2010) (£72,326 ar brisiau 2016), cymedr (canol) £51,348. Mae cyflogau'n debygol o amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru.
9	Costau cynnal cyrff cymeradwyo – Yn seiliedig ar DEFRA (2010) tybir bod 1 aelod o staff llawn amser (CALI) i bob 100 o geisiadau draenio mawr y flwyddyn neu 150 o geisiadau draenio bach a mawr y flwyddyn.
10	Nifer cyfartalog y ceisiadau y bydd angen cymeradwyaeth corff cymeradwyo arnynt fydd rhwng 100 a 150 (amcangyfrif canol 125) y flwyddyn (er y cydnabyddir y gall awdurdodau unigol lleol weld cryn dipyn yn llai neu'n fwy o geisiadau na'r cyfartaledd hwn).
11	Y sefyllfa bresennol (gwaelodlin) yn cynnwys SuDS sy'n cydymffurfio â'r safonau mewn 20% i 40% o ddatblygiadau newydd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gallai hyn fod yn optimistaidd (felly gallai buddion y ddau opsiwn polisi fod yn fwy na'r hyn a amcangyfrifir yma).
12	Bydd yr opsiwn cynllunio yn golygu bod SuDS sy'n cydymffurfio â'r safonau mewn 30% (isel), 40% (canol) neu 50% (uchel) o ddatblygiadau newydd.
13	Mae'r amcanestyniadau ar gyfer datblygiadau tai i'w gweld yn Atodiad 1, ac ar gyfer datblygiadau masnachol a diwydiannol yn Atodiad 2. Mae'r amcanestyniadau hyn at ei gilydd yn uwch na'r gwaith adeiladu gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly gallent fod yn heriol i'w cyflawni.
14	Mae'r dystiolaeth ynghylch costau adeiladu a gweithredu'n seiliedig i raddau helaeth ar adroddiad EPC (2017). Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gymhariaeth o gostau defnyddio SuDS a pheidio â defnyddio SuDS ar lefel y cynllun/datblygiad cyfan, yn hytrach na chostau mesurau neu dechnolegau penodol.

Opsiwn 1: Gwneud dim

- 7.15 Dyma'r opsiwn sylfaenol (y waelodlin) ac mae'n golygu parhau â'r polisi anrheoleiddiol presennol.
- 7.16 Er y bydd costau a buddion ynghlwm wrth yr opsiwn hwn (er enghraifft wrth i drefi dyfu neu oherwydd newid yn yr hinsawdd), tybir y byddant yn cael yr un effaith ar bob opsiwn. Felly, ni ystyrir eu bod yn ychwanegol ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi yn yr AERh.

Opsiwn 2: Cychwyn Atodlen 3

- 7.17 Dyma'r opsiwn a ffefrir ac mae'n golygu gwneud defnyddio SuDS sy'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol yn orfodol ym mhob datblygiad bach a mawr (mwy nag 1 annedd neu safleoedd sy'n fwy na 0.1 hectar).
- 7.18 Ceir crynodeb o'r effeithiau yr ystyrir eu bod yn debygol o dan Opsiwn 2 yn Nhabl 5 isod. Mae hyn hefyd yn cynnwys y grŵp y mae'n effeithio arno, disgrifiad o'r effaith, a yw'r effaith yn debygol o fod yn gost neu'n fudd i'r grŵp y mae'n effeithio arno, a yw'r effaith yn un untro neu'n rheolaidd, a roddwyd gwerth iddi a sylwadau'n nodi'r rhesymau dros hyn.

Tabl 5: Effeithiau Opsiwn 2

Grŵp	Effaith	Disgrifiad	Cost neu Fudd?	Untro neu eolaidd?	Gwerth yn yr AERh?	Sylwadau
Datblygwyr	Adeiladu	Adeiladu SuDS sy'n cydymffurfio	Budd	Rheolaidd	Oes	Mae tystiolaeth o adroddiad EPC (2017) ²¹ yn awgrymu bod y costau cyfalaf yn is ar gyfer SuDS sy'n cydymffurfio nag ar gyfer systemau confensiynol. Gallai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth weld rhywfaint o'r budd hwn, felly mae'n bosib hefyd y byddai rhywfaint o effaith aiddosbarthu.
	Ffioedd	Ffi gwneud cais/ cymeradwyo/ardystio/archwilio/mabwysiadu	Cost	Rheolaidd	Oes	Disgwylir y bydd newidiadau gweinyddol yn niwtral o ran cost, felly bydd costau'n cael eu gwrthbwysio gan reffeniw'r corff cymeradwyo ac ni fydd newid net cyffredinol. Er hynny, bydd effaith aiddosbarthu felly bydd angen asesu'r effeithiau.
	Cymryd tir	Tir ychwanegol sy'n cael ei gymryd ar gyfer SuDS	Cost	Rheolaidd	Oes (sensitifrwydd yn unig)	Mae CIWEM (2017) yn dweud: <i>"We consider that arguments for not delivering SuDS on the basis of site constraints may be overstated... with good planning there may be no additional requirement for land or that the additional land needed for SuDS can be small and affordable"</i> . Os yw SuDS yn cael eu cynllunio fel rhan o'r datblygiad o'r cychwyn, ac os yw hi'n glir fod SuDS yn un o ofynion y broses gynllunio, nid yw'n ymddangos bod unrhyw effaith ar nifer yr unedau, ac ymddengys bod hon yn gost

²¹ <https://gov.wales/docs/desh/publications/170209-suds-evidence-epc-final-report-en.pdf>

						ganfyddedig ac felly ni roddwyd gwerth iddi. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a gafwyd wedi hynny gan y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (HBF) ar sail gwybodaeth a ddarparwyd cyn hynny gan Defra, yn awgrymu bod enghreifftiau lle bo SuDS wedi lleihau nifer yr unedau mewn datblygiadau. Defnyddir y dystiolaeth felly i gynnal dadansoddiad sensitifrwydd.
	Sefydlu	Meithrin gallu, uwchsgilio a hyfforddi	Cost	Untro	Oes	Cynnwys yn yr AERh.
	Taliadau cysylltu	Osgoi ceisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb	Budd	Rheolaidd	Oes	Gallai unrhyw ostyngiad posib yn refferiw'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth wrthbwysu hyn.
	Mabwysiadu, gweithredu a monitro	Llai o weithredu a monitro, a sicrwydd o ran mabwysiadu, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y broses gynllunio a'r gwaith datblygu, yn ogystal â llai o ymwneud neu ymwneud symlach ag ystod gymhleth o fuddiannau, gan gynnwys cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, yr Awdurdod Cynllunio, yr Awdurdod Priffyrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi a fesurir yr effaith yn drylwyr.
Awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo	Sefydlu	Sefydlu corff cymeradwyo, gan gynnwys gweinyddu, cyfrifyddiaeth, ffioedd cyfreithiol, taliadau cofrestru, hysbysebu, gwaith hyrwyddo, meithrin cyswllt, hyfforddi staff ayyb.	Cost	Untro	Oes	Cynnwys yn yr AERh.
	Gweithredu a monitro	Gweithredu a chynnal a chadw SuDS	Budd	Rheolaidd	Oes	Mae tystiolaeth yn adroddiad EPC yn awgrymu bod y costau gweithredu a monitro'n is ar gyfer SuDS sy'n cydymffurfio nag ar gyfer systemau confensiynol. Gallai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth weld rhywfaint o'r budd hwn, felly mae'n bosib y byddai rhywfaint o effaith aildosbarthu.

	Mabwysiadu	Dyletswydd/cyfrifoldeb ychwanegol i gynnal a chadw, ond efallai y gallai risg is cynlluniau amddifad neu segur wrthbwysu hynny	Cost neu fudd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
	Refeniw	Refeniw o ffioedd gwneud cais/cymeradwyo	Budd	Rheolaidd	Oes	Disgwylir i newidiadau gweinyddol fod yn niwtral o ran cost, felly bydd y buddion yn cael eu gwrthbwysu gan gostau datblygwyr ac ni fydd newid net cyffredinol. Er hynny, bydd effaith aiddosbarthu felly bydd angen asesu'r effeithiau.
	Monitro a gorfodi	Pob agwedd ar fonitro a gorfodi SuDS, gan gynnwys apeliadau a sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn (e.e. palmentydd athraidd a ffosydd cerrig)	Cost	Rheolaidd	Oes	Gallai unrhyw gynnydd posib yn refeniw'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth wrthbwysu hyn.
Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth	Sylfaen asedau	Cost cyfle oherwydd cynnydd rhagweladwy yn y sylfaen asedau, y gall cwmnïau wneud elw yn ei sgil	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Byddai unrhyw arbedion i gwmnïau'n cael eu dychwelyd i'r cwsmeriaid drwy broses reoleiddiol, felly ni fyddai unrhyw enillion net.
	Taliadau cysylltu	Llai o refeniw o geisiadau/taliadau cysylltu dŵr wyneb	Cost	Rheolaidd	Nac oes	O dan yr opsiwn hwn, byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau'n dal i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus gyfun/fudr, felly mae'n debyg y byddai angen o hyd i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth roi caniatâd a chodi tâl am gysylltiadau ac archwilio (er y gallai cwmnïau weld ffioedd mabwysiadu'n gostwng). Felly ni roddwyd gwerth i unrhyw effeithiau posib.
	Seilwaith	Lleihau/gohirio'r angen i fuddsoddi yn y dyfodol yn y seilwaith carthffosiaeth, lleihau costau gweithredu a monitro carthffosydd confensiynol (e.e. pwmpio, trin) a gwella'r gallu i arfer dull gweithredu integredig o ran systemau dŵr trefol.	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Wedi ei gynnwys yn barod i raddau helaeth mewn budd adeiladu i ddatblygwyr a budd gweithredu a monitro i awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo.

	Monitro a gorfodi	Lleihau'r angen i fonitro a gorfodi cysylltiadau carthffosiaeth	Budd	Rheolaidd	Nac oes	O dan yr opsiwn hwn, byddai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau'n dal i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus gyfun/fudr, felly mae'n debyg y byddai gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yr un sylfaen asedau o hyd ac y byddai angen iddynt wneud yr un faint o archwilio, monitro a gorfodi. Felly ni roddwyd gwerth i unrhyw effeithiau posib.
Perchnogion/meddi anwyr eiddo	Taliadau dŵr wyneb	Lleihau'r taliadau a delir am ddraenio dŵr wyneb	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Mae unrhyw ostyngiad yn y taliadau a delir i'r cwmni dŵr a charthffosiaeth yn debygol o gael ei wrthbwysio gan dâl rheoli datblygu, felly ni fyddai effaith gyffredinol.
	Perygl llifogydd	Osgoi difrod ac effeithiau cysylltiedig (e.e. ar iechyd seicolegol) am fod llai o berygl llifogydd	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dylai unrhyw fudd fod yr un fath ar gyfer SuDS a systemau pibellau (oni bai bod y safonau'n uwch ar gyfer eiddo nag ar gyfer carthffosydd, sy'n anhebygol). Felly, ni ragwelir unrhyw fudd net.
	Amwynder	Datblygiadau'n fwy deniadol ac yn brafiach byw ynddynt	Budd	Rheolaidd	Oes	Rhoddyd gwerth iddynt o dan BeST gan ddefnyddio amcangyfrifon o barodrwydd preswylwyr i dalu am 'wella strydoedd drwy wyrddu'. Gallai'r rhain gynnwys elfennau o fuddion eraill i'r boblogaeth ehangach (yn enwedig bioamrywiaeth, iechyd, hamdden ac ansawdd dŵr), felly ni roddwyd gwerth iddynt ar wahân oherwydd y risg o gyfrif ddwywaith.
	Gweithredu a monitro	Cyfrifoldebau ychwanegol am ddŵr wyneb ar gwrtiliau	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Yn wahanol i bibellau, ni ellir anwybyddu SuDS, ac er y gallai hyn gael ei weld fel cost ychwanegol/

						niwsans (i ddechrau o leiaf), gallai hefyd fod yn fudd gan fod llai o debygolrwydd/canlyniadau i broblemau yn deillio o SuDS. Yn gyffredinol felly, cymerir nad oes effaith net.
	Tymheredd adeiladau	Effaith SuDS ar oeri (yn yr haf) neu inswleiddio (yn y gaeaf)	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
	Troseddu	Llai o droseddu yn erbyn eiddo neu bobl	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
	Arafu traffig	Risg damweiniau ffyrdd neu gyfleodd hamdden ar y stryd	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
Llywodraeth Cymru	Torri deddfwriaeth	Osgoi risg torri cyfarwyddebau'r UE sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
	Twf	Twf economaidd	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
	Galluogi datblygiadau	Cyfrannu at dargedau tai fforddiadwy	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Mae unrhyw ostyngiad mewn costau adeiladu tai wedi ei gyfrif yn barod (o dan datblygwyr') a gallai hyn gael ei wrthbwyso gan ostyngiad posib mewn dwysedd tai (sydd hefyd wedi'i gyfrif o dan 'datblygwyr').
	Apeliadau	Costau sefydlu a chynnal Arolygiaeth Gynllunio i ymdrin ag apeliadau	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Gwaith yr Arolygiaeth Gynllunio yn cael ei ariannu drwy adennill costau ar sail achosion unigol. Dim costau 'sefydlu' nac effeithiau ar Lywodraeth Cymru.
	Buddion ehangach	Yn gysylltiedig â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach ayyb.	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Yn gorgyffwrdd ag effeithiau ar 'y boblogaeth gyffredinol', felly byddrisg uchel o'u cyfrif ddwywaith os cânt eu cynnwys yma.
	Casglu dŵr glaw	Lleihau'r llif, llygredd neu ddefnyddio'r prif gyflenwad	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
	Twristiaeth	Pa mor ddeniadol yw safleoedd twristiaeth	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na mesur yr effaith yn drylwyr.
Cyfoeth Naturiol	Rheoleiddio	Gallu ymdrin yn well â llygredd gwasgaredig a	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Dim digon o dystiolaeth i nodi na

Cymru		pherygl llifogydd dŵr wyneb a sicrhau budd i ecosystemau				mesur yr effaith yn drylwyr.
Y boblogaeth gyffredinol	Perygl llifogydd	Mwy o berygl llifogydd mewn mannau cyhoeddus (e.e. ffyrdd) oherwydd gormodiant	Cost	Rheolaidd	Nac oes	Tebygol o gael ei wrthbwysu gan unrhyw leihad yn y risg o lifogydd yn sgil gorlwytho hydrolog oherwydd bod llai o gyfaint yn y system garthffosiaeth.
	Bioamrywiaeth	Cynefinoedd a chyfleoedd newydd neu well i fywyd gwylt	Budd	Rheolaidd	Nac oes	Ni roddwyd gwerth oherwydd y posibiliad o gyfrif ddwywaith gyda budd amwynder i berchnogion/meddianwyr eiddo.
	Carbon	Lleihau neu ddal a storio allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil llai o bwmpio/trin neu blannu newydd/ychwanegol	Budd	Rheolaidd	Oes	Cynnwys yn yr AERh
	Addysg	Mwy o gyfleoedd i ddysgu a datblygu	Budd	Rheolaidd	Oes	Cynnwys yn yr AERh
 - Ar y cam hwn, rydym wedi penderfynu cynnwys yn y rheoliadau yr amserlen arfaethedig o bedair wythnos y mae'n rhaid i ymgwymerwyr statudol roi gwybod i'r corff cymeradwyo am waith a allai effeithio ar weithredu'r SuDS. Yn y dyfodol, byddwn yn monitro'r sefyllfa a fydd yn cynnwys gwahodd tystiolaeth all llywio'r adolygiad ar ôl gweithredu.
 - Rydym wedi diwygio'r amserlen yn y rheoliadau i ganiatáu cyfnod o dair blynedd i'r corff cymeradwyo benderfynu a yw'n fodlon bod y SuDS wedi cael ei ailsefydlu yn dilyn gwaith gan ymgwymerwr statudol, a'i fod yn gweithredu yn unol â Safonau SuDS. Mae hyn yn cyd-fynd â darpariaethau tebyg o dan ddeddfwriaeth priffyrdd.

Gweithdai ymgynghori

- 8.30 Cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghori ledled Cymru ym mis Chwefror 2018, a daeth tua 120 o bobl i'r sesiynau yn cynrychioli llywodraeth leol (60%), peirianwyr sifil ac ymgynghorwyr, y diwydiant dŵr, y sector adeiladu, ymgynghorwyr dylunio/cynllunio, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a rheoleiddwyr. Nid oedd unrhyw un o'r diwydiant amaethyddol yn bresennol, er eu bod wedi cael gwahoddiad.
- 8.31 Mae adroddiad llawn am y gweithdai ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gais. I grynhoi, trafodwyd y themâu a ganlyn, sydd wedi llywio ein hymagwedd at weithredu:
- Effeithiau costau i awdurdodau lleol ac i ddatblygwyr,
 - Pwysigrwydd rhannu gwybodaeth am y broses newydd
 - Hyfforddiant a'r angen i gael staff medrus

- Cysondeb ar draws y cyrff cymeradwyo SuDS
- Delio ag adeiladau sengl ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu
- Cysylltiadau gyda'r broses gynllunio a'r hyn sy'n ei wneud yn wahanol i rôl y cyrff cymeradwyo - proses gymeradwyo dechnegol sy'n annibynnol ar gynllunio
- Gofynion cyfarwyddyd a gwybodaeth ar gyfer SAB

9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

9.1 Nodir yr effeithiau disgwylidiedig ar gystadleuaeth yn Nhabl 27 isod.

Tabl 27: Prawf hidlo'r gystadleuaeth

Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y mae'r rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran fwy na 10% o'r farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y mae'r rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran fwy nag 20% o'r farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y mae'r rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai'r costau rheoleiddio'n effeithio gryn dipyn yn fwy ar rai cwmnïau na'i gilydd?	Na fyddent
C5: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, a newid nifer neu faint busnesau/sefydliadau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoleiddio'n creu costau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr eu talu ar hyn o bryd?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoleiddio'n creu costau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr eu talu ar hyn o bryd?	Na fyddai
C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodweddiadol o'r sector?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu gallu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrediad neu leoliad eu cynnyrch?	Byddai

9.2 Mae'r rheoleiddio'n debygol o arwain at symud oddi wrth ddefnyddio cynnyrch SuDS perchnogol o dan y ddaear, ac atebion draenio peirianyddol mwy traddodiadol, tuag at atebion a chynnyrch newydd, mwy gwyrdd uwchben y ddaear. Er hynny, mae'r dadansoddiad a gyflwynir yma'n awgrymu bod y newid hwn yn debygol o arwain at gostau is i ddatblygwyr, eu cadwyni cyflenwi ac eraill. Yn ogystal, ni ragwelir ac ni ddisgwylir cyfyngiadau ar fath na phris y cynnyrch presennol neu gynnyrch newydd sy'n gysylltiedig â'r rheoleiddio.

9.3 I grynhoi, mae'r rheoleiddio'n annhebygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth.

10. Asesiadau Effaith Penodol

Prawf o'r Effaith ar Gwmnïau Bach

- 10.1 Mae'r costau sefydlu i ddatblygwyr yn seiliedig ar amcangyfrif o 5 (isel), 10 (canol) neu 15 (uchel) diwrnod unigolyn o amser pontio untro (ar gyfer hyfforddiant, sgiliau, ayyb.). Mae'r costau sefydlu i awdurdodau lleol/cyrff cymeradwyo'n seiliedig ar gost 1 CALI am tua 3 mis, ynghyd â chostau sefydlu ychwanegol (e.e. TG, hyfforddiant). Mae'r costau hyn yn debygol o gael mwy o effaith ar gwmnïau bach neu awdurdodau lleol sydd â llai o staff na sefydliad mwy.
- 10.2 Er hynny, mae'r dadansoddiad a gyflwynir yma'n awgrymu y byddai costau adeiladu is ac effeithiau eraill yn gwneud iawn am unrhyw gostau ychwanegol.

Asesiad Nwyon Tŷ Gwydr

- 10.3 Mae'r opsiwn a ffeirir yn debygol o gynnig buddion o ran addasu i newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effaith. Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn y fan hon yn awgrymu y gellid dal a storio rhwng 1.9 a 12.8 mil o dunelli o garbon o dan yr opsiwn a ffeirir dros y cyfnod wyth mlynedd a ddadansoddwyd, er y byddai'r budd hwn yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Prawf o'r Effaith ar Faterion Amgylcheddol Ehangach

- 10.4 Fel y nodwyd yn y dadansoddiad a'r adran ar effeithiau heb werth ariannol uchod, mae'n debygol y bydd defnyddio mwy ar SuDS o ansawdd da sy'n cydymffurfio o dan yr opsiwn a ffeirir yn cael nifer o effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd, gan gynnwys cynnal bioamrywiaeth mewn mannau penodol, lleihau llygredd aer a gwella ansawdd dŵr.
- 10.5 Ceir rhagor o dystiolaeth ynghylch buddion posib niferus ac eang SuDS yn yr adroddiad EPC. At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos bod y SuDS a ddefnyddir mewn datblygiadau newydd yng Nghymru'n amrywio o ran ansawdd a pherfformiad. SuDS 'caled' yw'r rhan fwyaf ohonynt ar hyn o bryd (llawer ohonynt yn cynnwys mesurau o dan y ddaear a phyllau arafu), ac mae llai o SuDS wedi'u 'tirlunio' (â llystyfiant) a allai o bosib gynnig buddion niferus, gan gynnwys gwella bioamrywiaeth.
- 10.6 Yn yr un modd, mae'r canllawiau SuDS "Maximising the potential for people and wildlife" (RSPB a WWT, 2012)³² yn pwysleisio buddion posib SuDS o ansawdd da. Mae'n dod i'r casgliad y gallai SuDS sydd wedi'u cynllunio i gyfuno rheoli dŵr wyneb a gwella ansawdd y dŵr â buddion i bobl a bywyd gwylt, gynnig y canlynol:
- rheoli swm a nerth llif dŵr ffo er mwyn lleihau'r llif i lawr yr afon a grym dinistriol dŵr wyneb, a lleihau perygl llifogydd,

³² https://www.rspb.org.uk/Images/SuDS_report_final_tcm9-338064.pdf

- gwella ansawdd dŵr drwy leihau llygredd yn lleol ac ymhellach i lawr y nant, yr afon a'r aber,
- annog ail-lenwi afonydd a nentydd yn naturiol â dŵr daear i helpu i gynnal y llif mewn tywydd sych, a chynnal gwlyptiroedd yn y dirwedd ehangach,
- gwarchod a gwella ansawdd dŵr a chynnig cyfleoedd sylweddol i greu cynefinoedd gwlyptir,
- cefnogi llesiant pobl a chymunedau a chynyddu gwerth amwynder tir wedi'i ddatblygu, a
- mwy o sychdarthu, anweddu a thrydarthu a rheoli'r hinsawdd mewn ardaloedd trefol.

10.7 Mae nifer o astudiaethau'n tynnu sylw at bryderon allweddol am yr effeithiau sylweddol ar fywyd gwylt wrth i greaduriaid fynd yn sownd mewn systemau draenio confensiynol. Canfu arolwg diweddar³³ mewn un ardal awdurdod lleol fod cannoedd o'r achosion hyn yn digwydd mewn blwyddyn, sy'n peryglu amffibiaid a mamaliaid bach, rhai ohonynt yn rhywogaethau gwarchodedig. Awgrym yr astudiaeth oedd y dylid gosod SuDS o ansawdd da sydd wedi'u cynllunio ar gyfer bywyd gwylt, yn ogystal ag ar gyfer perygl llifogydd. Gallai'r rheidrwydd i ddefnyddio SuDS mewn datblygiadau newydd fod yn adnodd newydd gwerthfawr i atal y dirywiad diweddar yn nifer yr amffibiaid ledled y byd wrth iddynt golli eu cynefinoedd.

Prawf o'r Effaith ar Iechyd a Llesiant

10.8 Fel y nodwyd yn yr adran ar effeithiau heb werth ariannol uchod, mae'n debygol y bydd defnyddio mwy o SuDS o dan yr opsiwn a ffeirir yn cael nifer o effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Gan fod perygl o'u cyfrif ddwywaith (yn enwedig gyda buddion amwynder i berchnogion/meddianwyr eiddo), ni roddwyd gwerth ariannol i'r effeithiau hyn, er y gallent fod yn sylweddol iawn.

Yn ogystal, mae Polisi Adnoddau Naturiol (2017) Cymru'n nodi mai "gwella mynediad i fannau gwyrdd a darparu cyfleusterau i ddwyn pobl ynghyd yw'r ffordd orau o atal anhwylderau meddwl a gwella llesiant meddyliol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn awgrymu bod dulliau iechyd cyhoeddus sy'n cynnig buddion iechyd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, megis mannau gwyrdd diogel a thrafnidiaeth egniol, yn gost effeithiol ac yn darparu enillion ar fuddsoddiadau. Awgrymir hefyd gan astudiaethau fod y bobl sy'n byw'n agos at fan gwyrdd yn fwy tebygol o fod â lefel uchel o weithgarwch corfforol, ac o ddefnyddio'r man gwyrdd yn amlach."

Drwy helpu i addasu i lifogydd, tywydd eithafol a newid yn yr hinsawdd, gall SuDS leihau'r peryglon i iechyd y cyhoedd a'r beichiau sydd ynghlwm wrth hynny i'r gwasanaethau iechyd³⁴. Yn ogystal, lle y bo hynny'n addas, dylai cynlluniau SuDS

³³ PKC SuDS Biodiversity Review and Report, A Study of Mitigation, Tayside Biodiversity Partnership, Awst 2015

³⁴ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report Summary for Wales 51
<https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/UK-CCRA-2017-Wales-National-Summary.pdf>.
 PB5: Risks to people, communities and buildings from flooding

gynnwys neu fod yn gysylltiedig â mentrau sy'n cynnig buddion iechyd eraill i'r boblogaeth e.e. cynnwys creu mannau gwyrddach, glanach a thawelach, i leihau effaith sŵn amgylcheddol³⁵ a llygredd aer ar y boblogaeth a chynnig mannau y gall pobl fynd iddynt yn ystod cyfnodau o dywydd poeth.

Prawf o'r Effaith ar Hawliau Dynol

10.9 Rhagwelir na fydd yr opsiwn a ffeirir yn cael effaith ar hawliau dynol.

Prawf o'r Effaith ar Gyfiawnder

10.10 Rhagwelir na fydd yr opsiwn a ffeirir yn cael effaith ar y system gyfiawnder.

Prawf o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig

10.11 Y polisi a ffeirir yw gwneud SuDS yn orfodol ar bob datblygiad newydd. Nid oes effeithiau penodol ar gymunedau gwledig, a bydd angen cymeradwyaeth y corff cymeradwyo mewn ardaloedd trefol a gwledig ar gyfer pob datblygiad bach a mawr sy'n fwy nag annedd sengl neu adeiladu sy'n 100 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd.

Mewn ymateb i'n hail ymgynghoriad, rydym wedi ystyried yn fanwl a ddylid eithrio datblygiadau amaethyddol o'r gofyniad am gymeradwyaeth corff cymeradwyo. Mae ymchwil yn dangos bod potensial i ddatblygiadau diwydiannol elwa ar SuDS effeithiol. Dangosir y cyfleoedd ar gyfer datblygiadau diwydiannol ochr yn ochr â chategoriâu eraill o ddatblygiadau mewn tystiolaeth ac astudiaethau achos yn adroddiad EPC. Yn benodol, mae'r dadansoddiad yn dangos bod SuDS sy'n cydymffurfio â safon dda yn gallu:

- Lleihau'r llygredd sy'n llifo i ddŵr daear a ddefnyddir i ddarparu dŵr yfed,
- Gwella ansawdd dŵr trwy leihau llygredd yn lleol ac i lawr yr afon mewn nentydd, afonydd ac aberoedd,
- Rheoli nerth llif i leihau pŵer dinistriol dŵr wyneb,
- Lleihau llwyth gwaddodion mewn dŵr ffo,
- Lleihau'r perygl o lifogydd,
- Arbed ynni i wresogi ac oeri drwy gysgodi adeiladau, lleihau tymheredd yn yr haf, darparu inswleiddio yn y gaeaf a lleihau cyflymder y gwynt,
- Cyfrannu at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, neu dal a storio'r allyriadau hynny.

Ein nod yw sicrhau cyn lleied â phosibl o eithriadau o'r gofyniad am gymeradwyaeth corff cymeradwyo er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd posibl y gall SuDS eu darparu ar gyfer pob datblygiad newydd.

<http://gov.wales/docs/desh/publications/131217noise-action-plan-for-wales-cy.pdf>

³⁵ Cynllun gweithredu ynghylch sŵn i Gymru 2013–2018 Rhagfyr 2013

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epg/noiseandnuisance/environmentalnoise/noisemonitoringmapping/noise-action-plan/?skip=1&lang=cy>

Prawf o'r Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy

10.12 Mae'r opsiwn a ffeirir yn cefnogi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn gwbl gyson â hwy, a bydd yn cyfrannu at greu Cymru fwy cynaliadwy.

10.13 Disgwylir i genedlaethau'r dyfodol gael budd sylweddol o'r opsiwn a ffeirir.

10.14 Mae'n adlewyrchu'n llawn yr egwyddorion isod sydd wrth wraidd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- **Meddwl am y tymor hir:** er mwyn sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ganlyniadau hirdymor, bydd y polisi a gynnigir yn ei gwneud yn orfodol i systemau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau newydd adlewyrchu'n llawn yr angen i warchod a gwella'r amgylchedd i genedlaethau heddiw ac yfory. Un o egwyddorion y safonau cenedlaethol yw sicrhau bod dyluniad y SuDS yn rhoi ystyriaeth i effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd. Mae addasu i'r hinsawdd wrth iddi newid yn ffordd bwysig o ddiogelu bywydau ac eiddo yn y tymor hir.
- **Integreiddio:** mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod nifer o fanteision i gael SuDS o ansawdd da sy'n cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol, a fydd yn cynnwys:
 - Materion cymdeithasol – gallai SuDS arwain at wella amwynder drwy wneud datblygiadau'n fwy deniadol ac yn brafach byw ynddynt, cynnig cyfleoedd hamdden gwell, mwy o gyfleoedd addysgol i ddysgu a datblygu.
 - Materion amgylcheddol – mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai SuDS gyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwyr, neu eu dal a'u storio, ac effeithiau cadarnhaol ar ansawdd dŵr, a chyfleoedd newydd neu well o ran cynefinoedd a bywyd gwyllt.
 - Materion economaidd – drwy gadw'r ddysgl yn wastad rhwng effeithiau cadarnhaol SuDS yn y gymuned, i ddatblygwyr a deiliaid tai, a'r costau ychydig yn uwch i Awdurdodau Lleol sy'n gwneud gwaith gorfodi a monitro.
- **Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol:** mae'r opsiwn a ffeirir wedi'i ddatblygu gyda chymorth y llywodraeth, sefydliadau preifat a gwirfoddol ac unigolion sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn y sector.
- **Canolbwyntio ar atal:** mae'r opsiwn a ffeirir yn canolbwyntio ar weithredu systemau draenio cynaliadwy o ansawdd da. Rhagwelir y bydd hynny'n cael effeithiau cadarnhaol, yn amrywio o liniaru newid yn yr hinsawdd i wella iechyd a llesiant a gwarchod cynefinoedd a bywyd gwyllt.
- **Meithrin cyswllt a chynnwys pobl:** mae grŵp cynghori sy'n cynrychioli ystod eang o rhanddeiliaid yn y sector yn parhau i lywio gwaith gweithredu Atodlen 3 Deddf 2010.

Y Gymraeg

10.15 Ni ragwelir y bydd yr opsiwn a ffeirir yn cael effaith ar y Gymraeg.

Prawf o'r Effaith ar Dyletswyddau Statudol

10.16 Rhagwelir na fydd yr opsiwn a ffeirir yn cael effaith ar ddyletswyddau cydraddoldeb statudol.

11. Adolygiad ar ôl gweithredu

Bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r defnydd a wneir o'r rheoliadau hyn. Byddwn yn gofyn yn benodol i'r cyrff cymeradwyo a rhanddeiliaid eraill asesu effeithiolrwydd y rheoliadau hyn, gan gynnwys gofyn am dystiolaeth ar agweddau allweddol y rheoliadau. Byddwn hefyd yn gofyn i'r cyrff cymeradwyo ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ynghylch defnyddio ffioedd a fydd yn llywio adolygiad gan Lywodraeth Cymru ar lefel y ffioedd.

Ein bwriad yw cynnal yr adolygiad o leiaf ddwy flynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gael ar gyfer yr adolygiad.

Atodiad 1: Datblygiadau tai

Preswyl							
	Awdurdod lleol	Dyddiad mabwysiadu'r CDLI	Cyfnod y CDLI	Dyraniadau tai	Cyflawnwyd ers dechrau'r cynllun hyd at fis Ebrill 2016	Amcangyfrif o nifer y cartrefi newydd hyd at ddiwedd cyfnod y CDLI	Amcangyfrif o nifer y cartrefi newydd y flwyddyn
De Cymru							
1	Caerffili	Tach-10	2006-2021	8,625	4,239	4,386	877
2	Rhondda Cynon Taf	Maw-11	2006-2021	14,385	4,645	9,740	1,948
3	Merthyr Tudful	Mai-11	2006-2021	3964	1580	2,384	477
4	Blaenau Gwent	Tach-12	2006-2021	3,500	1,084	2,416	483
5	Pen-y-bont ar Ogwr	Med-13	2006-2021	9,690	4,589	5,101	1,020
6	Torfaen	Rhag-13	2006-2021	3,897	1888	2,009	402
7	Sir Fynwy	Chwe-14	2011-2021	4,500	1,265	3,235	647
8	Casnewydd	lon-15	2011-2026	10,350	2,697	7,653	765
9	Caerdydd	lon-16	2006-2026	41,415	13,585	27,830	2,783
10	Bro Morgannwg	Disgwylir 2017	2011-2026	9,460	1,358	8,102	810
Gorllewin Cymru							
11	Abertawe	Disgwylir 2018	2010-2025			0	-
12	Sir Gaerfyrddin	Rhag-14	2006-2021	13,352	5,606	7746	1,549
13	Ceredigion	Ebr-13	2007-2022	6,000	1,745	4255	709
14	Castell-nedd Port Talbot	lon-16	2011-2026	7,800	1,501	7798	780
15	Powys	Disgwylir 2017/18	2011-2016			0	-
16	Sir Benfro	Chwe-13	2011-2021	5,724	2,052	3672	734
Gogledd Cymru							
17	Sir y Fflint	Disgwylir 2019	2015-2030			0	-
18	Sir Ddinbych	Meh-13	2006-2021	7,000	2,227	4773	955
19	Wrecsam	Disgwylir 2018	2013-2028			0	-
20	Conwy	Hyd-13	2007-2022	6,520	2,274	4246	708
21	Gwynedd/Ynys Môn	Disgwylir 2017				0	-
Parciau Cenedlaethol							

Bannau Brycheiniog	Rhag-13	2007-2022	2,045	526	1,519	253
Arfordir Sir Benfro	Med-10	2006-2021	1,600	485	1,115	223
Eryri	Gor-11	2007-2022	800	448	352	59
CYFANSYMAU			160,627	52,295	108,332	16,182

Prif Amcanestyniadau'r Cartrefi Ychwanegol sydd eu hangen fesul cyfnod

		2011-2031	Y flwyddyn
Cyfanswm yr anheddau newydd sydd eu hangen	%	174000	8,700
Sector y farchnad	63	109000	5,500
Sector cymdeithasol	37	65000	3,300
Ffynhonnell			

Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2015) Future Need and Demand for Housing in Wales

Prif Amcanestyniadau'r Cartrefi Ychwanegol sydd eu hangen fesul cyfnod

	Y flwyddyn
Cyfanswm yr anheddau newydd sydd eu hangen	14,300
Sector y farchnad	9,200
Sector cymdeithasol	5,100

Papur Gwyn ar Dai (2012) – y strategaeth ddiweddaraf i'w chyhoeddi

Yn seiliedig ar Holmans, A. a Monk, S. (2010) Housing need and demand in Wales 2006–2026. Rhif Ymchwil Cymdeithasol 03/2010. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Datblygiadau masnachol a diwydiannol

		Diwydiannol	Masnachol
Gwirioneddol	2010	74	528
	2011	73	359
	2012	82	462
	2013	73	562
	2014	116	360
	2015	180	337
	2016	105	555
Amcanestyniadau	2017	111	455
	2018	117	454
	2019	126	432
	2020	128	447
	2021	117	469
	2022	120	451
	2023	122	451
	2024	122	450
	2025	122	453
	2026	121	455
	Ffynhonne ll	SYG, NEWOGOR New Orders for Construction: by Government Office Region (Wales), cyrchwyd Ebrill 2017	
	Nodiadau	Mae amcangyfrifon o nifer yr archebion newydd yn y diwydiant adeiladu'n ddangosydd byrdymor o gontractau adeiladu am waith adeiladu newydd a ddyfarnwyd i brif gontractwyr gan gleientiaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y DU. Mae'r amcangyfrifon yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi wedi'u haddasu'n dymhorol a heb eu haddasu'n dymhorol ar brisiau cyfredol (gan gynnwys effeithiau chwyddiant) ac ar brisiau cyson (heb gynnwys effeithiau chwyddiant). Ers chwarter 2 (Ebrill - Mehefin) 2013 mae'r data hwn wedi'i ddarparu gan Barbour ABI.	
		Amcanestyniadau'n seiliedig ar y cyfartaledd dros y 5 mlynedd blaenorol	

Ffigurau ar gyfer yr AERh

Masnachol	Diwydiannol	
Amcangyfrif o nifer y datblygiadau newydd bob blwyddyn		
117	432	Isel
122	451	Canol
128	469	Uchel

Atodiad 3: Datblygwyr yng Nghymru

Disgrifiad	SIC Cymru	Band maint gweithwyr	Mentrau	Cyfanswm
Datblygu prosiectau adeiladu	41100	0	585	910
	41100	1-4	245	
	41100	5-9	45	
	41100	10-19	25	
	41100	20 - 49	10	
	41100	50 - 99	0	
	41100	100 - 199	0	
	41101	200 - 249	0	
	41102	250 - 499	0	
	41103	500 - 999	0	
	41104	1,000 +	0	
Adeiladu adeiladau masnachol	41201	0	205	590
	41201	1-4	290	
	41201	5-9	65	
	41201	10-19	15	
	41201	20 - 49	10	
	41201	50 - 99	5	
	41201	100 - 199	0	
	41201	200 - 249	0	
	41201	250 - 499	0	
	41201	500 - 999	0	
	41201	1,000 +	0	
Adeiladu adeiladau domestig	41202	0	550	1570
	41202	1-4	710	
	41202	5-9	160	
	41202	10-19	70	
	41202	20 - 49	40	
	41202	50 - 99	20	
	41202	100 - 199	10	
	41202	200 - 249	0	
	41202	250 - 499	0	
	41202	500 - 999	0	
	41202	1,000 +	10	

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o IDBR (y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau), Swyddfa Ystadegau Gwladol

Nodiadau: Mae'r ffigurau'n cynnwys nifer fach o fentrau y mae eu pencadlys y tu allan i Gymru ond sy'n weithgar yn economaidd yng Nghymru. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r pump agosaf (felly mae'n bosib nad yw pob sero yn sero go iawn), maent ar gyfer 2016 ac wedi'u tynnu o'r IDBR (SYG). Mae'r cod SIC a ddefnyddir yn seiliedig ar ran Gymreig y busnes.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	17 Rhagfyr 2018
Pwnc:	<p>Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Adroddiad yn dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol gynradd newydd yn Llangefni yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chymeradwyaeth o'r cynnig gwreiddiol
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd R. Meirion Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Arwyn Williams
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Emrys Bebb
Aelodau Lleol:	<p>Y Cynghorydd Bob Parry Y Cynghorydd Dylan Rees Y Cynghorydd Nicola Roberts</p>

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>Rhesymau:</p> <p>Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cyhoeddodd yr Awdurdod y Rhybudd Statudol o'u bwriad i:</p> <p>a. Gyfuno dwy ysgol - Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir - mewn un ysgol newydd ar safle yn Llangefni ac y bydd yr ysgol gynradd newydd yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar 2 Hydref 2018 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig yn dilyn. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 29 Hydref 2018. Derbyniwyd 111 o wrthwynebiadau i'r cynnig uchod.</p> <p>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae angen i'r cynigydd neu'r cynigwyr, sef Cyngor Sir Ynys Môn yn yr achos hwn, gyhoeddi adroddiad yn disgrifio unrhyw wrthwynebiad a gafwyd h.y. adroddiad gwrthwynebu. Gweler yr adroddiad gwrthwynebu yn Atodiad 1.</p> <p>Roedd 109 o'r gwrthwynebiadau ar ffurf ffurflen safonol fel sydd yn Atodiad 2.</p> <p>Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn delio gyda gwrthwynebiad i rybudd statudol yn dilyn drefn sydd ynghlwm i'r Còd Trefniadaeth Ysgolion oedd wrth rym ers mis Hydref 2013.</p> <p>Felly, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, rhan 5.3, mae angen i'r Pwyllgor Gwaith</p>

drwy'r adroddiad yma -

“benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo ag addasiadau.”

Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:

i. Yn penderfynu cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol sef:

- Cynnig peidio â chefnogi Ysgol Bodffordd, Bodffordd, Ynys Môn LL77 7LZ ac Ysgol Corn Hir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7JB, sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn a sefydlu ysgol gynradd gymunedol gyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle ysgol newydd ar dir ger stad Bryn Meurig, Llangefni, LL77 7JB ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.

ii. Yn awdurdodi swyddogion i barhau gyda'r broses i

(a) adeiladu ysgol gynradd newydd yn Llangefni ar dir ger stad Bryn Meurig (yn amodol ar fod y safle'n addas);

Cefndir:

Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin, 2016, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:

- Awdurdodi swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes i'w galluogi i gynnal proses ymgynghori anffurfiol neu anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni
- Paratoi'n ddilynol nifer o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd 2016.

O'r herwydd ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Parhaodd y cyfnod ymgynghori o Hydref 3^{ydd} 2016 hyd at Dachwedd 13^{eg} 2016.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni'r 6 ysgol gysylltiedig yn ardal Llangefni dros y cyfnod hwn. Ystyriwyd 21 o opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni yn y broses ymgynghori anstatudol neu anffurfiol.

Ar ôl yr ymgynghoriad anstatudol, cafodd yr opsiynau hyn eu lleihau i 9 opsiwn a gwerthuswyd yr opsiynau hyn a'u sgorio allan o 10 yn erbyn y gyrrwyr newid a amlinellir isod.

1. Codi safonau addysgol
2. Lleihau nifer llefydd gweigion
3. Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl
4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu gorau posib
5. Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch
6. Cynyddu capasiti arweinyddol
7. Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol
8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

9. Ffactorau daearyddol a theithio

Cafodd yr opsiynau eu sgorio yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol, ac yna trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr, 2016. Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith oedd:

Awdurdodi swyddogion i fynd rhagddynt i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol lle byddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B isod.

Felly, aeth swyddogion allan i ymgynghori'n statudol ar yr opsiynau canlynol:

Opsiwn A

Byddai hwn yn seiliedig ar:

- Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.*
- Opsiwn 8, sef *addasu Ysgol Esceifiog*
- Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn*
- Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

Opsiwn B

Byddai hwn yn seiliedig ar:

- Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.*
- Opsiwn 6b, sef *adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen*
- Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn*
- Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

Roedd y cyfnod ymgynghori statudol yn digwydd rhwng 30 Ionawr at 12 Mawrth 2017.

Ar ôl 2 etholiad (etholiadau llywodraeth leol ar 4 Mai 2017 ac Etholiad Cyffredinol ar 8 Mehefin 2017), trafodwyd adroddiad ar yr ymgynghori statudol gan y Pwyllgor Gwaith. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017:

Mai Opsiwn B yw'r opsiwn a ffafir a bydd hynny'n ymgorffori:

- **Opsiwn 3 – sef adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd;**
- **Opsiwn 8 – addasiadau i Ysgol Esceifiog, Gaerwen;**
- **Opsiwn 7 – bydd angen ymgynghori ymhellach ar yr opsiwn o addasu Ysgol**

Y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn;
• **Opsiwn 9 – addasiadau i Ysgol Henblas.**

Mae'r niferoedd yn Ysgol Henblas wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, o 101 ym Medi 2015 i 84 erbyn Medi 2017. Yn dilyn Arolygiad Estyn yn 2017 mae'r ysgol mewn categori dilyniant 'Monitro Estyn', a bu rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau interim mewn lle i sicrhau arweinyddiaeth briodol.

O ystyried y pwyntiau uchod, ar Ddydd Llun, 18 Rhagfyr 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith 'oedi ac adolygu' o ran dyfodol y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni. O ganlyniad i hyn, cafodd opsiynau ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth addysg yn ardal Llangefni eu hail asesu yn dilyn cadarnhad o gyllid newydd sylweddol. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i ofyn i Swyddogion Addysg edrych ar ardal Llangefni unwaith eto.

Ar ôl adolygu'r sefyllfa, penderfynwyd i ail gychwyn y broses ymgynghori yn **ardal orllewinol Llangefni sef Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas**. Roedd hyn yn golygu y byddai'r Awdurdod yn trefnu cyfarfodydd ymgynghori pellach gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, fel rhan o broses ymgynghori statudol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol hynny, yn ei gyfarfod ar 30ain o Ebrill 2018, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i:

- Gymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus naill ai drwy gynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu fel ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn [h.y. erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2018/19] bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod cyflymder cyfredol y gwelliant yn cynyddu a bod y rhagolygon o ran niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Yn wreiddiol ystyriwyd 21 opsiwn gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 19 Rhagfyr 2016 ar gyfer cyfluniad posib o'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni ac amlinellwyd y rhesymau am ddiystyru rhai opsiynau yn yr adroddiadau ar yr ymgynghori.

Gellir gweld yr opsiynau yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfarfod ,ar y dyddiad uchod ac yn y ddogfen ymgynghori anstatudol.

Yn dilyn hynny, ystyriwyd 10 safle ar gyfer yr ysgol gynradd newydd arfaethedig. Gweler y dadansoddiad o'r safleoedd posib yn y ddogfen Gwerthuso Opsiynau Safleoedd.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?

Ydyw

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydyw - Mae'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. Bydd Achos Busnes Llawn am y cynllun uchod yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn fuan yn 2019.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?**Beth oedd eu sylwadau?**

1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Wedi ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad hyn
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo	
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	Ddim yn berthnasol
2	Gwrthdodi	Ddim yn berthnasol
3	Trosedd ac Anhrefn	Ddim yn berthnasol
4	Amgylcheddol	Bydd camau lliniaru yn rhan o'r cais cynllunio
5	Cydraddoldebau	Ddim yn berthnasol
6	Cytundebau Canlyniad	Ddim yn berthnasol
7	Arall	Ddim yn berthnasol

FF - Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Gwrthwynebiad

Atodiad 2 – Proforma safonol

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am

unrhyw wybodaeth bellach):

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 19 Rhagfyr, 2016.
2. Dogfen Ymgynghori Anstatudol a'r Ddogfen Ymgynghori Statudol a'r Adroddiad Ymgynghori
3. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.
4. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014.
5. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Ebrill, 2018.
6. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig Tachwedd 4 2013.
7. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, rhannau 1.2 i 1.14 a rhan 5.
8. Cofnodion y cyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni a gynhaliwyd yn Hydref a Tachwedd 2016 a Chwefror / Mawrth 2018.
9. Dogfen Gwerthuso Opsiynau Safleoedd
10. Rhybudd statudol dyddiedig 2 Hydref 2018



Adroddiad Gwrthwynebu

1. Cefndir

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

- a. Gyfuno dwy ysgol - Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir - mewn un ysgol newydd ar safle yn Llangefni. Bydd yr ysgol yn ysgol gynradd gymunedol gyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle'r ar dir ger stad Bryn Meurig, Llangefni, LL77 7JB ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 2 Hydref 2018 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynnig yn dilyn. Felly, daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 29 Hydref 2018. **Derbyniwyd 111 o wrthwynebiadau i'r cynnig uchod.**

O dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr adroddiad gwrthwynebu") – dyma yw'r ddogfen hon.

2. Gwrthwynebiadau

Derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn:

- a. Ymateb gan Grŵp Ymgyrch Addysg ganolog Cymdeithas yr Iaith:
- b. 109 o ffurflenni ymateb safonol gan randdeiliaid o ~~du~~ Ysgol Bodffordd. Gweler y ffurflen safonol ddefnyddiwyd yn Atodiad 2:
- c. Ymateb gan randdeiliaid

O'r ymatebion ar ffurflen safonol, roedd canrannau'r ymatebwyr i'r pwyntiau yn y ffurflen fel a ganlyn:

Amharod i fy mhlentyn fynychu ysgol drefol	Teithio ar fws yn annerbyniol	Polisi CSYM yn atal rhieni ddewis amgylchedd addysg leol i'w plant	Safle dewisol yn beryglus	Penderfyniad ddim yn caniatáu teithio'n wyrdd	Sylwadau blaenorol wedi eu hanwybyddu
68%	89%	85%	82%	72%	91%



Adroddiad Gwrthwynebu

Yn ogystal, roedd 11 o'r ymatebwyr yn dweud byddai cau Ysgol Bodffordd yn cael effaith negyddol ar y gymuned.

Yn y bôn, mae'r rhanddeiliaid yn dweud:

1. Bod eu plentyn / plant yn cael eu gorfodi i fynychu ysgol drefol fawr
2. Bod "disgwyl i ddisgyblion ifanc o ardal Bodffordd deithio ar fws yn annerbyniol"
3. Bod "polisi cau ysgolion bach CSYM yn atal rhieni ddewis amgylchedd lleol i'w plant"
4. Bod "safle dewisol ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn hynod o beryglus"
5. Nad yw'r "penderfyniad yn caniatáu i ddisgyblion yr ardal gael dewis teithio'n wyrdd"
6. Eu bod yn teimlo bod eu "sylwadau blaenorol yn erbyn cau'r ysgol wedi'u hanwybyddu"
7. "Nad oedd holl ddogfennau'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg"
8. Prisiau tai yn y pentref
9. Dyfodol y Ganolfan ac adeilad yr ysgol
10. Cludiant i'r ysgol gynradd newydd o Fodffordd ac efallai gorfod talu am hyn
11. Angen i'r Awdurdod "benderfynu ar ddull o gydweithio" rhwng ysgolion y dalgylch
12. Bod y cynnig yn golygu cau ysgol "sydd ag 89% yn siarad Cymraeg"
13. Nad oedd y Cyngor yn cadw at y Cod Trefniadaeth Ysgolion

Amlinellir isod ymateb yr Awdurdod i'r pwyntiau hyn:

1. Plant / plentyn yn cael eu gorfodi i fynychu ysgol drefol fawr

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Fel rhan o'r ymgynghori statudol, bydd angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylchoedd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

2. Bod "disgwyl i ddisgyblion ifanc o ardal Bodffordd deithio ar fws yn annerbyniol"

Ar hyn o bryd, mae disgyblion Ysgol Gynradd Llanfairpwll ac Ysgol David Hughes yn teithio ar fws o bentrefi Penmynydd a Star i'w hysgolion. Yn ogystal, mae disgyblion Ysgol Rhyd y Llan yn teithio i'r ysgol newydd ar fws



Adroddiad Gwrthwynebu

o'r pentrefi cyfagos. Mae'r trefniadau hyn yn cyd-fynd â pholisi cludiant plant ysgol y Cyngor sydd wedi ei lywio o fewn canllawiau / Arweiniad Llywodraeth Cymru. Byddai trefniadau'r ysgol newydd hefyd yn cael eu trefnu o fewn disgwyliadau'r polisi hwn.

3. Bod "polisi cau ysgolion bach CSYM yn atal rhieni ddewis amgylchedd lleol i'w plant"

Nid oes gan Gyngor Sir Ynys Môn 'bolisi cau ysgolion bach' ac nid yw erioed wedi cael un. Er hynny, mae strategaeth newydd yr Awdurdod sef **Strategaeth Addysg Ynys Môn : Moderneiddio Ysgolion (Diweddariad 2018)** sydd yn cyfeirio at yr angen i gyfarch y cod diwygiedig a fabwysiadwyd ar 15 Hydref 2018 yn datgan bydd yr Awdurdod yn moderneiddio ei stad ysgolion "drwy uno ysgol ar un safle, uno ysgolion trwy ffurfio ysgol ffederal, ysgol aml-safle, ysgol gynradd ardal newydd, cydleoli ysgolion cynradd ac uwchradd ar un campws neu sefydlu ysgol pob oedran newydd [ar yr un safle neu wahanol safleoedd." Yn yr achos hwn, yn ddarostyngedig ar benderfyniad terfynol y Pwyllgor Gwaith ar 17 Rhagfyr 2018, bydd ysgol gynradd newydd yn cael ei darparu i blant pentref Bodffordd.

4. "Ystyriwn bod safle dewisol ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn hynod o beryglus o ran rhwydwaith ffyrdd / natur a phrysurdeb trafniadaeth o gwmpas y lleoliad. Ystyriwn fod y safle yn beryglus i holl ddefnyddwyr posibl y safle"

Mae arbenigwyr allanol wedi asesu'r drafniadaeth posibl i'r ysgol gynradd newydd ac wedi dod i'r casgliad bod angen cylchfan ar y B5109 (y ffordd rhwng Llangefni a Bodffordd) i roi mynediad at yr ysgol newydd arfaethedig. Yn sgil hyn a'r ffaith y bydd mynedfa'r ysgol o fewn gwaharddiad 30mya, daethpwyd i'r casgliad "nad oes unrhyw sail sy'n ymwneud â diogelwch ac effeithlonrwydd gweithredu'r rhwydwaith priffyrdd lleol i wrthod y cais cynllunio hwn."

5. "Ystyriwn nad yw'r penderfyniad yn caniatáu i ddisgyblion yr ardal gael dewis teithio'n wyrdd"

Nid yw'n bosibl i bob plentyn allu cerdded i'r ysgol neu ddefnyddio ffordd o deithio'n 'wyrdd' i'r ysgol. Mae'n anodd cyfrifo'r allyriadau carbon sy'n deillio o rieni'n mynd a'u plentyn / plant i'r ysgol ond mae'n debygol byddai un bws o bentref Bodffordd i'r ysgol gynradd arfaethedig newydd yn creu llai o allyriadau carbon na petai nifer o rieni yn mynd a'u plant i'r ysgol gynradd newydd.



Adroddiad Gwrthwynebu

6. “Ystyriwn fod ein sylwadau blaenorol yn erbyn cau’r ysgol wedi’u hanwybyddu”

Ym mhob un o’r ymgynghoriadau cynhaliwyd, crynhowyd sylwadau’r rhanddeiliad o Ysgol Bodffordd mewn adroddiad ar bob ymgynghoriad. Ystyriwyd y sylwadau hyn yn fanwl gan aelodau’r Pwyllgor Gwaith cyn iddynt wneud penderfyniad.

7. “Nad oedd holl ddogfennau’r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg”

Ymddengys fod y rhanddeiliad yn cyfeirio at yr ymgynghoriad cyn ymgeisio am ganiatâd cynllunio ar gyfer ‘Ysgol Newydd Llangefni’ fel gelwir yr ysgol gynradd newydd arfaethedig yn y ddogfennaeth cynllunio. Fel rhan o’r broses yma cyhoeddwyd y ddogfennaeth (gan gynnwys adroddiadau technegol/arbenigol) gan arbenigwyr allanol yn uniaith Saesneg am amser byr. Yn dilyn cydnabyddiaeth o’r diffyg hwn, cymerwyd camau adferol rhagweithiol ar fyrder gan y Cyngor Sir i unioni’r sefyllfa ac fe gyhoeddwyd fersiynau Cymraeg o’r dogfennaeth a ganlyn:

- Ffurflen Gais Cynllunio Drafft
- Cynllun Llwr
- Cynllun Lleoliad Safle
- Cynllun Trefniadaeth Gyffredinol Tirlunio
- Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg
- Datganiad Cymuned ac Ieithyddol

8. Prisiau tai yn y pentref

Cafodd effaith posib cau Ysgol Bodffordd ar brisiau tai ei asesu yn yr Asesiad Effaith. Gallai cau’r ysgol gael effaith ar natur ddeniadol yr ardal leol ar gyfer prynwyr tai arfaethedig, yn arbennig rai sydd gan, neu sy’n bwriadu cael plant. Mae hyn yn wir ar gyfer unrhyw wasanaeth, megis meddygfa, llyfrgell neu ganolfan hamdden. I’r gwrthwyneb, gallai trigolion lleol ystyried y byddai cau neu adleoli ysgol ymaith o ardal yn beth defnyddiol gan wneud yr ardal yn fwy

deniadol i brynwyr tai sy’n chwilio am gymdogaeth dawelach. Nid awgrymir effaith gadarnhaol neu negyddol gyffredinol yma ond cydnabyddir y posibilrwydd ar gyfer newid mewn cyfansoddiad preswylwyr dros amser.

9. Dyfodol y Ganolfan ac adeilad yr ysgol

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 30 Ebrill 2018, penderfynwyd:



Adroddiad Gwrthwynebu

- Cymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu ysgol newydd ar gyfer ysgolion Bodffordd a Corn Hir a pharhau i gynnal darpariaeth addysgol yn Llangristiolus naill ai drwy gynnal Ysgol Henblas ar ei ffurf gyfredol neu fel ysgol aml-safle [h.y. uno Henblas gyda'r ysgol newydd a chreu un ysgol ar ddau safle]. Byddai rhaid i'r penderfyniad hwn fod yn gysylltiedig â chael sicrwydd mewn blwyddyn [h.y. erbyn diwedd blwyddyn ysgol 2018/19] bod safonau yn Ysgol Henblas yn codi, bod cyflymder cyfredol y gwelliant yn cynyddu a bod y rhagolygon o ran niferoedd disgyblion yn parhau'n gyson neu yn codi.
- Bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyngor Cymuned Bodffordd a chyda cymuned Bodffordd er mwyn diogelu a chadw'r neuadd gymuned. Y trafodaethau hynny i gychwyn yn ystod y 6 wythnos nesaf.

Mae'r trafodaethau am ddyfodol y Ganolfan Gymunedol ym Modffordd wedi cychwyn ers mis Mehefin 2018 ac yn parhau. Y gobaith yw dod i gytundeb gyda'r gymuned ynghlych dyfodol y Ganolfan cyn dod i benderfyniad ynglŷn a'r safle.

10. Cludiant i'r ysgol gynradd newydd o Fodffordd ac efallai gorfod talu am hyn

Dywed y rhybudd statudol: "Bwriedir trefnu cludiant i'r ysgol newydd o ddalgylch presennol Ysgol Bodffordd." Petai'r ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu, byddai newid yn nhrefniadau teithio i ddysgwyr o gyfeiriad Bodffordd. Byddai swyddogion yr Awdurdod yna'n penderfynu'n ffurfiol pa un ai i ddarparu cludiant i'r ysgol gynradd newydd, ar ôl asesiad diogelwch o'r llwybrau teithio.

11. Angen i'r Awdurdod "benderfynu ar ddull o gydweithio" rhwng ysgolion y dalgylch

Yn ystod yr ymgynghori anstatudol, ystyriwyd o leiaf 3 o opsiynau o ran ffedereiddio e.e. ffedereiddio'r ysgol newydd efo Ysgol Henblas neu Ysgol Esceifiog, ysgol 3-18 ar safle Ysgol Gyfun Llangefni. Gall ffedereiddio arwain at arbedion ond nid yw'n newid y sefyllfa o ran ôl-groniad cynnal a chadw a chyflwr ysgolion. Er nad yw'r opsiynau o ran ffedereiddio wedi eu hystyried ymhellach yn yr ymgynghoriadau, nid yw hynny'n golygu na ellir symud tuag cyflawni hynny yn y dyfodol neu gydweithio'n agosach yn y dyfodol.



Adroddiad Gwrthwynebu

12. Bod y cynnig yn golygu cau ysgol “sydd ag 89% yn siarad Cymraeg”

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd y cynllun a gyflwynir - yn ddarostyngedig i ofynion ein polisi iaith. Bydd yn flaenoriaeth gennym i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.

Os gwireddir y cynnig (o ganlyniad i asesiad effaith yr iaith Gymraeg), bydd y datblygiad yn cynnal y gymuned bresennol ac y bydd yr effaith o'i wireddu yn gadarnhaol gan y bydd yn caniatáu i addysg ddwyieithog barhau.

13. Nad oedd y Cyngor yn cadw at y Cod Trefniadaeth Ysgolion

Mae'r Cyngor wedi cadw at y Cod Trefniadaeth Ysgolion oedd yn bodoli ar y pryd yn ystod yr holl broses ymgynghori. Nid yw'r Còd Trefniadaeth ddiwygiedig (Tachwedd 2018) yn dweud na ddylai ysgolion gwledig gau. Yn wir, mae'r Còd Trefniadaeth yn datgan bod blaenoriaeth i ddarparu addysg o safon uchel mewn ysgolion bach a gwledig, ac yn wir mae'n cydnabod mai addysg yw'r ystyriaeth bennaf. Mae'r Còd Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig wedi dod ers 1 Tachwedd 2018 ond roedd yr Awdurdod yn ceisio cyfarch ei gynnwys cyn hynny.

Gwrthwynebiad Rhybudd Statudol

I sylw Rheolwr Rhaglen, Adran Dysgu Gydol Oes, Pencadlys y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW

Cyflwynwn yr ymateb hwn i wrthwynebu cyhoeddiad Rhybudd Statudol i gau Ysgol Gymuned Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

Dymunwn leisio fy ngwrthwynebiad cryf i'r penderfyniad i gau Ysgol Gymuned Bodffordd. Cyflwynaf yr ymateb hwn o fewn y 28 diwrnod cyfnod ymateb.

Dymunwn i chi nodi fy ngwrthwynebiad oherwydd y rhesymau canlynol:

	Tic yn ôl Perthnasedd
Rwyf yn amharod i dderbyn bod fy mhlentyn / plant yn cael eu gorfodi i fynychu ysgol drefol fawr.	
Ystyriwn bod disgwyl i ddisgyblion ifanc o ardal Bodffordd deithio ar fws yn annerbyniol.	
Ystyriwn bod polisi cau ysgolion bach CSYM yn atal rhieni ddewis amgylchedd addysg leol i'w plant.	
Ystyriwn bod safle dewisol ar gyfer yr ysgol newydd yn hynod o beryglus o ran rhwydwaith ffyrdd / natur a prysurdeb trafndiaeth o gwmpas y lleoliad. Ystyriwn bod y safle yn beryglus i holl ddefnyddwyr posibl y safle.	
Ystyriwn nad yw'r penderfyniad yn caniatáu i ddisgyblion yr ardal gael dewis teithio'n wyrdd.	
Ystyriwn bod ein sylwadau blaenorol yn erbyn cau'r ysgol wedi'u hanwybyddu	
Sylwadau eraill	

This page is intentionally left blank

DDIM I'W GYHOEDDI

NOT FOR PUBLICATION

Moderneiddio Ysgolion Môn – Ehangu Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn

Modernising Anglesey Schools – Expand Ysgol y Graig by building a new Foundation Phase block and close Ysgol Talwrn

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD
PUBLIC INTEREST TEST**

Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972	
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r ASA/ABA sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif am y prosiect.</p> <p>The attached SOC/OBC contains commercially sensitive information.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal yr wybodaeth).</p> <p>Information relating to the financial or business affairs of any particular of any particular person (including the authority holding that information).</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn llai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

Costau cyllid Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr / Funding Costs for Gypsy and Traveller sites

<p>Nid yw Paragraff(au) i gael eu cyhoeddi'n unol â pharagraffau 14 rhan 1 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 / Paragraph(s) Not for publication by reason of paragraph 14 of part 1 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972:</p>	
<p>14. Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth) / Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information)</p>	
<p>Y PRAWF – THE TEST</p>	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae gan y Cyhoedd ddisgwyliadau rhesymol y bydd y Cyngor yn dryloyw mewn materion gwariant a bod hefyd diddordeb cyhoeddus mewn datgelu gwybodaeth am drefniadau'r Cyngor ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>The Public have reasonable expectations that the Council is transparent in matters relating to expenditure and that there is a public interest in disclosing information with regards to arrangements by the Council for Gypsy and Travellers.</p>	<p>Y budd i'r cyhoedd o beidio datgelu yw/ The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion costau cyllid ar ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Wedi pwyso a mesur, penderfynwyd gweithredu Prawf Budd y Cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn oherwydd sensitifrwydd masnachol y wybodaeth ac er mwyn gwarchod yr angen i gael gwerth gorau i'r Cyngor pan yn tendro am y gwaith hwn.</p> <p>This report contains details of budget costs for developing the Gypsy and Traveller sites. On consideration of balance it is considered that a Public Interest Test is implemented on this report due to the commercial sensitivity of the information in relation to obtaining best value for the Council when tendering for this work.</p>
<p>Argymhelliad – Mae'r budd i'r cyhoedd o gadw'r eithriad yn gwrthbwysu'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth / Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs/ the public interest in disclosing the information.</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank